Cyngor Bro Morgannwg

# Cynllun Datblygu Lleol Newydd

# 2021 – 2036

Tachwedd 2023

RLDP CDLN



## Y Strategaeth a Ffefrir

**This document is available in English/ Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**

## TABL CYNNWYS


**1. Cyflwyniad** .......... **1**

**Beth yw'r Strategaeth a Ffefrir ar gyfer y CDLl?** .......... **1**

**Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig o'r Strategaeth a Ffefrir** .......... **3**

**Dogfennau Ategol Eraill** .......... **4**

**Dweud Eich Dweud ar y Strategaeth a Ffefrir** .......... **4**

**Sut i Gyflwyno Sylwadau ar y Strategaeth a Ffefrir Ddrafft** .......... **4**

**Beth fydd yn Digwydd Ar Ôl yr Ymgynghoriad?** .......... **5**

**2. Cyd-destun Polisi** .......... **7**

**Deddfwriaeth a Pholisi Cenedlaethol** .......... **7**

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf Llesiant) .......... 7

Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 .......... 8

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 .......... 8

Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 .......... 9

Cymru Fwy Cyfartal - Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol (2021) .......... 9

Deddf Iechyd Y Cyhoedd (Cymru) 2017 .......... 10

Cymru'r Dyfodol - Y Cynllun Cenedlaethol 2040 (Llywodraeth Cymru, Chwefror 2021) .......... 10

Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (2019) .......... 14

Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 11 (2021) .......... 14

Nodiadau Cyngor Technegol (NCTau), Cylchlythyrau a Llythyrau Egluro Polisi .......... 15

Adeiladu Lleoedd Gwell – Y System Gynllunio yn Sicrhau Dyfodol Cydnerth a Mwy Disglair: Creu Lleoedd ac adferiad Covid-19 (LlC, Gorffennaf 2020) .......... 15

Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru (2021) .......... 16

Datganiadau Argyfwng Hinsawdd a Natur .......... 17

**Y Cyd-destun Rhanbarthol .......... 17**
Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd .......... 17
Cynllun Economaidd a Diwydiannol Rhanbarthol 2023-2028 P-RC .......... 17
Metro De Cymru .......... 18
Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Agregau (2020) .......... 18
Cydweithredu Rhanbarthol .......... 18
Cynlluniau Datblygu Lleol ac Awdurdodau Cynllunio Lleol Cyfagos .......... 19
**Cyd-destun Polisi Lleol .......... 20**
Prosiect Sero - Cynllun Her Newid Hinsawdd Cyngor Bro Morgannwg 2021-2030 .......... 21
Cynllun Corfforaethol Bro Morgannwg 2020-2025 .......... 21
Cynllun Trafnidiaeth Lleol Bro Morgannwg 2015 - 2030 .......... 22
Blaengynllun Bioamrywiaeth Bro Morgannwg (2019) .......... 23
Strategaeth Tai Lleol Bro Morgannwg 2021-26 .......... 23
Strategaeth Tai Pobl Hŷn Bro Morgannwg .......... 24
Yr Argyfyngau Hinsawdd a Natur a Ddatganwyd .......... 24
Y Siarter Creu Lleoedd a Chynlluniau Creu Lleoedd .......... 25
**3. NODWEDDION ALLWEDDOL BRO MORGANNWG .......... 26**
**Patrwm Anheddiad .......... 26**
**Poblogaeth a Demograffeg .......... 29**
**Y Farchnad Dai a’r Angen am Dai .......... 31**
**Sipsiwn a Theithwyr .......... 32**
**Iechyd a Lles .......... 32**
**Addysg .......... 33**
**Cysylltedd .......... 33**
**Economi a Chyflogaeth .......... 34**

Lle Gwaith a Chymudo....34
Strwythur Cyflogaeth....35
**Twristiaeth....36**
**Manwerthu....37**
**Yr Amgylchedd Naturiol....37**
**Iaith, Diwylliant, Treftadaeth ac Amrywiaeth....38**
**Newid yn yr Hinsawdd a Pherygl Llifogydd....39**
**4. THEMÂU, GWELEDIGAETH AC AMCANION ALLWEDDOL Y CDLlN....41**
**THEMÂU ALLWEDDOL....41**
**GWELEDIGAETH (2021 - 2036)....43**
**AMCANION STRATEGOL....45**
**5. Opsiynau'r Strategaeth Ofodol a Thwf....49**
**Opsiynau'r Strategaeth Ofodol....49**
**Opsiynau Twf....50**
**6. Y Strategaeth a Ffafrir....54**
**Ardal Twf Strategol....61**
**Diagram Allweddol....61**
**POLISÏAU STRATEGOL....63**
DEWISIADAU STRATEGOL A GOFODOL....63
**STRATEGAETH TWF A FFAFRIR....63**
**HIERARCHAETH ANEDDIADAU....64**
Aneddiadau'r Ardal Twf Strategol....65
Aneddiadau y tu allan i'r Ardaloedd Twf Strategol....66
**TWF TAI....68**
**DARPARU TAI....71**
Dosbarthiad Gofodol Twf Tai....74

Manylion safleoedd allweddol ....77
LLEOEDD ACTIF A CHYMDEITHASOL ....88
**CREU LLEOEDD ....88**
**IECHYD A LLESIANT ....91**
**TRAFNIDIAETH GYNALIADWY ....94**
**TAI FFORDDIADWY AC ARBENIGOL ....97**
**CANOLFANNAU MANWERTHU, MASNACHOL A GWASANAETH ....100**
**SEILWAITH ....102**
LLEOEDD CYNHYRCHIOL A MENTRUS....104
**TWF ECONOMAIDD ....104**
Dyraniadau Cyflogaeth Mawr ....106
Dyraniadau Cyflogaeth Lleol ....109
Ardaloedd Cyfle Adfywio Cyflogaeth ....110
**TWRISTIAETH ....112**
**NEWID HINSAWDD ....113**
**RHEOLI GWASTRAFF CYNALIADWY ....117**
**MWYNAU ....119**
LLEOEDD UNIGRYW A NATURIOL....120
**SEILWAITH GWYRDD ....120**
**CADWRAETH NATUR A BIOAMRYWIAETH ....123**
Atodiad 1 – Cyflenwad Tir Presennol - Safleoedd sydd â chaniatâd cynllunio gan gynnwys safleoedd sy'n cael eu hadeiladu – 1 Ebrill 2023....125
Atodiad 2 – Safleoedd sydd wedi'u mabwysiadu yn y CDLl a'u bwrw ymlaen ....128
Atodiad 3 – Safleoedd Tai Allweddol....130

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'n ofynnol i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru lunio Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) i reoli tir a datblygiad yn y tymor hir, gan nodi gweledigaeth gadarnhaol ar gyfer yr ardal, ac yn nodi ble a sut y dylid datblygu yn y dyfodol.


1.2 Mabwysiadwyd CDLl presennol Bro Morgannwg ym mis Mehefin 2017, ac mae'n cwmpasu'r cyfnod 2011-2026. Ar ôl mabwysiadu'r CDLl, mae'n ofynnol i'r Cyngor fonitro perfformiad y cynllun yn flynyddol, ac ar ôl 4 blynedd cynnal adolygiad o'r cynllun i ystyried a oes angen diweddaru neu ddisodli ei CDLl. Cynhaliwyd adolygiad o'r CDLl mabwysiedig ym mis Mehefin 2021 a ddaeth i'r casgliad bod angen llunio CDLl Newydd (CDLlN) oherwydd newidiadau i gynllunio cenedlaethol ac uchelgeisiau a dyheadau newydd y Cyngor, megis mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Dechreuwyd y gwaith ar y CDLlN yn ffurfiol ym mis Mai 2022 a fydd yn disodli'r CDLl mabwysiedig presennol ar ôl ei fabwysiadu a bydd yn cwmpasu'r cyfnod 2021-2036.

1.3 Bydd y CDLlN yn nodi ble a sut y bydd datblygiadau newydd yn digwydd yn y cyfnod hyd at 2036. Bydd yn cynnwys dyraniadau safle ar gyfer gwahanol ddefnyddiau tir, fel tai a chyflogaeth, a pholisïau i helpu i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur datganedig, diogelu'r amgylchedd, a sicrhau dyluniad o ansawdd uchel. Pan gaiff ei fabwysiadu gan y Cyngor, bydd y CDLl yn cael ei ddefnyddio fel sail ar gyfer penderfynu ceisiadau cynllunio.

## Beth yw'r Strategaeth a Ffefrir ar gyfer y CDLl?

1.4 Y Strategaeth a Ffefrir yw'r cam ymgynghori statudol cyntaf yn y broses o baratoi CDLlN ac, yn unol â Rheoliadau'r CDLl, mae'n destun ymgynghoriad cyhoeddus statudol chwe wythnos.


1.5 Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn nodi'r cyfeiriad strategol arfaethedig y bydd y Cyngor yn ei gymryd wrth reoli datblygiad ym Mro Morgannwg hyd at 2036. Mae'n nodi Gweledigaeth, amcanion strategol, a strategaeth ofodol eang y Cyngor, gan gynnwys lefel twf strategol a dosbarthiad gofodol eang twf ledled Bro Morgannwg, fel y dangosir isod:




**Ffigur 1: Dadansoddiad o'r Strategaeth a Ffefrir**

1.6 Nid y Strategaeth a Ffefrir yw'r CDLlN terfynol ac felly nid yw'n cynnwys yr holl bolisïau, cynigion defnydd tir na seilwaith y bydd eu hangen i gefnogi datblygiad. Bydd y manylion hyn yn cael eu nodi yn y CDLlN ar Adnau a fydd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ar ddechrau 2025.

1.7 Wrth ddatblygu ei Strategaeth a Ffefrir, mae'r Cyngor wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol i nodi'r materion allweddol y dylai'r CDLlN eu hystyried ac wrth ddatblygu'r Weledigaeth a'r Amcanion a'r Dewisiadau Twf a Gofodol a Ffefrir.. Mae Ffigur 2 yn dangos gwahanol gamau paratoi'r CDLlN a safle’r Ymgynghoriad ar Strategaeth a Ffefrir y CDLlN o fewn y camau amrywiol wrth baratoi'r cynllun. Mae amserlen paratoi’r CDLlN llawn a'r Strategaeth Cynnwys y Gymuned wedi’u nodi yn y Cytundeb Cyflenwi cymeradwy sydd ar gael ar wefan y Cyngor.




**Ffigur 2: Camau Paratoi CDLlN**

## Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig o'r Strategaeth a Ffefrir

1.8 Yn unol â gofynion statudol, mae paratoi’r Strategaeth a Ffefrir wedi bod yn ddarostyngedig i a’i lywio gan Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI). Mae’r ACI yn cyflawni'r gofynion a'r dyletswyddau cyfreithiol ar gyfer Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS), Asesiad Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (ALlCD), Asesiad o’r Effaith ar Iechyd (AEI), Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb (AEG) ac Asesiad o'r Effaith ar Y Gymraeg (AEYG).

1.9 Nod yr ACI yw asesu i ba raddau y bydd polisïau cynllunio datblygol yn helpu i gyflawni amcanion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ehangach y CDLlN. Cyhoeddir ACI y Strategaeth a Ffefrir Ddrafft fel dogfen ar wahân. Mae'r Strategaeth a Ffefrir Ddrafft hefyd wedi ei sgrinio o dan yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC). Mae'r ddwy ddogfen yn rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y CDLlN ac maent ar gael ar wefan y Cyngor.

1.10 Cynhaliwyd yr asesiadau hyn mewn modd integredig a'u defnyddio fel offer llunio cynlluniau i lywio'r Strategaeth a Ffefrir sy'n caniatáu craffu ar oblygiadau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd pob elfen o'r Strategaeth ac i fynd i'r afael ag unrhyw ansicrwydd, materion neu ofynion lliniaru a nodwyd yn ystod y prosesau asesu effaith. Bydd y broses ailadroddol hon yn parhau i fod yn rhan annatod o waith paratoi cynllun y Cyngor o'i CDLlN.

## Dogfennau Ategol Eraill

1.11 Yn eistedd ochr yn ochr â'r Strategaeth a Ffefrir mae nifer o bapurau tystiolaeth gefndir sy'n darparu ffynonellau gwybodaeth allweddol sydd wedi llywio'r strategaeth. Cyhoeddwyd y dogfennau hyn ar wahân ac maent ar gael ar wefan y Cyngor.

1.12 Maent yn canolbwyntio'n fanylach ar rai o'r materion allweddol sydd o bwys arbennig i Fro Morgannwg ac felly i'r CDLlN. Dylid eu darllen ochr yn ochr â'r Strategaeth a Ffefrir Ddrafft, gan mai dim ond eu prif ganfyddiadau a amlygir yn nogfen y Strategaeth a Ffefrir oherwydd y swm sylweddol o ddata a gwybodaeth gefndirol sydd ynddynt.

## Dweud Eich Dweud ar y Strategaeth a Ffefrir

1.13 Byddai'r Cyngor yn croesawu eich barn ar Strategaeth a Ffefrir Ddrafft y Cynllun Datblygu Lleol Newydd ac i chi gael cyfle i chi ddweud eich dweud ar ddyfodol ardal y cynllun.

1.14 Bydd y cyfnod ymgynghori statudol yn digwydd rhwng **6 Rhagfyr 2023 a 14 Chwefror 2024**. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno sylwadau yw 23:59 ar 14 Chwefror 2024. Ni fydd unrhyw sylwadau sy’n dod i law ar ôl y dyddiad ac amser cau’r ymgynghoriad yn cael eu hystyried.

1.15 Mae'r Strategaeth a Ffefrir a'r holl ddogfennau ategol ar gael i'w gweld ar wefan y Cyngor ac mae copïau o'r Strategaeth a Ffefrir wedi'u rhoi yn holl lyfrgelloedd y Cyngor a'r Ganolfan Ddinesig.

## Sut i Gyflwyno Sylwadau ar y Strategaeth a Ffefrir Ddrafft

1.16 Gellir gwneud sylwadau ar ymgynghoriad y Strategaeth a Ffefrir Ddrafft yn y ffyrdd canlynol.

- Defnyddio ein porth ymgynghori ar-lein:

Mae'r Cyngor yn annog i bob ymateb i'r Strategaeth a Ffefrir Ddrafft gael ei wneud drwy ei borth ymgynghori ar-lein, sy'n cynnwys elfennau i'ch helpu i wneud

sylwadau, yn ogystal â'r gallu i gadw ac adolygu ymatebion i'r ymgynghoriad cyn ei gyflwyno'n derfynol.

I gyflwyno ymateb ar-lein i'r Strategaeth a Ffefrir Ddrafft, bydd angen i chi sefydlu cyfrif a dilyn y Cyfarwyddiadau sydd ar gael ar y wefan. Ar ôl cofrestru, gallwch ddefnyddio'r system ymgynghori ar-lein i ddarllen dogfennau a gyhoeddir gan y Cyngor a naill ai gwneud sylwadau yn ystod ymgynghoriad cyhoeddus neu weld sylwadau a wnaed gan bobl eraill.
https://valeofglamorgan.oc2.uk/cy/

- **E-bost:** Llenwch y ffurflen ymgynghori sydd ar gael ar dudalen we'r Cyngor yn www.valeofglamorgan.gov.uk/ldp a'i hanfon i: LDP@bromorgannwg.gov.uk

- **Post:** Gallwch argraffu, llenwi a dychwelyd y ffurflen sylwadau i'r tîm CDLl yn: Tîm CDLl, Cyngor Bro Morgannwg, Swyddfa'r Dociau, Heol yr Isffordd, y Barri CF63 4RT

1.17 Mae ffurflen sylwadau ymgynghoriad y Strategaeth Ddrafft a Ffefrir ar gael mewn fformatau eraill ar gais, e.e. Cymraeg, print bras. Cysylltwch â Thîm y CDLl yn LDP@valeofglamorgan.gov.uk neu'r cyfeiriad uchod.

## Beth fydd yn Digwydd Ar Ôl yr Ymgynghoriad?

1.18 Ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben, bydd y Cyngor yn ystyried yr ymatebion sy'n dod i law yn ofalus. Bydd Adroddiad Ymgynghori Cychwynnol yn cael ei baratoi, a fydd yn nodi pwy yr ymgynghorwyd â nhw, y prif faterion a godwyd a sut mae'r sylwadau hyn wedi dylanwadu ar gam nesaf y gwaith o baratoi'r cynllun – y CDLlN ar Adnau.

1.19 Yn dilyn ymgynghoriad ar y CDLlN ar Adnau, bydd y Cyngor hefyd yn ystyried yr holl sylwadau a dderbynnir a bydd paratoadau yn cael eu gwneud i'r cynllun gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru, a fydd yn trefnu penodi Arolygydd Cynllunio annibynnol i gynnal archwiliad cyhoeddus.

1.20 Yn dilyn yr archwiliad bydd yr Arolygydd yn cyhoeddi adroddiad yn argymell newidiadau sydd angen eu gwneud i'r CDLl. Os yw'r Arolygydd o'r farn nad yw'r Cynllun yn gadarn yn sylfaenol, ni fydd yn cael ei argymell i'w fabwysiadu. Bydd casgliadau'r Arolygydd yn gyfrwymol ac oni bai bod Llywodraeth Cymru yn ymyrryd, rhaid i'r Cyngor dderbyn y newidiadau a mabwysiadu'r CDLl fel y'i diwygiwyd.

1.21 Ar ôl ei fabwysiadu, bydd y CDLl Newydd yn disodli'r CDLl presennol a fabwysiadwyd yn 2017 a bydd yn dod y fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio.

## 2. CYD-DESTUN POLISI

2.1 Wrth ddatblygu ei CDLlN, mae'n ofynnol i'r Cyngor ystyried unrhyw bolisïau a strategaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol perthnasol, ymgysylltu â rhanddeiliaid a chanfyddiadau tystiolaeth dechnegol a ddatblygwyd i gefnogi'r cynllun. Mae elfennau allweddol o'r cyd-destun y mae'r Strategaeth a Ffefrir wedi'i pharatoi ynddo wedi'u nodi isod.

### Deddfwriaeth a Pholisi Cenedlaethol

2.2 Mae'r dogfennau a ystyrir yn yr adran hon yn ddogfennau cenedlaethol sy'n berthnasol ledled Cymru gyfan.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf Llesiant)**

2.3 Mae'r Ddeddf Llesiant yn cryfhau'r fframwaith ar gyfer gwella llesiant Cymru drwy sicrhau bod datblygu cynaliadwy wrth wraidd y llywodraeth a chyrff cyhoeddus. Ei nod yw gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl yng Nghymru o ran y saith nod llesiant:




**Ffigur 3: Nodau Llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)**
**Ffynhonnell: Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 11 (Chwefror 2021)**

2.4 Mae'r Ddeddf Llesiant yn nodi 'egwyddor datblygu cynaliadwy' ac yn rhoi dyletswydd ar gyrff cyhoeddus, gan gynnwys awdurdodau lleol, i weithredu 'mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb

beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.’ Mae datblygu cynaliadwy wrth wraidd y CDLlN ac mae'n rhan sylfaenol o'r broses Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI).

2.5 Mae'r Ddeddf Llesiant hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i bob corff cyhoeddus gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth wneud penderfyniadau drwy fabwysiadu 5 ffordd o weithio. Y rhain yw:

- Ystyried y tymor hir.
- Helpu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu.
- Defnyddio dull gweithredu integredig.
- Defnyddio dull gweithredu cydweithredol.
- Ystyried a chynnwys pobl o bob oed ac amrywiaeth.

2.6 Bu’r pum ffordd o weithio yn ganolog i baratoi'r Strategaeth a Ffefrir a byddant yn parhau i fod yn gynhenid i ddatblygu camau diweddarach y broses o baratoi’r CDLlN.

## Deddf Cynllunio (Cymru) 2015

2.7 Daeth Deddf Cynllunio (Cymru) (y Ddeddf Cynllunio) i rym ym mis Gorffennaf 2015. Mae'n nodi cyfres o newidiadau deddfwriaethol i ddiwygio'r system gynllunio yng Nghymru, er mwyn sicrhau ei bod yn deg, yn wydn ac yn galluogi datblygiad.

2.8 Mae’r Ddeddf Cynllunio yn cyflwyno fframwaith cyfreithiol ar gyfer paratoi Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) a Chynlluniau Datblygu Strategol (CDSau). Cafodd Cymru'r Dyfodol, y FfDC, ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru yn 2021, ac fe’i trafodir yn fanwl yn yr adran nesaf. Bwriad CDSau yw darparu fframwaith gofodol rhanbarthol ar gyfer datblygu a defnyddio tir o fewn rhanbarth diffiniedig yn y dyfodol. Cydbwyllgor Corfforaethol De-ddwyrain Cymru sy’n gyfrifol am baratoi CDS ar gyfer y rhanbarth. Fodd bynnag, nid yw gwaith ffurfiol ar y CDS ar gyfer De-ddwyrain Cymru wedi dechrau eto. Felly mae paratoi'r CDLlN yn mynd rhagddo cyn paratoi'r CDS, er y gwneir pob ymdrech i sicrhau ei fod yn cydymffurfio'n gyffredinol â'r CDS datblygol wrth iddo gael ei baratoi. Er gwaethaf hyn, bydd angen adolygu’r CDLlN pan fydd y CDS yn cael ei fabwysiadu.

## Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

2.9 Nod Deddf yr Amgylchedd (Cymru) (Deddf yr Amgylchedd) yw gwella rheolaeth adnoddau naturiol Cymru mewn ffordd fwy rhagweithiol, cynaliadwy a chydgysylltiedig. Mae'n cynnwys dyletswydd bioamrywiaeth uwch sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo gwytnwch ecosystemau.

2.10 Cyflwynodd Deddf yr Amgylchedd hefyd ofyniad i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) lunio Datganiadau Ardal. Mae Bro Morgannwg wedi'i gynnwys yn Natganiad Ardal Canol De Cymru, sydd hefyd yn cynnwys Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Chaerdydd.

2.11 Dibenion datganiadau Ardal yw darparu'r fframwaith ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Hysbysir Datganiad Ardal Canol y De gan y 5 thema ganlynol:

- Adeiladu ecosystemau gwydn
- Cysylltu pobl â natur
- Gweithio gyda dŵr
- Gwella ein hiechyd
- Gwella ein hansawdd aer

**Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013**

2.12 Nod Deddf Teithio Llesol (Cymru) (Deddf Teithio Llesol) yw hyrwyddo cerdded a beicio fel ffordd o deithio ar gyfer teithiau byr (h.y., i gyrraedd gwaith, ysgol neu siopau a gwasanaethau). Mae'r Ddeddf Teithio Llesol yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar awdurdodau lleol i gynllunio llwybrau addas ar gyfer teithio llesol, llunio mapiau teithio llesol, ystyried anghenion cerddwyr a beicwyr a gwella llwybrau a chyfleusterau teithio llesol.

2.13 Er mwyn cyflawni'r amcanion hyn, mae'r Ddeddf Teithio Llesol yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol nodi llwybrau teithio llesol a chyfleusterau cysylltiedig drwy ddatblygu Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol (MRhTLl). Mae MRhTLl Bro Morgannwg yn rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y CDLlN.

**Cymru Fwy Cyfartal - Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol (2021)**

2.14 Mae'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn ofyniad cyfreithiol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a ddaeth i rym yng Nghymru ar 31 Mawrth 2021. Mae'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus penodol ystyried sut y gallai eu penderfyniadau helpu i leihau'r anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau strategol.

2.15 Mae'r Ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ystyried yr angen i leihau anghydraddoldebau canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys ystyried sut y gall polisïau, rhaglenni a gwasanaethau leihau anghydraddoldebau a hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol. Gan fod y Ddyletswydd yn berthnasol i ddatblygu polisi strategol, mae'n berthnasol

i'r CDLlN. Mae'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn dod o fewn cwmpas yr ACI a gynhaliwyd mewn cysylltiad â'r CDLlN a nodir canfyddiadau'r arfarniad yn nogfennau'r ACI.

**Deddf Iechyd Y Cyhoedd (Cymru) 2017**

2.16 Mae Rhan 6 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd (AEIau) mewn amgylchiadau penodol. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd y rheoliadau'n nodi'r amgylchiadau y mae'n rhaid i gorff cyhoeddus gyflawni AEI; a'r ffordd y mae'n rhaid cynnal AEI.

2.17 Diben AEI yw sicrhau bod effeithiau datblygiad ar iechyd ac anghydraddoldebau iechyd yn cael eu hystyried a'u trin yn ystod y broses gynllunio a dylid gwneud hyn yn gynnar yn y cynllun datblygu fel bod modd nodi ac ymdrin ag unrhyw effeithiau iechyd perthnasol. Yn hyn o beth, wrth baratoi'r CDLlN mae'r ACI yn ymgorffori AEI yn y fethodoleg arfarnu ac mae'n cynnwys mesurau iechyd a lles penodol.

**Cymru'r Dyfodol - Y Cynllun Cenedlaethol 2040 (Llywodraeth Cymru, Chwefror 2021)**

2.18 Cymru'r Dyfodol – Y Cynllun Cenedlaethol 2040 yw ein fframwaith datblygu cenedlaethol, sy'n pennu'r cyfeiriad ar gyfer datblygu yng Nghymru hyd at 2040. Mae'n gynllun datblygu ag iddo strategaeth ar gyfer ymdrin â blaenoriaethau cenedlaethol allweddol drwy'r system gynllunio, gan gynnwys cynnal a datblygu economi fywiog, sicrhau datgarboneiddio a gwydnwch yr hinsawdd, datblygu ecosystemau cryf a gwella iechyd a lles ein cymunedau. Dyma'r haen uchaf o gynllun datblygu yng Nghymru ac mae'n canolbwyntio ar atebion i faterion a heriau ar raddfa genedlaethol. Mae Cymru'r Dyfodol yn nodi lle mae angen twf a seilwaith o bwys cenedlaethol a sut y gall y system gynllunio ei gyflawni ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol. Mae'n darparu cyfeiriad ar gyfer CDSau a CDLlau ac yn cefnogi pennu Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol.

2.19 Mae Cymru'r Dyfodol yn nodi 11 o ganlyniadau sydd, gyda'i gilydd, yn ddatganiad o ble mae Llywodraeth Cymru yn dymuno i Gymru fod erbyn 2040. Dyma'r canlyniadau:

Cymru lle mae pobl yn byw...

- ac yn gweithio mewn lleoedd cysylltiedig, cynhwysol ac iach.
- mewn lleoedd gwledig llewyrchus lle y gallant gael cartrefi, gwaith a gwasanaethau.
- mewn rhanbarthau nodedig sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ac anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol drwy dwf cynaliadwy.
- mewn lleoedd lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.

- ac yn gweithio mewn trefi a dinasoedd sy’n ganolbwynt ac yn sbardun i dwf cynaliadwy.
- mewn lleoedd lle y caiff ffyniant, arloesedd a diwylliant eu hyrwyddo.
- mewn lleoedd lle mae teithio yn gynaliadwy.
- mewn lleoedd â seilwaith digidol o'r radd flaenaf.
- mewn lleoedd sy'n rheoli eu hadnoddau naturiol yn gynaliadwy ac yn lleihau llygredd.
- mewn lleoedd ag ecosystemau bioamrywiol, cadarn a chysylltiedig.
- mewn lleoedd sydd wedi'u datgarboneiddio ac sy’n gallu gwrthsefyll yr hinsawdd.

2.20 Mae Cymru'r Dyfodol yn nodi 18 o bolisïau cenedlaethol sy'n berthnasol ledled Cymru gyfan, a 4 polisi rhanbarthol sy'n berthnasol ledled Rhanbarth y De-ddwyrain. Er y bydd angen mynd i'r afael â'r holl bolisïau yn y CDLlN, mae gan y polisïau canlynol bwysigrwydd arbennig ar gyfer y Strategaeth a Ffefrir:

***Polisi 1 – Ble bydd Cymru'n Tyfu***

2.21 Mae Polisi 1 Cymru'r Dyfodol yn nodi tair Ardal Dwf Cenedlaethol, gan gynnwys Ne-ddwyrain Cymru. Mae'r diagram strategaeth ofodol sy'n cefnogi'r polisi hwn yn nodi bod Bro Morgannwg wedi'i lleoli o fewn Ardal Dwf Cenedlaethol y De-ddwyrain, y cyfeirir ato fel 'Caerdydd, Casnewydd, a'r Cymoedd'. Ategir Polisi 1 gan Bolisi 33, sy'n ymwneud yn benodol â Thwf Cenedlaethol Caerdydd, Casnewydd a'r Cymoedd.

***Polisi 2 – Llywio Twf ac Adfywio Trefol – Creu Lleoedd Strategol***

2.22 Yn nodi'r egwyddorion creu lleoedd allweddol y dylid eu hystyried wrth benderfynu ar leoliad datblygiad newydd. Mae hyn yn cynnwys creu cymysgedd o ddefnyddiau ac amrywiaeth o fathau o dai a deiliadaethau, adeiladu lleoedd ar raddfa gerdded gyda chartrefi, cyfleusterau lleol, a thrafnidiaeth gyhoeddus o fewn pellter cerdded a sicrhau bod datblygiad yn cael ei adeiladu ar ddwysedd priodol gyda seilwaith gwyrdd wedi'i ymgorffori.

***Polisi 6 – Rhoi Canol Trefi yn Gyntaf***

2.23 Mae'n nodi dull canol trefi yn gyntaf o ddarparu cyfleusterau masnachol, manwerthu, addysg, iechyd, hamdden a gwasanaeth cyhoeddus newydd sylweddol o fewn canol trefi a dinasoedd. Mae'r testun ategol ar gyfer y polisi hefyd yn dangos bod canol trefi yn lleoliadau priodol ar gyfer cartrefi newydd.

***Polisi 7 – Darparu Cartrefi Fforddiadwy***

2.24 Ailddatgan dyhead Llywodraeth Cymru i ddarparu lefelau sylweddol o dai fforddiadwy, gan gynnwys drwy'r system gynllunio.

*Polisi 8 – Llifogydd*

2.25 Yn cefnogi rheoli perygl llifogydd sy'n hwyluso twf economaidd a chenedlaethol cynaliadwy, gan hyrwyddo atebion sy'n seiliedig ar natur a cheisio sicrhau'r buddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol mwyaf posibl o seilwaith rheoli perygl llifogydd.

*Polisi 9 – Rhwydweithiau Ecolegol Cadarn a Seilwaith Gwyrdd*

2.26 Mae Polisi 9 yn gofyn am weithredu tuag at ddiogelu a chreu rhwydweithiau ecolegol cadarn a hyrwyddo seilwaith gwyrdd effeithiol drwy greu lleoedd. Mae'n rhagnodi y dylid cynnwys meysydd presennol a darpar feysydd mewn Cynlluniau Datblygu i hyrwyddo a diogelu'r swyddogaethau a'r cyfleoedd y mae rhwydweithiau ecolegol a seilwaith gwyrdd yn eu darparu.

*Polisi 10 - Cysylltedd Rhyngwladol*

2.27 Mae Porth Strategol yn cael ei nodi ym Maes Awyr Caerdydd i hwyluso cysylltedd rhyngwladol. Bydd angen i'r CDLl gefnogi'r Pyrth Strategol drwy sicrhau'r buddion mwyaf posibl i'w rhanbarthau priodol a Chymru. Dylid rheoli datblygiadau newydd o amgylch y Pyrth Strategol yn ofalus i sicrhau na pheryglir na chfyngir ar eu gweithrediad.

*Polisi 12 - Cysylltedd Rhanbarthol*

2.28 Yn nodi bod yn rhaid i ACLlau fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd sy'n deillio o'r buddsoddiad mewn trafnidiaeth gyhoeddus wrth gynllunio ar gyfer twf ac adfywio. Rhaid i awdurdodau cynllunio integreiddio dyraniadau safleoedd, datblygiadau newydd, a seilwaith â rhwydweithiau teithio llesol a, lle bo hynny'n briodol, sicrhau bod datblygiadau newydd yn cyfrannu at eu hehangu a'u gwella. Mae ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wella a chynyddu trafnidiaeth gynaliadwy yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau yn yr ardal twf cenedlaethol gynllunio twf i wneud y mwyaf o gyfleoedd sy'n deillio o fuddsoddiad mewn trafnidiaeth gyhoeddus.

*Polisi 15 – Fforest Genedlaethol*

2.29 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu fforest genedlaethol drwy nodi safleoedd a mecanweithiau priodol, gyda tharged i gynyddu gorchudd coetir ledled Cymru o leiaf 2,000 hectar y flwyddyn. Bydd y fforest genedlaethol yn cynnwys tair elfen:


- Amgylchedd o ansawdd sy'n cynnwys ecosystemau cysylltiedig, bioamrywiaeth a chynefinoedd, adfer coetir nas rheolwyd yn ddigonol a choetir hynafol;
- Coetir cynhyrchiol;
- Coetir cymunedol.

***Polisi 16 – Rhwydweithiau Gwresogi***

2.30 Yn nodi'n benodol dref y Barri fel lleoliad ar gyfer ystyried rhwydwaith gwres ardal.

***Polisi 33 – Ardal Dwf Genedlaethol - Caerdydd, Casnewydd a'r Cymoedd***

2.31 Mae'r diagram gofodol rhanbarthol ar gyfer De-ddwyrain Cymru (Ffigur 4 isod) yn amlygu bod Caerdydd, Casnewydd a'r Cymoedd, gan gynnwys Bro Morgannwg, yn rhan o ardal dwf genedlaethol. Dylai Cynlluniau Datblygu Lleol a Strategol gydnabod yr Ardal Dwf Genedlaethol fel canolbwynt ar gyfer twf economaidd a thai strategol; gwasanaethau a chyfleusterau; gweithgynhyrchu uwch; trafnidiaeth a seilwaith digidol.




**Ffigur 4: Rhanbarth De-ddwyrain Cymru**
**Ffynhonnell: Cymru'r Dyfodol 2040**

2.32 Er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau a'r dyheadau rhanbarthol hyn, mae Cymru'r Dyfodol yn cydnabod nad yw'r 10 awdurdod yn y rhanbarth yn bodoli ar wahân i'w gilydd ac wrth baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol, y bydd angen i awdurdodau cynllunio "*ystyried y rhyngddibyniaeth rhwng Caerdydd a'r rhanbarth ehangach… [gan] sicrhau bod cymunedau o amgylch y Brifddinas yn yn llewyrchus, ffyniannus ac yn gysylltiedig".* Ar gyfer CDLl Bro Morgannwg, bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r cynllun ystyried sut mae'r dyheadau ar gyfer Bro Morgannwg o ran twf tai a thwf economaidd yn cyd-fynd â'r dyheadau rhanbarthol ehangach a'u cyd-fynd â nhw, yn enwedig rhai Caerdydd gyfagos.

### *Polisi 36 – Metro’r De-ddwyrain*

2.33 Darparu sail polisi rhanbarthol ar gyfer datblygu'r Metro ac ar gyfer datblygiadau sy'n canolbwyntio ar y Metro. Dylai awdurdodau cynllunio gynllunio ar gyfer twf ac adfywio er mwyn achub ar y cyfleoedd sy'n deillio o well cysylltedd rhanbarthol, gan gynnwys nodi cyfleoedd am ddatblygiadau dwysedd uwch, defnydd cymysg a di-gar o amgylch gorsafoedd metro newydd a gwell.

## Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (2019)

2.34 Mae Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (CMCC) yn nodi polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer yr 20 mlynedd nesaf ar gyfer defnydd cynaliadwy o'r moroedd. Mae’r cynllun yn cynnwys cynlluniau a pholisïau a fydd yn cefnogi'r weledigaeth ar gyfer moroedd glân, iach, diogel ac amrywiol, yn arwain datblygu cynaliadwy yn y dyfodol ac yn cefnogi twf gofod morol ac adnoddau naturiol ('twf glas').

2.35 Mae'r Cynllun yn nodi polisïau o dan y categorïau canlynol:

- sicrhau economi forol gynaliadwy (twf economaidd cynaliadwy, cydfodolaeth)
- sicrhau cymdeithas gref, iach a chyfiawn (gan gynnwys mynediad i'r amgylchedd morol, llesiant cymunedau’r arfordir, tirweddau a morweddau, llifogydd arfordirol a newid yn yr hinsawdd)
- Byw o fewn terfynau amgylcheddol (ecosystemau morol cydnerth, ansawdd aer a dŵr)
- Hyrwyddo llywodraethu da (effeithiau cronnol, cysondeb ar draws ffiniau ac ar draws cynlluniau)
- Defnyddio gwyddoniaeth gadarn mewn ffordd gyfrifol

2.36 Mae polisïau ategol penodol i sectorau y CMCC yn gweithredu ochr yn ochr â'r polisïau cyffredinol ac yn gosod polisi ar gyfer datblygu a defnyddio ardal y cynllun morol yn y dyfodol gan rai sectorau. Mae hyn yn cynnwys defnyddiau megis agregau ar y glannau ac ar y môr, dyframaeth, carthu, ynni adnewyddadwy morol, porthladdoedd a morgludo, a thwristiaeth a hamdden.

## Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 11 (2021)

2.37 Mae Rhifyn 11 o Bolisi Cynllunio Cymru (PCC) yn nodi'r polisïau cynllunio defnydd tir a nodau datblygu cynaliadwy trosfwaol i Gymru, wedi'u diwygio i gyfrannu tuag at nodau llesiant statudol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae PCC yn nodi rhagdybiaeth o blaid datblygu cynaliadwy ac yn ystyried mai dull a arweinir gan Gynllun yw'r dull mwyaf effeithiol o sicrhau datblygu cynaliadwy drwy'r system gynllunio.

2.38 Mae gan PCC bwyslais cryf ar hyrwyddo creu lleoedd, sy'n cael ei ystyried yn allweddol i gyflawni lleoedd cynaliadwy, darparu datblygiad cymdeithasol gynhwysol a hyrwyddo cymunedau mwy cydlynol. Ystyrir bod creu lleoedd yn ddull cyfannol sy'n 'ystyried y cyd-destun, y swyddogaeth a'r berthynas rhwng safle'r datblygiad a'i gyffiniau ehangach.'

2.39 Ar lefel strategol mae pedair thema sy'n cyfrannu'n unigol at greu lleoedd:

- Dewisiadau Strategol a Gofodol;
- Lleoedd Actif a Chymdeithasol;
- Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus;
- Lleoedd Unigryw a Naturiol

2.40 Mae PCC yn ei gwneud yn ofynnol i gynlluniau datblygu "gynnwys strategaeth ofodol fydd yn para oes y cynllun gan lunio patrwm datblygu sy'n gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol", ac y dylid "hyrwyddo cydbwysedd cyffredinol rhwng tai, cyfleusterau cymunedol, gwasanaethau a chyfleoedd gwaith."

**Nodiadau Cyngor Technegol (NCTau), Cylchlythyrau a Llythyrau Egluro Polisi**

2.41 Bydd y CDLlN yn ystyried y gofynion fel y nodir yn y gyfres o NCTau, Cylchlythyrau a Llythyrau Egluro Polisi, sy'n ymhelaethu ar ystod o faterion polisi cynllunio.

**Adeiladu Lleoedd Gwell – Y System Gynllunio yn Sicrhau Dyfodol Cydnerth a Mwy Disglair: Creu Lleoedd ac adferiad Covid-19 (LlC, Gorffennaf 2020)**

2.42 Mae Adeiladu Lleoedd Gwell yn nodi blaenoriaethau polisi cynllunio Llywodraeth Cymru i helpu gyda'r cyfnod o adfer yn dilyn argyfwng y pandemig Covid-19. Mae'n cydnabod y dylai'r system gynllunio fod yn ganolog wrth ystyried materion yr amgylchedd adeiledig a naturiol sydd wedi deillio o'r pandemig. Mae'r ddogfen yn tynnu sylw at y polisïau a'r offer cynllunio presennol allweddol y dylai pob sector eu defnyddio yn adferiad amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd Cymru. Dylai CDLlau fynd ati'n weithredol i gefnogi'r agenda creu lleoedd a nodir yn PCC, gan nodi ei gymeriad, ei gryfderau a'i feysydd y mae angen eu gwella a nodi polisïau ar sut y bydd y meysydd hyn yn cael eu gwella.

2.43 Mae'r ddogfen yn atgyfnerthu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i well lleoedd, creu lleoedd, canlyniadau ansawdd a dylunio da ac yn nodi meysydd polisi y dylid canolbwyntio arnynt wrth ystyried a gweithredu, i weithredu fel catalydd ar gyfer adferiad. Mae'n nodi materion allweddol sy'n dod â meysydd polisi unigol ynghyd i sicrhau y gweithredir yn y modd mwyaf effeithiol. Bydd y CDLlN fel offeryn allweddol ar gyfer mynd i'r afael â'r materion hyn yn chwarae rhan bwysig wrth

gefnogi adferiad ar ôl covid ym Mro Morgannwg wrth hefyd gyfrannu at gadernid cymunedau yn y dyfodol.

2.44 Yr 8 mater yw:


- Cadw’n lleol: creu cymdogaethau;
- Teithio llesol: ymarfer corff a dulliau teithio a ailddarganfyddir;
- Adfywio canol ein trefi;
- Lleoedd digidol: rhaff achub yn ystod y cyfnod o gyfyngiadau symud;
- Newid arferion gwaith: ein hangen am dir cyflogaeth yn y dyfodol;
- Ailddeffro sector twristiaeth a sector diwylliannol Cymru;
- Seilwaith gwyrdd, iechyd a lles a chydnerthedd ecolegol;
- Gwella ansawdd aer a seinweddau er mwyn sicrhau gwell iechyd a lles.

**Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru (2021)**

2.45 Mae Strategaeth Drafnidiaeth Llywodraeth Cymru yn nodi tair blaenoriaeth ar gyfer y 5 mlynedd nesaf:

- Dod â gwasanaethau i bobl er mwyn lleihau'r angen i deithio.
- Galluogi pobl a nwyddau i symud yn hawdd o ddrws i ddrws gan ddefnyddio gwasanaethau a seilwaith trafnidiaeth sy’n hygyrch, cynaliadwy ac effeithlon.
- Annog pobl i newid i drafnidiaeth fwy cynaliadwy.

2.46 Mae'r Strategaeth yn nodi hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy i lywio penderfyniadau am seilwaith newydd:




**Ffigur 5: Hierarchaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy, Ffynhonnell: Llwybr Newydd**

### Datganiadau Argyfwng Hinsawdd a Natur

2.47 Mewn ymateb i dystiolaeth gynyddol o'r effeithiau y bydd newid yn yr hinsawdd yn eu cael, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'argyfwng hinsawdd' ym mis Ebrill 2019. Gwnaed y cyhoeddiad i dynnu sylw at faint ac arwyddocâd y dystiolaeth sy'n cael ei chyflwyno'n barhaus gan y Panel Rhynglywodraethol ar Newid Hinsawdd. Gwnaed y datganiad i anfon arwydd clir na fydd Llywodraeth Cymru yn caniatáu i'r broses o adael yr Undeb Ewropeaidd dynnu oddi wrth her newid yn yr hinsawdd.

2.48 Cyhoeddwyd datganiad arall ym mis Mehefin 2021 wrth i Lywodraeth Cymru ddatgan argyfwng natur. Pwrpas hyn oedd sicrhau cydraddoldeb rhwng camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a cholli bioamrywiaeth. Pwrpas hyn oedd gosod targedau ar gyfer cyfyngu ar golli bioamrywiaeth, yn debyg i'r rhai sy'n bodoli ar gyfer allyriadau carbon.

## Y Cyd-destun Rhanbarthol

### Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

2.49 Mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (P-RC) yn cynnwys deg awdurdod lleol ar draws rhanbarth De-ddwyrain Cymru, gan gynnwys Bro Morgannwg. Mae'r awdurdodau lleol hyn yn cydweithio ar brosiectau a chynlluniau â'r nod o adeiladu ar gryfderau sectoraidd y rhanbarth, ei sylfaen sgiliau uchel a thair prifysgol lwyddiannus a chyflymu twf economaidd a chynhyrchiant drwy gyfres o fuddsoddiadau a dargedwyd mewn sgiliau, seilwaith, prosiectau a arweinir gan arloesedd y gellir eu tyfu ar raddfa a sectorau diwydiant a busnesau â blaenoriaeth.Bydd Bargen Ddinesig P-RC yn helpu i roi hwb i dwf economaidd drwy wella cysylltiadau trafnidiaeth, gwella sgiliau, helpu pobl i gael swyddi a rhoi cymorth i fusnesau y mae ei angen arnynt i dyfu. Mae P-RC wedi ariannu nifer o fuddsoddiadau mawr yn y rhanbarth, gan gynnwys prynu hen Orsaf Bŵer Aberdâr yn ddiweddar i hwyluso ei dymchwel, ei hadfer a'i hailddatblygu fel Parc Ynni Gwyrdd.

### Cynllun Economaidd a Diwydiannol Rhanbarthol 2023-2028 P-RC

2.50 Mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (P-RC) yn ceisio meithrin economi ranbarthol sy'n fwy, yn decach ac yn wyrddach, gan gynhyrchu twf da a chreu amodau ar gyfer ffyniant cyffredin ar draws y deg awdurdod lleol yn y rhanbarth ac mae'r Cynllun Economaidd a Diwydiannol Rhanbarthol wedi'i baratoi i gefnogi hyn. Mae'r Cynllun yn nodi nifer o heriau ond yn ceisio cyflawni'r uchelgais o fod yn "Brifddinas-Ranbarth Caerdydd falch lle mae pawb wedi'i gysylltu'n lleol ac yn fyd-eang, yn mwynhau cyfleoedd gwaith, busnes a bywyd sydd yn ein gwneud yn lle i wireddu potensial."

2.51 Mae'r Cynllun yn nodi tri maes ffocws – Bod yn Fwy Cystadleuol, Bod yn Fwy Cysylltiedig a Bod yn Fwy Cadarn. Fel rhan o'r thema Bod yn Fwy Cystadleuol, cyfeirir yn benodol at dyfu'r economi werdd drwy fentrau arloesi sy'n canolbwyntio ar dechnolegau gwyrdd a sgiliau'r dyfodol, gan gyfeirio'n benodol at ddatblygu Parc Ynni Gwyrdd yn Aberddawan. Bydd y CDLlN yn chwarae rhan wrth hwyluso tir a datblygu polisïau priodol a fyddai'n cefnogi'r amcanion a'r prosiectau yn y Cynllun.

**Metro De Cymru**

2.52 Roedd y Metro yn rhan o Fargen Ddinesig wreiddiol P-RC, gyda dros hanner cyfanswm cyllid y Fargen Ddinesig yn cael ei neilltuo ar gyfer datblygiad y Metro. Mae Llywodraeth Cymru, drwy Trafnidiaeth Cymru (TC), yn gweithredu'r gwasanaethau rheilffyrdd metro yn y rhanbarth, tra bod awdurdodau lleol yn gyfrifol am wasanaethau bysiau a theithio llesol. Mae'r Metro yn brosiect uchelgeisiol gyda'r nod o ddarparu rhwydwaith integredig o deithio llesol, bysiau a rheilffyrdd a fydd yn gwella hygyrchedd ac yn gwneud trafnidiaeth gynaliadwy ledled y rhanbarth ac ar ei draws yn haws ac yn gyflymach.

2.53 Ar ben hynny, mae cyllid Metro Plus ar gael ar gyfer cynlluniau sy'n cefnogi gweithredu Metro De Cymru hefyd, ac mae'r Fro wedi elwa ar gyllid ar gyfer datblygu cyfnewidfa newydd yn Nociau'r Barri.

2.54 Mae Cymru'r Dyfodol yn nodi'r gofyniad i CDLlau gynllunio ar gyfer twf a fydd yn manteisio i'r eithaf ar fuddion cyllid y Metro.

**Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Agregau (2020)**

2.55 Lluniwyd y Datganiad Technegol Rhanbarthol (DTRh) gan Weithgor Agregau Rhanbarthol De Cymru (GARhD). Mae NCT Mwynau 1 (paragraff 1.45 yn cyfeirio) yn gosod amcan trosfwaol, sy'n ceisio sicrhau cyflenwad o agregau a reolir yn gynaliadwy sy'n hanfodol ar gyfer adeiladu drwy daro'r cydbwysedd rhwng costau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol. Mae'r DTRh wedi'i lunio i helpu i lywio Awdurdodau Lleol unigol yn Ne Cymru ar sut i weithredu'r polisïau cynllunio mwynau hyn wrth lunio eu polisïau a'u dyraniadau CDLl unigol.

**Cydweithredu Rhanbarthol**

2.56 Nid yw Bro Morgannwg yn bodoli ar wahân i awdurdodau lleol eraill ac mae'n rhyngweithio ag awdurdodau lleol cyfagos yn rhanbarthol ar faterion strategol gan gynnwys paratoi'r CDLl. Mae Bro Morgannwg yn aelod o Grŵp Cynllunio Strategol De-ddwyrain Cymru (GCSDDdC) sy'n cynnwys 10 awdurdod lleol P-RC i ystyried materion polisi a effeithiodd ar y rhanbarth.

2.57 Hyd yma mae Cyngor Bro Morgannwg wedi cydweithio ag awdurdodau eraill mewn cysylltiad â cyd-ddatblygu tystiolaeth ar gyfer CDLlN a bydd yn parhau i gydweithio ar nifer o brosiectau parhaus. Mae'r prosiectau gorffenedig a pharhaus yn cynnwys:

- Cytuno ar fethodoleg gyffredin ar gyfer Arfarniadau Aneddiadau Cynaliadwy
- Caffael system cronfa ddata ymgynghori ar gyfer y CDLl (Caerffili, Bro Morgannwg a Rhondda Cynon Taf)
- Methodoleg Arolwg Tir Cyflogaeth
- Asesiad Strategol Rhanbarthol o Ganlyniadau Llifogydd
- Datblygu model hyfywedd datblygu ar gyfer asesiadau hyfywedd safle-benodol a lefel uchel (y 10 awdurdod P-RC ac awdurdodau lleol yn Rhanbarthau Canolbarth a Gorllewin Cymru);
- Methodoleg Ranbarthol i Nodi Lleiniau Glas a Lletemau Glas
- Astudiaeth safle Rhanbarthol o dramwy Sipsiwn a Theithwyr
- Methodoleg gyffredin ar gyfer pennu gwerthoedd trosglwyddo tai fforddiadwy
- Asesiad Trafnidiaeth Strategol gan ddefnyddio Model Trafnidiaeth Rhanbarthol De-ddwyrain Cymru

2.58 Bydd cydweithio a chysylltu â'r awdurdodau lleol eraill yn rhanbarthol yn parhau wrth i'r CDLlN fynd yn ei flaen gan gynnwys cyd-gomisiynu neu gydweithredu lle bo hynny'n briodol.

**Cynlluniau Datblygu Lleol ac Awdurdodau Cynllunio Lleol Cyfagos**

2.59 Yr awdurdodau lleol sy'n ffinio â Bro Morgannwg yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i'r gorllewin, Cyngor Caerdydd i'r dwyrain a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (RhCT) i'r gogledd. Mae prawf o gadernid 1 'Ydy'r cynllun yn ffitio?' yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ddangos ei fod yn gyson â chynlluniau awdurdodau cyfagos.

2.60 Mae CDLlN Pen-y-bont ar Ogwr ar y cam Archwilio ar hyn o bryd. Mae'r Fro a Phen-y-bont ar Ogwr wedi bod mewn cydweithrediad agos ar faterion trawsffiniol drwy baratoi CDLlN Pen-y-bont ar Ogwr, gan arwain at Ddatganiad o Dir Cyffredin, gan nodi na chododd y Fro unrhyw bryderon na gwrthwynebiadau drwy'r broses ymgynghori ffurfiol ynghylch y CDLlN a'i sylfaen dystiolaeth ategol. Bydd y Fro yn parhau i ymgysylltu â Phen-y-bont ar Ogwr wrth i CDLlN y Fro fwrw ymlaen.

2.61 Mae gan Fro Morgannwg a Chaerdydd gyfagos amserlenni tebyg ar gyfer paratoi eu CDLlN, felly mae swyddogion cynllunio o'r ddau awdurdod yn cynnal cyfarfodydd anffurfiol rheolaidd i drafod cynllun newydd y ddau awdurdod yn enwedig mewn cysylltiad â materion trawsffiniol fel tai, cyflogaeth a thrafnidiaeth.

Cyhoeddodd Caerdydd ei Strategaeth a Ffefrir ar gyfer ymgynghori ym mis Gorffennaf 2023. Paratowyd papur cefndir sy'n esbonio'r berthynas rhwng y ddau awdurdod cyfagos a sut yr ystyrir bod y ddau gynllun yn ategu ei gilydd yn hytrach na chystadlu â’i gilydd.

2.62 Mae'r Cyngor hefyd wedi cynnal trafodaethau gyda RhCT ynghylch y strategaethau ar gyfer eu cynlluniau priodol ac unrhyw faterion trawsffiniol, a bydd y cydweithio hwn yn parhau fel rhan o gamau datblygu cynlluniau yn y dyfodol.

## Cyd-destun Polisi Lleol

2.63 Mae'r adran ganlynol yn nodi dogfennau allweddol y Cyngor sydd wedi llywio'r Strategaeth a Ffefrir. Yn ogystal, bydd tystiolaeth allweddol a baratowyd gan y Cyngor megis yr hyn sy'n ymwneud ag angen tai hefyd yn cael ei defnyddio wrth ddatblygu polisïau a chyfeirir at y sylfaen dystiolaeth hon yn y Strategaeth a Ffefrir.

### Cynllun Lles Bro Morgannwg 2023-28

2.64 Fel rhan o ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae'r Cyngor, ynghyd â phartneriaid sector cyhoeddus fel Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Bro Morgannwg, wedi paratoi ei ail Gynllun Lles ar gyfer y Fro, wedi'i lywio gan Asesiad Lles. Mae'r Cynllun Lles yn cwmpasu'r 7 nod llesiant ac yn darparu fframwaith i bob corff sector cyhoeddus gyflawni'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy drwy fabwysiadu'r 5 ffordd o weithio.

2.65 Mae'r Cynllun Lles newydd yn nodi tri Amcan Llesiant newydd a'r meysydd blaenoriaeth y bydd y BGC yn canolbwyntio arnynt, ac mae’r Amcanion yn adlewyrchu'r materion allweddol a'r heriau allweddol a nodwyd yn Asesiad Lles Bro Morgannwg:

- **Bro mwy gwydn a gwyrdd** - drwy ddeall a gwneud y newidiadau sy'n angenrheidiol fel unigolion, cymunedau a sefydliadau mewn ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur.
- **Bro mwy actif ac iach** – drwy annog a galluogi pobl o bob oed i fod yn fwy actif a hyrwyddo manteision cofleidio ffordd o fyw iachach.
- **Bro decach a mwy cysylltiedig** - drwy fynd i'r afael â'r annhegwch sy'n bodoli ledled y Fro, ymgysylltu â'n cymunedau a darparu gwell cyfleoedd a chefnogaeth i wneud gwahaniaeth parhaol.

2.66 Er mwyn cyflawni'r amcanion hyn, mae'r Cynllun Lles wedi nodi 3 ffrwd waith â blaenoriaeth lle canolbwyntir ar gydweithio:

- **Ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur** - Mae'r Asesiad Lles yn nodi rhai o'r materion allweddol i'r Fro o ran yr argyfyngau hinsawdd a natur, ac mae partneriaid yn cydnabod mai'r ffordd orau o gyflawni'r newidiadau sydd eu hangen ar draws ein sefydliadau a'n cymunedau yw trwy gydweithio. Bydd hyn yn cynnwys ystyried trafnidiaeth, ynni, bwyd, bioamrywiaeth a sut rydym yn defnyddio ein hadeiladau a'n tir.

- **Gweithio gyda'r bobl sy'n byw yn ein cymunedau sy'n profi'r lefelau amddifadedd uchaf** - Mae'r Asesiad Lles wedi amlygu'r gwahaniaethau ar draws y Fro a sut mae'r anghydraddoldebau hyn wedi'u gwaethygu gan bandemig Covid-19. Bydd y Cynllun Lles yn canolbwyntio'n benodol ar yr ardaloedd hynny ym Mro Morgannwg y nodwyd eu bod yn fwy difreintiedig gan Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau yn y cymunedau hyn.

- **Bod yn Fro sy'n Dda i Bobl Hŷn** - Rhagwelir y bydd cyfran poblogaeth y Fro rhwng 65-84 oed yn cynyddu. Bydd y Cynllun Lles yn ceisio sicrhau bod y Fro yn well i bobl hŷn ac yn lle gwell i bobl heneiddio, gan ei gwneud yn lle mwy cyfeillgar i bawb a chydnabod cyfraniad pobl hŷn.

### Prosiect Sero - Cynllun Her Newid Hinsawdd Cyngor Bro Morgannwg 2021-2030

2.67 Ym mis Chwefror 2020 llofnododd y Cyngor Siarter Argyfwng Hinsawdd gyda BGC y Fro ac mae hwn yn nodi ymrwymiad cyffredin y BGC i arwain drwy esiampl, cymryd camau cadarnhaol a lleihau ei effaith ar y newid yn yr hinsawdd.

2.68 Prosiect Sero yw ymateb Cyngor Bro Morgannwg i'r argyfwng newid yn yr hinsawdd. Mae Prosiect Sero yn dwyn ynghyd yr ystod eang o waith a chyfleoedd sydd ar gael i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, lleihau allyriadau carbon y Cyngor i sero-net erbyn 2030 ac annog eraill i wneud newidiadau cadarnhaol. Mae'r strategaeth yn tynnu sylw at rôl y CDLl mabwysiedig yn cyfrannu at yr ymrwymiad newid hinsawdd, er enghraifft, sicrhau cyfraniadau cynllunio tuag at gynlluniau trafnidiaeth gynaliadwy a thrwy weithredu polisïau sy'n annog ynni adnewyddadwy.

2.69 Mae'r CDLlN yn rhoi cyfle i'r Cyngor archwilio ffyrdd o ddatblygu ei ymrwymiadau newid hinsawdd i gyfrannu at y broses o wneud Cymru'n genedl carbon isel.

### Cynllun Corfforaethol Bro Morgannwg 2020-2025

2.70 Cynllun Corfforaethol Bro Morgannwg yw dogfen strategol allweddol y Cyngor ac mae'n nodi'r fframwaith ar gyfer y gwahanol weithgareddau y mae'r Cyngor yn

ymgymryd â nhw. Mae'n ceisio cyflawni ystod eang o ganlyniadau a fesurir yn erbyn 4 amcan lles y cynllun:

- Gweithio gyda, a thros ein cymunedau.
- Ategu dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy.
- Cynorthwyo pobl gartref ac yn eu cymuned.
- Parchu, gwella a mwynhau ein hamgylchedd.

2.71 Ar gyfer pob amcan, mae'r cynllun yn nodi'r camau a gymerir dros gyfnod y Cynllun Corfforaethol 5 mlynedd ac fe'i cefnogir gan Gynllun Cyflawni Blynyddol sy'n nodi camau gweithredu manwl pellach. Mae'r Cynllun Corfforaethol yn cynnwys agweddau sy'n berthnasol i gynllunio defnydd tir a fydd yn dylanwadu ac yn cyfarwyddo ffocws y CDLl Newydd.

- Gwella lles, gan hyrwyddo trafnidiaeth llesol a chynaliadwy;
- Cefnogi twf economaidd drwy weithio fel rhan o'r Brifddinas-Ranbarth, adfywio, gwella seilwaith a chefnogi canol trefi, twristiaeth a diwydiant;
- Cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy o ansawdd da;
- Lleihau allyriadau carbon a lleihau'r effaith ar yr amgylchedd;
- Sicrhau bod datblygiadau'n gynaliadwy, lliniaru eu heffaith a'u hintegreiddio â chymunedau lleol gan ddarparu'r seilwaith angenrheidiol;
- Diogelu a gwella'r amgylchedd adeiledig naturiol a threftadaeth ddiwylliannol;
- Lleihau llygredd, rheoli gwastraff yn effeithiol a lleihau effaith llifogydd.

**Cynllun Trafnidiaeth Lleol Bro Morgannwg 2015 - 2030**

2.72 Mae Cynllun Trafnidiaeth Lleol (CTLl) y Cyngor yn ceisio nodi'r mesurau trafnidiaeth gynaliadwy lleol sydd eu hangen i sicrhau bod Bro Morgannwg yn cydymffurfio â'r gofynion a bennir gan Lywodraeth Cymru a'r canllawiau arfer da cyfredol. Mae'r CTLl yn nodi nifer o amcanion byrdymor hyd at 2020 ac yn cynnwys amcanion tymor canolig a thymor hwy hyd at 2030. Mae'r CTLl wedi'i lywio gan gynigion o fewn CDLl mabwysiedig y Cyngor ac mae hefyd yn gyson ag amcanion Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.

2.73 Wrth nodi cynlluniau, mae'r CTLl yn chwilio am ffyrdd o sicrhau gwell amodau i gerddwyr, beicwyr a defnyddwyr trafnidiaeth gyhoeddus ac annog newid mewn dewisiadau teithio, i ffwrdd o geir meddiannaeth sengl. Mae'r CTLl hefyd yn ceisio mynd i'r afael â thagfeydd traffig drwy sicrhau gwelliannau i'r coridorau priffyrdd strategol i gymudwyr y gallai fod angen iddynt deithio mewn car yn ogystal â darparu seilwaith gwell ar gyfer cludo nwyddau. Mae hefyd yn ceisio mynd i'r afael â blaenoriaethau diogelwch ffyrdd allweddol y Fro. Mae'r CTLl yn cefnogi cynigion

ar gyfer Metro Caerdydd a bydd yn llywio gwaith cynllunio trafnidiaeth rhanbarthol yn y dyfodol.

### Blaengynllun Bioamrywiaeth Bro Morgannwg (2019)

2.74 Mae Blaengynllun Bioamrywiaeth (BGB) Bro Morgannwg yn edrych ar sut mae'r Cyngor yn rheoli ac yn gwella adnoddau naturiol i sicrhau bod bioamrywiaeth a chynaliadwyedd yn cael eu hystyried ym mhob maes gwasanaeth a'u bod yn themâu craidd wrth ddarparu gwasanaethau, gan ddod yn rhan annatod o'r prosesau gwneud penderfyniadau ledled y Cyngor. Mae'r cynllun yn nodi sut y bydd Cyngor Bro Morgannwg yn cyflawni ei rwymedigaethau o dan adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i ddangos sut y bydd yr Awdurdod Lleol yn "ceisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer ei swyddogaethau'n briodol ac, wrth wneud hynny, hyrwyddo gwydnwch ecosystemau".

2.75 Mae rhan un o'r Blaengynllun yn nodi'r cefndir (gan gynnwys y cyd-destun deddfwriaethol), heriau a chyfleoedd a'r camau gweithredu a'r targedau sydd i'w cyflawni i gyflawni'r nodau hyn. Adroddir ar y camau gweithredu yn y BGB bob tair blynedd yn unol â gofynion statudol a chânt eu hadolygu a'u diweddaru ar ddiwedd pob cyfnod adrodd o 3 blynedd. Bydd yr adolygiad o'r BGB yn cyd-fynd ag un y CDLl ac felly bydd yn darparu tystiolaeth gefndirol allweddol ar gyfer y CDLl newydd ac yn llywio'r adolygiad o bolisïau sy'n ymwneud â bioamrywiaeth o fewn y Cynllun.

### Strategaeth Tai Lleol Bro Morgannwg 2021-26

2.76 Mae'r Strategaeth Dai yn nodi bwriadau'r Cyngor a'i bartneriaid i gyflawni ystod eang o amcanion tai. Mae'r strategaeth yn cynnwys gweledigaeth hirdymor ar gyfer y Strategaeth tai yn y Fro am y 5 mlynedd nesaf "*Bod gan holl breswylwyr Bro Morgannwg hawl i gael tŷ addas o ansawdd da, a'u bod yn gallu byw'n hapus ac yn annibynnol mewn cymunedau bywiog a chynaliadwy"*Mae'r weledigaeth wedi'i seilio ar bedwar nod allweddol sy'n ffurfio'r fframwaith y bydd camau'n cael eu gweithredu ynddo.

- Nod 1: Mwy o Gartrefi, Mwy o Ddewis.
- Nod 2: Gwella cartrefi a chymunedau.
- Nod 3: Gwell cyngor a chymorth tai.
- Nod 4: Mynediad cyfartal at dai a gwasanaethau tai.

2.77 Mae cynllun cyflawni yn cyd-fynd â'r Strategaeth, sydd wedi'i osod dros yr un cyfnod â'r strategaeth. Mae'r cynllun cyflawni yn amlinellu ystod o gamau gweithredu a ddatblygwyd gan y Cyngor a'i bartneriaid, o dan y 4 nod.

## Strategaeth Tai Pobl Hŷn Bro Morgannwg

2.78 Strategaeth Tai Pobl Hŷn y Cyngor 'Creu Cartrefi a Chymdogaethau yn Ddiweddarach mewn Bywyd 2022-36' yn gosod gweledigaeth yng Nghyngor Bro Morgannwg sef: '*Sicrhau'r ansawdd bywyd gorau ar gyfer pobl hŷn i fyw mor annibynnol ag sy'n bosibl yn ddiweddarach mewn bywyd. Golyga hyn ddarparu amrywiaeth o lety sy'n galluogi pobl hŷn i fyw bywydau boddhaus a mwynhau iechyd da mewn cartrefi deniadol sy'n diwallu eu hanghenion ac yn caniatáu iddynt gadw eu hannibyniaeth wrth iddyn nhw heneiddio.'*

2.79 Mae'r strategaeth yn rhagweld y bydd angen rhyw 1,357 o dai arbenigol dynodedig ar gyfer oedran erbyn 2037, yn dai ymddeol (ar gyfer rhentu cymdeithasol ac i'w gwerthu) a thai â gofal (tai gofal ychwanegol ar gyfer rhentu cymdeithasol ac i'w gwerthu). Tynnu sylw at bwysigrwydd i'r Cyngor a'i bartneriaid fynd i'r afael ag anghenion tai yn y dyfodol sy'n gysylltiedig â phoblogaeth sy'n heneiddio drwy ddarparu atebion tai priodol sy'n deillio o boblogaeth hŷn sy'n tyfu. Mae'r strategaeth yn nodi ystod o fecanweithiau cyflawni gan gynnwys y CDLl, yr ystyrir ei fod â rôl allweddol wrth annog darparwyr tai preifat a chymdeithasol i ddatblygu ystod o dai prif ffrwd sy'n addas ac yn ddeniadol i bobl hŷn.

## Yr Argyfyngau Hinsawdd a Natur a Ddatganwyd

2.80 Ym mis Gorffennaf 2019, ymunodd Cyngor Bro Morgannwg â Llywodraeth Cymru a chynghorau eraill ledled y DU i ddatgan argyfwng hinsawdd byd-eang. Ymrwymodd y Cyngor i:

- Leihau allyriadau carbon y Cyngor i sero net cyn targed Llywodraeth Cymru o 2030 a chefnogi'r gwaith o weithredu Cynllun Cyflawni Carbon Isel newydd Llywodraeth Cymru.
- Cyflwyno sylwadau yn ôl yr angen i Lywodraeth Cymru a'r DU, fel y bo'n briodol, i ddarparu'r pwerau, adnoddau a chymorth technegol mae eu hangen ar awdurdodau lleol yng Nghymru i'w helpu i gyflawni targed 2030 yn llwyddiannus.
- Parhau i weithio gyda phartneriaid ar draws y rhanbarth.
- Gweithio gyda rhanddeiliaid lleol gan gynnwys Cynghorwyr, trigolion, pobl ifanc, busnesau a phartïon eraill perthnasol i ddatblygu strategaeth yn unol â'r targed o allyriadau sero net erbyn 2030 ac edrych ar ffyrdd o sicrhau'r buddion lleol gorau posibl o ganlyniad i'r camau hyn mewn sectorau eraill megis cyflogaeth, iechyd, amaethyddiaeth, trafnidiaeth a'r economi.

2.81 Wedi'i gysylltu'n agos â datganiad yr argyfwng hinsawdd, ym mis Gorffennaf 2021 cyhoeddodd Cyngor Bro Morgannwg 'argyfwng natur' ac ymrwymodd i darged o ddim colled net o ran bioamrywiaeth ym Mro Morgannwg. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i weithio gyda phartneriaid lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i barhau i ddatblygu a gweithredu dulliau arfer gorau a all ddiogelu bioamrywiaeth Cymru.

## Y Siarter Creu Lleoedd a Chynlluniau Creu Lleoedd

2.82 Ym mis Mai 2023, penderfynodd y Cabinet y dylai Cyngor Bro Morgannwg lofnodi Siarter Creu Lleoedd Cymru[1]. Datblygwyd y Siarter Creu Lleoedd gan Lywodraeth Cymru a Chomisiwn Dylunio Cymru mewn cydweithrediad â Phartneriaeth Creu Lleoedd Cymru. Mae Siarter yn datblygu’r ffocws cynyddol ar greu lleoedd mewn polisïau ac arferion yng Nghymru a'i nod yw rhoi dealltwriaeth gyffredin o'r amrywiaeth o ystyriaethau a wneir wrth greu lleoedd. Cytunodd llofnodwyr y Siarter i hyrwyddo’r egwyddorion canlynol wrth gynllunio, dylunio a rheoli lleoedd newydd a phresennol:

- Pobl a’r gymuned
- Lleoliad
- Symud
- Cymysgedd o ddefnyddiau
- Tir y cyhoedd
- Hunaniaeth

2.83 Bydd Cynlluniau Creu Lleoedd yn cael eu paratoi ar gyfer y pedair tref yn y Fro (Y Barri, Y Bont-faen, Penarth a Llanilltud Fawr) sy'n adlewyrchu chwe egwyddor y Siarter Creu Lleoedd. Mae'n bwysig bod cysondeb rhwng Cynlluniau Creu Lleoedd a chynigion a nodwyd yn y CDLl mabwysiedig a'r CDLlN datblygol. Fodd bynnag, mae gan Gynlluniau Creu Lleoedd gylch gwaith ehangach na materion cynllunio defnydd tir, gan gwmpasu'r pethau eraill fel digwyddiadau, gweithgareddau mewn lleoedd a lles cymdeithasol. Bydd Cynlluniau Creu Lleoedd mabwysiedig yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.

[1] Siarter Creu Lleoedd - Comisiwn Dylunio Cymru (dcfw.org)

## 3. NODWEDDION ALLWEDDOL BRO MORGANNWG

3.1 Bro Morgannwg yw Awdurdod Unedol mwyaf deheuol Cymru, sy'n gorwedd i'r gorllewin o Gaerdydd rhwng yr M4 ac Aber Afon Hafren. Mae'n gorchuddio arwynebedd o 33,097 hectar (130 milltir sgwâr) y mae'r rhan fwyaf ohono, tua 85% (28,132 hectar) yn dir amaethyddol.

3.2 Mae’r Fro yn ffinio ag Aber Afon Hafren ag iddi 53 cilomedr o arfordir, y mae 19 cilomedr ohono wedi’i ddynodi’n ‘Arfordir Treftadaeth Morgannwg’. Yr awdurdodau lleol cyfagos yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i’r gorllewin, Cyngor Caerdydd i’r dwyrain a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf i’r gogledd.

3.3 Roedd poblogaeth y Fro tua 131,900 fel y nodwyd gan Gyfrifiad 2021. Y Barri, y dref fwyaf, yw'r ganolfan weinyddol a hi yw'r brif ganolfan boblogaeth gyda phoblogaeth breswyl o tua 56,600 o bobl yn 2021. Mae 45,300 o bobl eraill yn byw yn y trefi mwy, sef Penarth, Llanilltud Fawr, Dinas Powys a’r Bont-faen. Mae'r boblogaeth sy'n weddill wedi'i gwasgaru ledled pentrefi a phentrefi gwledig llai y Fro.

### Patrwm Anheddiad

3.4 Mae patrwm anheddiad Bro Morgannwg wedi'i lunio i raddau helaeth gan dreftadaeth ddiwydiannol yr ardal a thirwedd amaethyddol pennaf y Fro. Lleolir prif aneddiadau Y Barri a Phenarth ar yr arfordir ac fe'u datblygwyd o amgylch y porthladdoedd, gan wasanaethu'r galw am lo o Gymru, ond datblygwyd aneddiadau fel y Bont-faen a Llanilltud Fawr yn drefi marchnad sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer amaethyddiaeth leol. I ffwrdd o'r prif ganolfannau, nodweddir y Fro gan gymysgedd o aneddiadau trefol wedi'u lleoli'n bennaf yn ne-ddwyrain y Fro, ac mewn mannau eraill mae'r Fro wledig yn cynnwys pentrefi a phentrefi bach.

3.5 Mae Papur Cefndir Adolygiad Arfarnu Aneddiadau Bro Morgannwg yn categoreiddio aneddiadau’r Fro yn bedwar categori sy'n cynrychioli orau rôl, cymeriad a swyddogaeth yr aneddiadau. Y rhain yw:

**Anheddiad Allweddol:**Y Barri

**Aneddiadau Canolfannau Gwasanaeth**: Y Bont-faen, Llanilltud Fawr, Penarth

**Prif Aneddiadau:**
Dinas Powys, Y Rhws, Sain Tathan, Llandochau (Penarth), Sili, Gwenfô, y Wig a Chroes Cwrlwys

**Aneddiadau Gwledig Bach:**

| | | |
|---|---|---|
| Aberddawan (Dwyrain) | Craig Pen-llin | Pen-llin |
| Aberthin | Llancarfan | Llanbedr-y-fro |
| Tresimwn | Llandŵ | Tresigin |
| Tregolwyn | Llan-faes | Saint-y-brid |
| Corntwn | Llyswyrny | Sain Nicolas |
| Ewenni | Aberogwr | Tre-os |
| Fferm Goch | Pendeulwyn | Ystradowen |

**Pentrefannau ac Aneddiadau Gwledig Llai:**

| | | |
|---|---|---|
| Aberddawan (Gorllewin) | Llanfihangel | Llansanffraid-ar-Elái |
| Brychdwn | Llansanwyr | Sain Dunwyd |
| Castell Alun | Llantriddyd | Sain Siorys |
| Dinas | Maendy | Saint Hilari |
| Y Ddrôp | Marcroes | Llwyneliddon |
| Dyffryn | Llanfihangel-y-pwll | Eglwys y Santes Fair |
| Trefflemin | Yr As Fawr | St Mary Hill |
| Ffwl-y-mwn | Moulton | Sant Y Nyll |
| Silstwn | Norton | Swanbridge |
| Gwern y Steeple | Pentref Ogwr | Tair Onen |
| Hensol | Pancross | The Downs |
| Lampha | Pen-marc | The Herberts |
| Larnog | Penn Onn | Tredogan |
| Lecwydd | Pentremeurig | Trerhingyll |
| Llanbydderi | Porthceri | Tre-Dodridge |
| Llancatal | Ruthun | Twyn-yr-Odyn |
| Llandochau (Y Bont-faen) | Southerndown | Tre-walter |
| Llan-gan | Saint Andras | Llanddunwyd |

3.6 Ym mhegwn uchaf yr hierarchaeth mae anheddiad allweddol y Barri, sef y mwyaf o drefi'r Fro ac yn ganolbwynt pwysig ar gyfer gweithgarwch cymdeithasol ac economaidd. Wedi'i gydnabod fel canolfan weinyddol y Fro, mae'r Barri yn un o'r lleoliadau mwyaf cynaliadwy i ganolbwyntio cyfleoedd datblygu newydd o bwys, gyda chysylltiadau rheilffordd ardderchog â Chaerdydd (4 trên yr awr) a Phen-y-bont ar Ogwr (1 trên yr awr ond disgwylir i hyn gynyddu i 2 fel rhan o welliannau Metro). Mae'r Barri yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau a chyfleusterau strategol gan gynnwys cyflogaeth, cyfleusterau cymunedol ac ardaloedd manwerthu sefydledig sy'n cynnig amrywiaeth o nwyddau a chyfleusterau.

3.7 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae ardal Dociau'r Barri wedi ei adfywio gryn dipyn gyda datblygiad y cynllun Glan y Dŵr defnydd cymysg ar dir llwyd ger y dociau, a buddsoddiad yn Ynys y Barri, sy'n ganolbwynt ar gyfer twristiaeth.

3.8 Er bod cymeriad aneddiadau’r Bont-faen, Penarth a Llanilltud Fawr yn wahanol i’w gilydd o ran eu maint a'u lleoliad, ystyrir eu bod yn chwarae rolau strategol tebyg. Yn ogystal â phoblogaethau preswyl sylweddol, mae’r aneddiadau hyn hefyd yn cynnig ystod o gyfleoedd cyflogaeth lleol, opsiynau trafnidiaeth cynaliadwy, canolfannau manwerthu sefydledig ac amrywiaeth eang o wasanaethau a chyfleusterau diwylliannol, addysgol a chymunedol. Am y rhesymau hyn, mae'r aneddiadau hyn wedi'u hystyried yn Aneddiadau Canolfannau Gwasanaeth sy'n adlewyrchu eu rôl wrth ddarparu ystod o wasanaethau sy'n gwasanaethu anghenion dyddiol eu trigolion ac yn gweithredu fel hybiau pwysig i'r rhai sy'n byw mewn aneddiadau llai cyfagos.

3.9 Mae prif aneddiadau Dinas Powys, Y Rhws, Sain Tathan, Llandochau (Penarth), Sili, Gwenfô, Y Wig a Chroes Cwrlwys yn ategu rôl Aneddiadau’r Ganolfan Wasanaeth yn yr ystyr eu bod yn darparu ar gyfer anghenion trigolion ac yn darparu ar gyfer anghenion yr ardaloedd gwledig ehangach cyfagos. Maent yn cynnig sawl gwasanaeth a chyfleuster allweddol, sy'n hanfodol i'w rôl fel cymunedau cynaliadwy, wrth iddynt leihau'r angen i deithio i'r Barri neu Aneddiadau'r Canolfannau Gwasanaeth ar gyfer anghenion o ddydd i ddydd.


3.10 Mae'r grŵp o Aneddiadau Gwledig Bychain wedi'u gwasgaru ledled y Fro ac yn cynnwys ystod fwy cyfyngedig ond pwysig o wasanaethau a chyfleusterau sy'n chwarae rhan weithredol wrth ddiwallu rhai o anghenion sylfaenol trigolion mewn ardaloedd gwledig, gan leihau'r angen i deithio.

3.11 Mae'r haen isaf o aneddiadau yn cynnwys 54 o bentrefi bach ac aneddiadau gwledig llai y Fro. Yn gyffredinol, mae’r rhain yn cynnwys naill ai grwpiau bach o anheddau neu grwpiau mwy gwasgaredig o eiddo preswyl (yn aml yn cynnwys tai unigol ynysig neu ffermdai ac ysguboriau wedi’u trosi). Fel arfer mae gan y llefydd hyn boblogaethau preswyl llai, yn gyffredinol o dan 100 o drigolion. Er hynny, mae'r aneddiadau yn gyfranwyr pwysig at fywyd cefn gwlad ym Mro Morgannwg a chymeriad cefn gwlad y tu allan i'r prif aneddiadau.

## Poblogaeth a Demograffeg


3.12 Rhwng y ddau gyfrifiad diwethaf (2011 a 2021) cynyddodd poblogaeth Bro Morgannwg 4.4% o tua 126,300 yn 2011 i tua 131,900 yn 2021, a oedd yn fwy na'r newid canrannol ledled Cymru gyfan dros yr un cyfnod (1.4%).

3.13 Bu'r twf mwyaf yn y boblogaeth (2001–2020) yn y grŵp oedran 65–79, gyda chynnydd cyffredinol o bron i 50% (Ffigur 6). Mae'r grŵp oedran 80+ hefyd wedi gweld twf sylweddol, gan gynyddu 38% dros y cyfnod hanesyddol. Mae maint y boblogaeth oedran gweithio (15–64) wedi cynyddu 10%, tra bod y boblogaeth rhwng 0-4 wedi gostwng 2%. Mae heneiddio'r boblogaeth a welwyd ym Mro Morgannwg yn nodwedd anochel o'r newid yn y boblogaeth ledled y DU, wrth i garfannau geni mwy y cyfnod wedi'r rhyfel symud i'r oedrannau ymddeol ac wrth i welliannau mewn gofal iechyd olygu bod pobl yn byw yn hirach.





**Ffigur 6: Ffynhonnell: SYG**

3.14 Mae data mudo Bro Morgannwg yn dangos bod y cyfnewid poblogaeth mwyaf (mewnfudo ac allfudo) wedi digwydd rhwng y Fro a Chaerdydd gyfagos. Dangosir hyn yn Ffigur 7, sy'n dangos y bu cyfnewid cyson o bobl yn symud rhwng Caerdydd a'r Fro, gyda'r Fro yn gweld cynnydd net yn ei phoblogaeth (cyfartaledd o 717 y flwyddyn) oherwydd mudo o ardaloedd eraill, gan gynnwys llif mudo sylweddol o Gaerdydd. Yn fwy diweddar, ar gyfer y cyfnod 2016-2021, cynyddodd mudo net i'r Fro i 992 o bobl yn flynyddol (Ffigur 7), ffactor allweddol sy'n cyfrannu at y cynnydd cyfartalog uwch yn y boblogaeth na Chymru a nodwyd yng nghyfrifiad 2021.





**Ffigur 7: Ffynhonnell: Adroddiad Demograffeg Edge Analytics**

3.15 Mae'r cyfnewid poblogaeth rhwng y Fro a Chaerdydd wedi dylanwadu ar broffil demograffig y ddau awdurdod hefyd. Mae ffigur 8 a 9 yn tynnu sylw at y ffaith y bu mewnlif net i'r Fro ers 2001 ar draws pob grŵp oedran, heblaw’r garfan 15–19 oed, gan fod grwpiau teulu yn arbennig wedi symud i'r Fro o leoedd fel Caerdydd. I'r gwrthwyneb, mae all-lif mawr wedi bod yn gysylltiedig â phobl ifanc yn gadael yr ardal i astudio mewn mannau eraill yn y DU. Adlewyrchir hyn hefyd yn y mewnlif o bobl ifanc 15–19 oed i Gaerdydd.




**Ffigur 8: Mudo Net Mewnol Bro Morgannwg - Proffil Oedran (Ffynhonnell SYG)**




**Ffigur 9: Mudo Net Mewnol Caerdydd - Proffil Oedran Ffynhonnell: SYG**

## Y Farchnad Dai a'r Angen am Dai

3.16 Mae'r duedd mudo hirdymor o bobl sy'n symud rhwng Caerdydd a'r Fro yn awgrymu bod y Fro a Chaerdydd i ryw raddau yn rhannu marchnad dai fwy na'r farchnad dai leol, ac i raddau llai rhennir hyn hefyd â Phen-y-bont ar Ogwr gyfagos. Mae'r ffactorau hyn yn amlygu pwysigrwydd cydweithio rhwng y Fro a'i chymdogion wrth ystyried materion strategol fel twf tai.

3.17 Mae gan y Fro gost dai uchel gyda phrisiau cyfartalog tai ym mis Ebrill 2023 9.7 gwaith yn fwy ar gyfartaledd nag enillion cyfartalog y gweithle o'i gymharu â'r cyfartaledd rhanbarthol o 7.1[2]. O ran y Fro, mae tystiolaeth o brisiau tai lefel mynediad yn dangos bod y Fro yn cynnwys 4 ardal farchnad dai wahanol, Y Barri, Penarth, Arfordirol a Gwledig.

3.18 O ganlyniad, mae gan Fro angen sylweddol am dai fforddiadwy, gyda'r angen am dai fforddiadwy yn cynyddu'n gyson dros y 10 mlynedd diwethaf, er bod y Fro yn un o'r awdurdodau sy'n perfformio orau yng Nghymru o ran darparu tai fforddiadwy. Mae asesiad diweddaraf y Cyngor o'r Farchnad Dai Leol (AFDL) yn nodi bod angen 1,205 o dai fforddiadwy y flwyddyn dros gyfnod o 5 mlynedd 2021-2026 ac mae canfyddiadau cychwynnol y diweddariad drafft AFDL (2023) yn nodi bod angen 1,121 o dai fforddiadwy y flwyddyn am y 5 mlynedd nesaf, a 204 o dai fforddiadwy y flwyddyn am y 10 mlynedd ganlynol. Mae'r asesiad yn amlygu mai'r ardaloedd yn y Fro sydd â'r angen mwyaf yw'r Barri a Phenarth, fodd bynnag, mae angen cyffredinol am amrywiaeth o fathau a meintiau o dai fforddiadwy ledled y Fro.

[2] Gwybodaeth Hometrack o'r farchnad

3.19 Disgwylir y bydd yr angen am dai fforddiadwy yn parhau i fod yn broblem fawr i'r CDLlN dros oes y cynllun.

## Sipsiwn a Theithwyr

3.20 Ar hyn o bryd nid oes safleoedd Sipsiwn a Theithwyr cyhoeddus yn y Fro, ond mae 3 safle preifat â chaniatâd cynllunio parhaol (5 llain); 1 safle a oddefir (17 llain) a 2 ddatblygiad anawdurdodedig (4 llain). Mae dyletswydd ar y Cyngor i sicrhau bod anghenion llety presennol ac yn y dyfodol ar gyfer y gymuned Sipsiwn a Theithwyr yn cael eu diwallu drwy ddarparu digon o dir yn y CDLlN ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr. Mae'r Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr (ALISTh) diweddaraf yn nodi bod angen darparu 11 llain ychwanegol dros gyfnod y cynllun (9 llain hyd at 2026, a 2 lain arall erbyn 2036).

## Iechyd a Lles

3.21 Yn gyffredinol, ystyrir bod Bro Morgannwg yn ardal gefnog a deniadol o'i chymharu ag awdurdodau eraill yn y rhanbarth. Fodd bynnag, mae'r Fro yn arddangos amrywiaeth economaidd-gymdeithasol sylweddol, gyda rhannau o'r Fro wledig yn cynnwys rhai o'r cymunedau cyfoethocaf yng Nghymru a chymunedau eraill o fewn y 10% uchaf o ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf yng Nghymru.

3.22 Mae Mynegeion Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) yn dangos mai yn y Barri fu’r cymdogaethau â'r amddifadedd mwyaf yn y Fro yn barhaus, yn bennaf yn y wardiau dwyreiniol. Nododd data diweddaraf MALIC (2019) fod 3 ardal o fewn y 10% uchaf o leoedd â'r amddifadedd mwyaf yng Nghymru (Gibbonsdown 2, Buttrills 2, a Court 3), gydag ardaloedd eraill yn y Barri hefyd yn disgyn o fewn yr 20% uchaf. Yn ogystal, mae pocedi o amddifadedd uchel hefyd yn bresennol mewn ardaloedd ym Mhenarth, Sain Tathan a Llanilltud Fawr.

3.23 Adlewyrchir y gwahaniaethau hyn yn iechyd a lles ein cymunedau. O'u cymharu â rhannau eraill o Gymru, mae trigolion y Fro yn dangos iechyd da ar y cyfan ac mae eu disgwyliad oes cyfartalog ymysg yr uchaf adeg eu geni. Fodd bynnag, mewn ardaloedd â’r amddifadedd mwyaf mae disgwyliad oes pobl yn sylweddol is, lle mae cyflyrau iechyd hirdymor yn effeithio ar gyfran uwch o bobl.

3.24 Bydd cydnabod yr anghydraddoldebau hyn, sy'n adlewyrchu gwahanol anghenion cymunedol ar lefel cymdogaeth a lleol ym Mro Morgannwg, yn golygu bod angen dulliau pwrpasol sy'n mynd y tu hwnt i gylch gwaith y CDLlN, ond gall y cynllun helpu i fynd i'r afael â'r materion hyn drwy wella mynediad at gyflogaeth, gwella mannau agored a llwybrau teithio llesol a chefnogi'r ddarpariaeth o dai fforddiadwy ac adfywio.

3.25 Mae mynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn fater mwy heriol i rai rhannau o'r Fro yn enwedig o ystyried y boblogaeth sy'n heneiddio, a natur

wledig y Fro sy’n cyd-fynd â thrafnidiaeth gyhoeddus wael. Wrth baratoi'r CDLlN, mae'r Cyngor wedi gweithio'n agos gyda Bwrdd Iechyd Lleol Caerdydd a'r Fro i nodi materion iechyd a lles yn y dyfodol, megis yr angen i nodi lleoliadau ar gyfer gwasanaethau iechyd newydd yn y newidiadau i ddarpariaeth gwasanaethau iechyd yn y gymuned.

## Addysg

3.26 Mae gan yr ardal ysgolion da a lefelau uchel o gyrhaeddiad addysg gyda 37.3% o'r boblogaeth oedolion (16-64 oed) yn meddu ar NVQ lefel 4 neu uwch. Mae 46 o ysgolion babanod/iau/cynradd, 7 ysgol uwchradd a Choleg y Barri a'r Fro gyda champysau wedi'u lleoli yn y Barri ac Ardal Fenter Maes Awyr Caerdydd. Tra bod nifer o ysgolion newydd yn y Fro wedi eu darparu o dan y rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, a’r bwriad i ehangu sawl un arall yn ystod cyfnod y cynllun, mewn rhai ardaloedd mae ysgolion yn llawn neu'n agos ati. Wrth baratoi'r CDLlN, bydd y Cyngor yn ystyried anghenion addysgol sy'n deillio o dwf cynlluniedig, yn enwedig o fewn yr ardaloedd hynny lle mae capasiti'n gyfyngedig.

## Cysylltedd

3.27 Mae'r ardal yn elwa ar gysylltiadau ffyrdd a rheilffyrdd da sy'n darparu cysylltedd uniongyrchol â'r rhanbarth ehangach. Mae traffordd yr M4 wedi'i lleoli tua gogledd y Fro gan ddarparu cyswllt trafnidiaeth allweddol sy'n rhoi mynediad i ranbarth De-ddwyrain Cymru a thu hwnt. Mae rheilffordd Bro Morgannwg yn mynd o'r dwyrain i'r gorllewin drwy'r awdurdod sy'n gwasanaethu aneddiadau mwyaf y Fro sef Penarth a Cogan, Dinas Powys, Y Barri, Llanilltud Fawr a'r Rhws, gan gysylltu'r awdurdod â Chaerdydd a Phen-y-bont ar Ogwr a darparu cysylltiadau â phrif reilffordd de Cymru. Mae gan y prif drefi fynediad rhesymol at wasanaethau bysiau lleol hefyd, ond nid yw pentrefi sydd wedi'u lleoli i ffwrdd o goridorau bysiau allweddol yn cael eu gwasanaethu'n dda.

3.28 Mae Maes Awyr Caerdydd ger yr arfordir i'r gorllewin o'r Barri. Cydnabyddir y maes awyr fel porth pwysig ar gyfer busnes a thwristiaeth yn Ne Cymru, felly mae’n chwarae rhan sylweddol wrth gefnogi'r economi leol a chysylltu De Cymru â chyrchfannau ledled y DU a'r byd. Ers dechrau pandemig y Coronafeirws yn 2020, mae nifer y teithwyr sy'n defnyddio Maes Awyr Caerdydd wedi gostwng yn sydyn. Yn 2022, nifer y teithwyr oedd 860,000 (cyrraedd a gadael), sy'n is na'r lefelau cyn y pandemig o 1.65 miliwn yn 2019. Mae manteision agosrwydd i'r maes awyr yn cynnig cyfleoedd sylweddol a dylid manteisio arnynt drwy'r cynllun.

3.29 Mae natur patrymau aneddiadau'r Fro yn golygu bod trigolion yn y prif drefi ac aneddiadau yn gallu cael mynediad gwell at ystod o gyfleusterau trwy gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus, ac mae'r Cyngor yn parhau i wella rhwydwaith

teithio llesol o fewn a rhwng aneddiadau. Fodd bynnag, mae trafnidiaeth gyhoeddus gymharol gyfyngedig ar gael yn yr ardaloedd gwledig mwy anghysbell a rhwng ei brif drefi, sy'n cyfyngu ar hygyrchedd i gyfleusterau a gwasanaethau, yn enwedig ar gyfer grwpiau difreintiedig.

3.30 Mae Bro Morgannwg ym Mharth Metro De-ddwyrain Cymru ac mae'r Cyngor yn parhau i geisio gwella cysylltedd trafnidiaeth gyhoeddus i wella seilwaith trafnidiaeth, gan gynnwys cyfleusterau parcio a theithio newydd, er mwyn hwyluso mwy o hygyrchedd i drigolion y Fro a lleihau tagfeydd yn ystod oriau brig, ar y rhwydwaith rheilffyrdd a ffyrdd.

3.31 Mae Porthladd y Barri yn gyfleuster allweddol ar gyfer diwydiant cemegol y rhanbarth, gan drin sympiau hylif ar gyfer cwmnïau mawr ac mae'n trin tua 300,000 tunnell o gargo, gan gyfrannu dros £340 miliwn at yr economi bob blwyddyn ac mae'n ffynhonnell bwysig o gyflogaeth leol.

3.32 Bydd cysylltedd digidol yn parhau i chwarae rhan bwysig wrth alluogi gweithio ystwyth a hwyluso twf economaidd. Mae data o MALlC 2019 yn rhoi cipolwg ar ansawdd argaeledd band eang ledled Bro Morgannwg. Mae Maes Amgylchedd y MALlC yn cynnwys mesur o'r diffyg band eang ar gyflymder o 30 megabit yr eiliad (mbs), dyma'r cyflymderau nodweddiadol a ddarperir gan gysylltiadau Ffibr i Gabinet. Mae gwahaniaeth mewn cyflymderau lawrlwytho rhwng ardaloedd mwy gwledig a threfol Bro Morgannwg. Mae ACEHI mewn trefi fel y Barri, Penarth a'r Bont-faen yn dangos argaeledd uchel i fand eang ar 30mbs ac mae ACEHI mewn ardaloedd mwy gwledig yn dangos argaeledd gwaeth. Bydd y CDLlN yn hyrwyddo ac yn cefnogi'r gwaith o ddarparu seilwaith digidol a chyfathrebu i ddiwallu anghenion defnyddwyr a darparwyr ar gyfer cyfnod y cynllun.


## Economi a Chyflogaeth

### Lle Gwaith a Chymudo

3.33 Mae daearyddiaeth gweithgarwch economaidd o fewn yr awdurdod yn gynyddol amrywiol gyda phobl y Fro yn aml yn byw, gweithio ac ymgymryd â gweithgareddau hamdden o fewn a thu allan i'r awdurdod. Ers pandemig Covid, mae nifer y bobl sy'n gweithio gartref yn cynyddu'n sylweddol, ochr yn ochr â chyfran y gweithlu sy’n cymryd rhan mewn patrymau gwaith hyblyg. Mae data diweddaraf Cyfrifiad 2021 yn dangos bod 34% o'r gweithlu yn gweithio gartref naill ai'n rhan amser neu'n llawn amser. Fodd bynnag, mae hyn yn amrywio ar draws Bro Morgannwg, gyda'r achosion uchaf o weithio gartref wedi'u lleoli yng nghefn gwlad y Fro, a'r isaf yn y Barri[3].

[3] https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/bulletins/traveltoworkenglandandwales/census2021

3.34 Er bod y pellteroedd y mae preswylwyr fel arfer yn eu cymudo yn gymharol fyr, gyda'r mwyafrif o drigolion y Fro (33.8%) yn teithio llai na 10km i'w gweithle, 16% yn cymudo hyd at 30km a 3.5% yn fwy na 30km, mae lefelau cymudo oddi ar gymudo yn parhau i fod yn uchel (Ffigur 10). Mae'r nifer mwyaf o drigolion sy'n teithio y tu allan i'r Fro at ddibenion gwaith yn teithio i Gaerdydd ac yna Pen-y-bont ar Ogwr a Rhondda Cynon Taf, tra bod cyfran lai yn cymudo i'r Fro o'r awdurdodau cyfagos hyn. O ganlyniad, mae'r briffordd yn profi tagfeydd yn ystod oriau brig.




**Ffigur 10: Ffynhonnell: SYG 2011**


## Strwythur Cyflogaeth

3.35 Cyfran poblogaeth oedran gweithio'r Fro (16-64 oed) yn 2021 oedd 60.3% sydd ychydig yn is na'r cyfartaledd rhanbarthol a chenedlaethol (62% a 61.2% yn y drefn honno).

3.36 Dros y 5 mlynedd diwethaf, mae nifer y swyddi ym Mro Morgannwg wedi aros yn gyson dros 41,000 ar y cyfan, tra bod y proffil swyddi y mae pobl sy'n cael eu cyflogi yn y sector wedi newid gyda'r newid mwyaf yn digwydd yn y sectorau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol, a gwasanaethau busnes a chymorth, gan adlewyrchu'r duedd ehangach o ran ehangu cyflogaeth mewn swyddfeydd.

3.37 Y sector iechyd sy'n gyfrifol am y nifer mwyaf o weithwyr ym Mro Morgannwg, 8,000 neu 19.5% o gyfanswm y bobl mewn cyflogaeth. Gweithgynhyrchu oedd y diwydiant mwyaf nesaf ym Mro Morgannwg, drwy gyflogi 3,500 neu 8.5 y cant o'r gweithlu. Roedd sectorau swyddfa breifat yn cyfrif am gyfanswm cyfunol o 15.4 y cant, neu 6,300 o weithwyr yn y Fro, o'i gymharu â 16.8 y cant yng Nghymru. Oherwydd amledd uchel y trigolion a gyflogir mewn sectorau proffesiynol, gellir disgrifio'r Fro fel gweithlu medrus, a adlewyrchir yn y ffaith bod cyflog wythnosol

cyfartalog y Fro £61 yn fwy na chyflog wythnosol cyfartalog yn y gweithle, sy'n cyfateb i 10% yn fwy[4].




**Ffigur 11: Cyflogaeth yn ôl Galwedigaeth, Ionawr 2021 - Rhagfyr 2021 Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, 2022**

## Twristiaeth

3.38 Mae gan y Fro amrywiaeth o atyniadau i dwristiaid sy'n defnyddio'r amgylchedd naturiol i wella lles economaidd yr ardal. Mae hyn yn cynnwys Arfordir Treftadaeth Morgannwg, Llwybr Arfordir Cymru a chyrchfannau glan môr hirsefydlog; cefn gwlad a pharciau gwledig deniadol; nodweddion hanesyddol unigryw; nifer o weithgareddau awyr agored; a rhwydwaith llwybrau cerdded hirsefydlog.

3.39 Cydnabyddir glan môr Ynys y Barri a Bae Whitmore fel un o'r prif gyrchfannau i dwristiaid ym Mro Morgannwg. Mae'r gyrchfan yn adnabyddus ledled Cymoedd De Cymru, De-orllewin Lloegr a Gorllewin Canolbarth Lloegr y mae cyfran uchel o ymwelwyr wedi dod ohonynt yn y gorffennol. Mae prif atyniadau'r gyrchfan yn cynnwys y traeth, Parc Pleser Ynys y Barri, atyniadau llai eraill a nifer o beiriannau chwarae, caffis a bariau. Er y bu'n rhaid wynebu newidiadau mawr yn y farchnad a galwadau bythol gynyddol, mae'r ardal yn dal i ddenu amcangyfrif o 424,000 o ymwelwyr gwerth £17 miliwn i'r economi (STEAM 2019).

3.40 Mae cyfraniad economaidd y sector twristiaeth wedi bod yn tyfu o flwyddyn i flwyddyn ym Mro Morgannwg; fodd bynnag, yn 2020 mae data'n awgrymu bod effaith economaidd y sector wedi gostwng 45.1% o ganlyniad i bandemig Covid a'r cyfyngiadau teithio cysylltiedig a gyd-darodd â gostyngiad o 45.3% yn nifer y swyddi cyfwerth ag amser llawn a gyflogir yn y sector. Mae data STEAM yn dangos bod nifer yr ymwelwyr dydd wedi gostwng i 1.89 miliwn yn 2020, ond fe wnaeth y niferoedd hyn wella i 4.23 miliwn erbyn 2021. Wrth i'r Fro adfer ar ôl y

[4] SYG, Cyflogau ac oriau gwaith, man gwaith fesul awdurdod lleol: Tablau ABOE 7 ac 8, 2021, dros dro. Cyflog gros cymedrig i weithiwr llawn amser, Bro Morgannwg: lle gwaith (£607.80); lle preswylio (£669.20).

pandemig, ystyrir y bydd tueddiadau'n cynyddu i'r pwynt lle maent yn cyfateb i'r twf a gafwyd cyn y pandemig ac yn rhagori arno.

## Manwerthu

3.41 Mae'r sector manwerthu ym Mro Morgannwg yn cynnwys amrywiaeth o siopau cyfleustra a chymharu sy'n canolbwyntio'n bennaf ar aneddiadau Y Barri, Penarth, Llanilltud Fawr a'r Bont-faen ac ym mharc manwerthu y tu allan i'r canol yng Nghroes Cwrlwys. Nododd archwiliadau iechyd ar y prif ganol trefi a gynhaliwyd fel rhan o'r Astudiaeth Hamdden Manwerthu a Masnachol (2023) fod Penarth, Y Bont-faen a Llanilltud Fawr yn perfformio'n dda, gyda lefelau is na'r cyfartaledd o unedau gwag yng nghanolfannau'r ardal, tra bod gan ganol tref Heol Holltwn yn y Barri a Chanolfan Ardal y Stryd Fawr nifer uwch na'r cyfartaledd o unedau gwag. Mae angen sicrhau bod polisïau'r dyfodol yn caniatáu hyblygrwydd ar gyfer ystod ehangach o ddefnyddiau a fyddai'n dderbyniol o fewn canol tref, yn unol â'r egwyddor canol trefi yn gyntaf.

3.42 Nododd yr astudiaeth fanwerthu fod Bro Morgannwg yn cadw cyfran iach o wariant ar nwyddau cyfleustra, gydag 86.1% (£273.7 miliwn) o'r holl wariant cyfleustra (eitemau hanfodol bob dydd fel bwyd) gan drigolion y Fro yn cael eu gwario mewn unedau manwerthu yn y Fro. Fodd bynnag, mae llawer o'r gwariant hwn yn digwydd mewn siopau y tu allan i'r canol yn hytrach na chanol trefi. Ar gyfer siopa cymharu (eitemau manwerthu nad ydynt yn cael eu prynu'n aml), mae'r Fro yn cadw ychydig dros hanner (50.3%) o'r holl wariant cymharu (£294.5 miliwn), gyda'r gollyngiadau allan o'r ardal yn cael eu cyfeirio'n bennaf tuag at Gaerdydd.

3.43 Canfu'r astudiaeth fod capasiti gofod llawr cyfleustra rhwng 4,282 metr sgwâr a 5,862 metr sgwâr (yn dibynnu ar y math o weithredwr), sydd oherwydd masnachu siopau presennol uwchben lefelau'r llinell sylfaen. Mewn termau ansoddol, nodwyd bod angen archfarchnad ganolig i fawr yng nghanol trefi Heol Holltwn y Barri, Penarth a Llanilltud Fawr.

## Yr Amgylchedd Naturiol

3.44 Mae'r Fro yn dirwedd iseldir nodedig sy'n cynnwys llwyfandir calchfaen i raddau helaeth, a rennir gan sawl afon gan gynnwys Afon Elái, Afon Ddawan a Waycock. Mae amrywiaeth o ddefnyddiau tir gwledig yn nodweddu'r ardal, a atgyfnerthir gan wrychoedd trwchus, coetiroedd bychain mynych a choed, sy'n creu ymdeimlad o glydwch. Mae'r dirwedd yn dod i ben yn sydyn ar yr Arfordir Treftadaeth gyda chlogwyni fertigol. Wedi'u gwasgaru rhwng y clogwyni mae sawl traeth tywod a graean ar hyd arfordir.

3.45 Mae llawer o dirweddau'r Fro yn cael eu hadnabod drwy ddynodiad am eu safon uchel. Mae un Tirwedd o Ddiddordeb Arbennig ac Eithriadol yn bodoli'n gyfan gwbl o fewn y Fro ac un arall yn rhannol. Mae 6 Ardal Tirwedd Arbennig, ac mae arfordir gorllewinol y Fro yn cael ei gydnabod am ei bwysigrwydd cenedlaethol fel Arfordir Treftadaeth Morgannwg.

3.46 Mae'r cymysgedd o dirweddau arfordirol a chefn gwlad yn arwain at amrywiaeth fawr o gynefinoedd, rhai ohonynt yn eithaf prin megis y llyn mesotroffig, Pysgodlyn Mawr, yn Hensol a'r morlyn halwynog yn Aberddawan. Mae'r amrywiaeth hon hefyd yn golygu bod arfordir a chefn gwlad y Fro yn cynnal amrywiaeth gyfoethog o blanhigion ac anifeiliaid. Mae rhywogaethau prin yn bresennol, gan gynnwys y glöyn byw Brith y Gors Brown, y Pibydd Gwyrdd, Blodyn-ymenyn yr ŷd, y Sarth, y Berdysyn Gwisgi a'r Cardwenynen. Er bod maint llawer o'r cynefinoedd yn gymharol fach, mae rhai yn fwy helaeth, megis rhostir, glaswelltiroedd arfordirol a choetiroedd, ac mae hyd gwrychoedd hynafol ac ymylon caeau âr sy'n llawn rhywogaethau yn sylweddol.

3.47 Fel tirweddau'r Fro, i gydnabod cynefinoedd cyfoethog y Fro, mae llawer o'i hardaloedd wedi'u dynodi am eu gwerth bioamrywiaeth gan ddynodiadau rhyngwladol, cenedlaethol a lleol sy'n golygu ei bod yn un o'r ardaloedd cyfoethocaf o ran bioamrywiaeth a harddwch naturiol yn Ne Cymru. Mae 2 safle yn y Fro wedi'u dynodi'n safleoedd Ewropeaidd o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd: Aber Afon Hafren, a nodir fel safle RAMSAR, Ardal Cadwraeth Arbennig, ac Ardal Gwarchodaeth Arbennig; a Bae Dwnrhefn, sy'n cael ei nodi'n Ardal Cadwraeth Arbennig. Mae Ardal Cadwraeth Arbennig Cynffig hefyd yn ymestyn i'r Fro yn y Dwyrain. Yn ogystal â'r rhain mae amrywiaeth o ddynodiadau cenedlaethol a lleol, er enghraifft: 27 o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig; dros 300 o Safleoedd o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur; 12 o Safleoedd o Bwysigrwydd Daearegol a Geomorffolegol Rhanbarthol a 3 Gwarchodfa Natur Leol.

3.48 Wrth ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur datganedig, bydd yn bwysig diogelu ardaloedd dynodedig a, lle bo modd, manteisio ar gyfleoedd i greu rhwydweithiau ecolegol newydd.

3.49 Mae'r CDLl mabwysiedig yn nodi lletemau gwyrdd sy'n ceisio atal ymgyfuniad aneddiadau a chadw'r natur agored. Mae methodoleg ranbarthol ar gyfer adnabod lletemau gwyrdd yn cael ei pharatoi ar hyn o bryd a rhagwelir y bydd y fethodoleg hon yn cael ei defnyddio i lywio unrhyw ddynodiadau lletem gwyrdd o fewn y CDLlN ar Adnau. Ystyrir hefyd y dynodiadau Ardal Tirwedd Arbennig presennol i sicrhau bod y rhain yn parhau i fod yn briodol.

## Iaith, Diwylliant, Treftadaeth ac Amrywiaeth

3.50 Mae’r Gymraeg yn rhan o wead cymdeithasol a diwylliannol Cymru ac mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chefnogi a’i hannog ym mhob cwr o Gymru. Yn ôl Cyfrifiad 2021, roedd 11.5% o'r boblogaeth 3 oed neu hŷn yn gallu siarad Cymraeg, sy'n gynnydd o'i gymharu â Chyfrifiad 2011, lle roedd dim ond 10.8% o bobl 3 oed neu hŷn yn gallu siarad Cymraeg. Mae hyn yn groes i'r duedd a gafwyd ledled Cymru yn gyffredinol, lle mae nifer y siaradwyr Cymraeg wedi gostwng o 19% yn 2011 i 17.8% yn 2021.

3.51 Mae canran y bobl sy'n cofnodi eu bod yn dod o grŵp ethnig nad yw'n wyn wedi cynyddu yng Nghyfrifiad 2021 o'i gymharu â Chyfrifiad 2011, gyda 5.4% yn nodi eu bod yn perthyn i grŵp ethnig heblaw Gwyn, o'i gymharu â 4.4% yn 2011. Nododd Cyfrifiad 2021 fod 2.1% o'r boblogaeth yn nodi eu hethnigrwydd fel 'Asiaidd ac Asiaidd Prydeinig, neu Asiaidd Cymraeg', nododd 0.5% eu bod yn 'Ddu, Du Prydeinig, Du Cymraeg, Caribïaidd neu Affricanaidd', nododd 2.3% eu bod o 'Grwpiau ethnig Cymysg neu Lluosog' a nododd 0.5% eu bod mewn 'grŵp ethnig arall'.

3.52 O ran ei threftadaeth ddiwylliannol, mae gan Fro Morgannwg tua 740 o adeiladau rhestredig, dros 100 o Henebion Cofrestredig, 39 o Ardaloedd Cadwraeth, 18 o ardaloedd sydd wedi’u cynnwys yn y Gofrestr Parciau a Gerddi Hanesyddol a 2 ardal sydd wedi'u nodi yn y Gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru.

3.53 Mae hefyd yn hanfodol i'r cynllun sicrhau bod tai yn y dyfodol yn darparu ar gyfer anghenion llety penodol pobl anabl drwy ddarparu cyfleoedd ar gyfer cynigion byw'n annibynnol fel cynlluniau byw â chymorth a thrwy sicrhau bod tai arbenigol yn rhan o gymysgedd tai ehangach ar safleoedd penodedig a nodwyd. Bydd hefyd yn bwysig i ddatblygiadau newydd fod wedi’u lleoli'n addas a galluogi mynediad hawdd i siopau a chyfleusterau canol trefi a chanolfannau lleol.

## Newid yn yr Hinsawdd a Pherygl Llifogydd

3.54 Yn 2019 roedd Bro Morgannwg yn cyfrif am oddeutu 5% o allyriadau carbon Cymru, gydag 8.4 tunnell o CO2 y pen. Mae allyriadau'n lleihau dros amser, fodd bynnag, bydd yn rhaid iddynt leihau'n sylweddol yn ystod cyfnod y cynllun i gyrraedd targedau sero net. Y sectorau sy'n allyrru’r mwyaf o garbon yw diwydiant (57%), trafnidiaeth (21%) a domestig (17%). Mae gan 53% o stoc dai'r Fro sgôr TPY o D neu waeth. Mae 38% o alw trydan y Fro yn cael ei ddiwallu gan gynhyrchu ynni adnewyddadwy lleol, gyda solar PV (84MW) a biomas (45MW) wedi'i osod yn y ddaear yn cyfrannu at hyn.

3.55 Fel awdurdod arfordirol bydd newid hinsawdd yn cael effaith ddramatig ar arfordir y Fro a'r cymunedau o fewn ardaloedd arfordirol oherwydd cynnydd yn lefel y môr a stormydd sy'n golygu bod yr arfordir yn fwy agored i lifogydd ac erydu arfordirol. Hefyd, mae ardaloedd o'r Fro yn agos at ardaloedd sydd eisoes mewn perygl o

lifogydd, yn enwedig ardaloedd cyfagos yn y Barri, Dinas Powys a Phenarth. Mae Cofrestr Cymunedau mewn Perygl Cyfoeth Naturiol Cymru yn amcangyfrif bod tua 5,000 o eiddo preswyl yn y Fro mewn rhywfaint o berygl o lifogydd ar hyn o bryd[5]. Dengys amcanestyniadau cyffredinol ar gyfer y newid yn yr hinsawdd y bydd glaw amlach a dwysach yn fwy tebygol. Disgwylir y bydd digwyddiadau difrifol fel stormydd 2020 yn dod yn fwy cyffredin gyda mwy o ddifrifoldeb ac amlder llifogydd mewn cartrefi, cymunedau a busnesau. Ar yr un pryd, mae llifogydd arfordirol yn fygythiad cynyddol oherwydd cynnydd cymedrig yn lefel y môr a chynnydd mewn tywydd stormus ac uchder tonnau. Bydd yr effeithiau hyn sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd yn cynyddu nifer yr eiddo, y seilwaith a'r gwasanaethau allweddol a fydd mewn perygl o lifogydd o bob ffynhonnell.

[5] https://mapdata.llyw.cymru/layergroups/geonode:nrw_communities_at_risk_register

## 4. THEMÂU, GWELEDIGAETH AC AMCANION ALLWEDDOL Y CDLLN

### THEMÂU ALLWEDDOL

4.1 Rôl y CDLlN yw darparu fframwaith polisi a fydd yn mynd i'r afael â'r materion defnydd tir y mae Bro Morgannwg yn eu hwynebu. O ystyried cyd-destun a nodweddion uchod y Fro, gan gynnwys materion allweddol ym maes polisi cenedlaethol a chynlluniau a strategaethau lleol a rhanbarthol eraill, yn ogystal ag adborth a gafwyd gan ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth baratoi'r cynllun, nodwyd y Themâu Allweddol canlynol.

| Themâu Allweddol y CDLlN | |
|---|---|
| **Lliniaru ac Addasu i Newid yn yr Hinsawdd** | Blaenoriaethu addasu i a lliniaru Newid yn yr Hinsawdd, gan sicrhau bod datblygiadau a defnydd tir yn y Fro yn ymateb i'r achosion ac yn wydn i effaith Newid yn yr Hinsawdd. |
| **Gwella Iechyd Meddyliol a Chorfforol a Llesiant** | Gwella iechyd a lles ein trigolion trwy feithrin cymunedau llesol, iach ar gyfer byw, gweithio ac ymweld â nhw ac sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a chymdeithasol-economaidd mewn modd cynaliadwy. |
| **Cartrefi i Bawb** | Mae angen i'r cyflenwad tai allu ymateb i boblogaeth gynyddol yr awdurdod ond rhaid iddo hefyd fod yn briodol o ran math, deiliadaeth a lleoliad. Yn ogystal, rhaid cael darpariaeth ddigonol o dai fforddiadwy er mwyn darparu ar gyfer y rhai sydd mewn angen. |

| |
|---|
| **Creu Lleoedd** |
| Hwyluso'r gwaith o ddatblygu cymunedau addasadwy, hygyrch, cysylltiedig iawn sydd ag ymdeimlad cryf o hunaniaeth, cynnig ystod gynaliadwy o wasanaethau a chyfleusterau ac sydd â seilwaith digonol. . |
| **Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Naturiol** |
| Gwarchod a gwella ansawdd, cysylltedd a gwydnwch amgylchedd naturiol a seilwaith rhwydwaith gwyrdd / glas y Fro a gwneud y gorau o'r cyfleoedd i ymdrechu i gyflawni budd bioamrywiaeth net. Rhaid rheoli adnoddau naturiol, mwynau a gwastraff mewn ffordd gynaliadwy ym Mro Morgannwg er mwyn sicrhau effeithlonrwydd adnoddau, gan gynnwys defnyddio a chynhyrchu ynni adnewyddadwy. |
| **Cofleidio Diwylliant a Threftadaeth** |
| Cadw a gwella asedau diwylliannol a threftadaeth yr awdurdod, gan wneud y mwyaf o gyfleoedd a gyflwynir gan y Fro o ran ei hamgylchedd adeiledig a naturiol, ei hunaniaeth ddiwylliannol a'r Gymraeg. |
| **Meithrin Cymunedau Amrywiol, Bywiog a Chysylltiedig** |
| Meithrin datblygiad cymunedau sydd wedi'u cysylltu'n dda, sy'n gydlynus a sicrhau bod yr holl brosesau ymgysylltu mor gynhwysol â phosibl, gan ganiatáu i bawb sy'n dymuno rhannu eu barn drwy gydol proses y CDLlN i wneud hynny. |
| **Hyrwyddo Dewisiadau Teithio Llesol a Chynaliadwy** |
| Hyrwyddo ac annog defnyddio dulliau cynaliadwy o deithio, yn enwedig dulliau teithio llesol, tra'n lleihau'r angen i deithio ar yr un pryd. |
| **Adeiladu Economi Lewyrchus a Gwyrdd** |
| Hwyluso twf economaidd ledled yr awdurdod, gan sicrhau amrywiaeth a dewis o safleoedd cyflogaeth lleol a strategol a chyfleoedd gwaith mewn ymateb i anghenion cyflogaeth. Dylai'r cyfleoedd hyn allu addasu i newid a meithrin twf gweithlu medrus iawn. |

4.2 Mae datblygiad elfennau craidd y Strategaeth a Ffefrir, sef y Weledigaeth, amcanion a pholisïau strategol a nodir yn yr adrannau canlynol wedi'u llunio gan y themâu allweddol hyn.

## GWELEDIGAETH (2021 - 2036)

4.3 Mae gan y CDLlN rôl hanfodol i'w chwarae wrth hyrwyddo a darparu cymunedau cynaliadwy, bywiog a chynhwysol. Mewn ymateb i'r materion strategol ac allweddol, mae Gweledigaeth y CDLlN ynghyd â'r 10 amcan strategol yn trosi'r ffordd y bydd y Cyngor, drwy gynllunio defnydd tir, yn sicrhau bod datblygiad yn y dyfodol yn cyfrannu at fynd i'r afael â'r materion allweddol hyn yn y Fro ac yn cefnogi'r cyfleoedd, a'r uchelgeisiau ar gyfer Bro Morgannwg dros oes y cynllun.

4.4 Mae Gweledigaeth y CDLlN yn edrych ymlaen at 15 mlynedd hyd at 2036 ac yn dangos sut y bydd twf yn cyfrannu at wneud y Fro yn lle iachach, cysylltiedig a chynaliadwy lle mae pobl eisiau byw a gweithio ynddo. Mae'n pennu'r cyfeiriad cyffredinol a ddisgrifir yn fanylach mewn amcanion gofodol mwy penodol, ac yn ffurfio'r cysylltiad rhwng y weledigaeth lefel uchel a'r strategaeth twf gofodol a'r polisïau strategol.

***Gweledigaeth CDLlN Bro Morgannwg***
***Erbyn 2036 :***

*Bydd y Cyngor wedi cyflawni ei darged o fod yn ddi-garbon erbyn 2030. Mae wedi mabwysiadu technegau arloesol a defnyddio adnoddau yn effeithlon i liniaru ei effaith ar yr amgylchedd, ac mae prosiectau di-garbon enghreifftiol gan gynnwys ysgolion a rhwydweithiau gwresogi ardal wedi'u gweithredu. Mae datblygu Parc Ynni Gwyrdd Aberddawan Prifddinas-Ranbarth Caerdydd wedi sefydlu Bro Morgannwg fel canolfan ranbarthol ar gyfer arloesi ym maes ynni adnewyddadwy a gwyrdd a gweithgynhyrchu di-garbon. Mae'r holl ddatblygiadau ym Mro Morgannwg bellach wedi eu hadeiladu i'r safonau uchaf o ran dylunio a pherfformiad amgylcheddol, gan ymgorffori mesurau i liniaru ac addasu i effeithiau Newid yn yr Hinsawdd.*

*Mae Bro Morgannwg yn lle iach a chynhwysol i bawb, gyda mynediad teg at wasanaethau a chyfleusterau, yn gorfforol a digidol. Mae'r trigolion yn falch o lle maen nhw'n byw a gallant gael y cartrefi sydd eu hangen arnynt. Mae twf tai wedi darparu cartrefi sy'n darparu ar gyfer pawb, gan gynnwys cartrefi fforddiadwy a thai pobl hŷn; gan gyfrannu tuag at gymunedau amrywiol a chydlynus lle gall trigolion gynnal eu hannibyniaeth.*

*Drwy greu lleoedd, mae lleoedd a gofodau yn ddiogel, yn hygyrch ac yn gymdeithasol gynhwysol. Mae datblygiadau yn parchu cymeriad lleol ac mae'r ymdeimlad o le yn cael ei werthfawrogi gan drigolion ac yn cyfrannu'n gadarnhaol tuag at iechyd a lles. Cyflawnwyd gwelliannau cadarnhaol wrth leihau bwlch yr anghyfartaledd o ran ansawdd bywyd a chanlyniadau iechyd i drigolion sy'n byw yn yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf*

*drwy well mynediad at gyflogaeth, addysg, hyfforddiant, gwasanaethau a buddsoddiad yn yr amgylchedd adeiledig.*

*Mae'r Fro yn mwynhau rhwydwaith o fannau gwyrdd a glas cysylltiedig, aml-swyddogaethol a hygyrch, gan ddarparu ystod o fanteision hamdden ac iechyd gwell o fewn a rhwng trefi, pentrefi ac yng nghefn gwlad. Mae mwy o drigolion yn cymryd rhan mewn ffyrdd o fyw iach a llesol. Mae buddsoddi mewn seilwaith gwyrdd wedi cynhyrchu budd bioamrywiaeth net gyda chreu cynefinoedd newydd, gwell cysylltedd a Phlannu yn darparu storio carbon a chyfrannu at wytnwch ac addasu yn wyneb Newid yn yr Hinsawdd.*

*Mae'r Fro'n parhau i fod yn rhywle lle mae diwylliant ac amrywiaeth pobl, a rhinweddau unigryw ei chymunedau, yn cael eu cydnabod a'u gwarchod.*

*Mae creu lleoedd yn cefnogi ymdeimlad cryf o gymuned ac wedi cyfrannu at wella ansawdd bywyd pob cenhedlaeth. Mae trigolion ac ymwelwyr yn gallu cyrchu cyfleusterau lleol a lleoedd cynhwysol i gyfarfod a chwarae ynddynt. Bydd datblygiadau newydd yn parchu cymeriad lleol y Fro, gan warchod ei hamgylchedd hanesyddol, naturiol ac adeiledig eithriadol. Mae treftadaeth hanesyddol bwysig y Fro yn parhau i gael ei gwarchod a'i gwella.*

*Mae Rhaglen Twf ac Adfywio'r Cyngor ar gyfer y Barri wedi llwyddo i drawsnewid y dref. Mae'r dref a chanolfannau manwerthu lleol yn lleoedd bywiog, tra bod y marina newydd yng Nglannau'r Barri ac adfywio Ynys y Barri yn cynnig twristiaeth gydol y flwyddyn. Mae amrywiaeth o gynlluniau ardaloedd cyhoeddus wedi gwella'r amgylchedd adeiledig a naturiol drwy'r dref.*

*Mae trefi'r Bont-faen, Llanilltud Fawr a Phenarth yn ganolfannau gwasanaeth cynaliadwy bywiog a deniadol sy'n chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o ddarparu ystod amrywiol o wasanaethau a chyfleusterau i'w trigolion a'r rhai sy'n byw mewn pentrefi cyfagos. Mae canol trefi wedi addasu i adlewyrchu newidiadau mewn ymddygiad manwerthu a bellach yn gweithredu fel canolfannau aml-ddefnydd sy'n darparu mannau manwerthu, hamdden, hamddena, cymunedol a chyflogaeth.*

*Mae twf o fewn aneddiadau gwledig wedi darparu ar gyfer anghenion trigolion ac yn cefnogi cymunedau aml-genhedlaeth cytbwys sy'n cyfrannu at fywiogrwydd yr ardal wledig. Trwy fuddsoddi mewn teithio llesol, trafnidiaeth gyhoeddus, a chysylltedd band eang mae'r fro wledig yn gefn gwlad byw a gweithiol sy'n cefnogi rhwydwaith o gymunedau gwledig cynaliadwy a ffyniannus.*

*Mae cyflawni Metro De-ddwyrain Cymru yn golygu bod Bro Morgannwg bellach wedi'i chysylltu'n dda gan system drafnidiaeth integredig sy'n cefnogi twf economaidd. Mae gan gymunedau fynediad at gysylltedd trafnidiaeth gwell yn lleol ac yn rhanbarthol, gyda thwf economaidd a thai yn cael ei ddarparu'n gynaliadwy er budd cymunedau. Mae rhwydweithiau teithio llesol gwell o fewn a rhwng trefi a phentrefi wedi creu cymdogaethau bywiog a hygyrch i drigolion sy'dd wedi eu cysylltu â'u haneddiadau gwledig cyfagos.*

*Mae gan y Fro economi leol ffyniannus gyda sylfaen fusnes gytbwys ac amrywiol. Mae twf cyflogaeth newydd ym Mharthau Menter Bro Tathan a Maes Awyr Caerdydd wedi denu buddsoddiad mewnol gan fusnesau sy'n seiliedig ar wybodaeth ac uwch-dechnoleg, gan greu cyflogaeth a hyfforddiant o ansawdd uchel. Mae gan y Fro weithlu medrus sy'n gallu ymaddasu. Mae darparu safleoedd cyflogaeth strategol a lleol, ochr yn ochr â chyfleoedd i fusnesau gwledig, arallgyfeirio amaethyddol a chysylltedd digidol, wedi galluogi busnesau i dyfu a ffynnu ac mae wedi cyfrannu at ostyngiad mewn cymudo allan o'r ardal.*

*Drwy fuddsoddi'n gryf mewn twristiaeth, hamdden, hamddena ac isadeiledd gwyrdd, mae Bro Morgannwg yn gyrchfan ymwelwyr gydol y flwyddyn. Mae rheoli sensitif a chynaliadwy ar ei hasedau adeiledig a naturiol gan gynnwys yr Arfordir Treftadaeth, Parciau Gwlad, traethau, cefn gwlad a threftadaeth hanesyddol wedi galluogi twristiaeth i ffynnu. Mae'r Fro yn denu ymwelwyr o bell ac mae twristiaeth yn ffynhonnell bwysig o gyflogaeth leol, buddsoddiad, ac yn hwylusydd arallgyfeirio gwledig.*

## AMCANION STRATEGOL

4.5 Mae'r 10 amcan strategol isod yn ehangu weledigaeth y CDLl yn 9 thema allweddol ar gyfer Bro Morgannwg. Mae'r amcanion hyn nid yn unig yn adlewyrchu polisi cynllunio cenedlaethol, ond hefyd dyheadau'r Cyngor a rhanddeiliaid allweddol ac yn dangos sut y bydd y CDLl yn helpu i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd.

**Amcan 1 - Lliniaru ac Addasu i Newid yn yr Hinsawdd**

- Sicrhau'r defnydd effeithlon o adnoddau naturiol, hyrwyddo technegau dylunio ac adeiladu cynaliadwy o fewn datblygiadau newydd. Cefnogi mwy o gynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel, gan gynnwys cynlluniau gwresogi ardal a rhai wedi'u harwain gan y gymuned.

- Annog datblygiad sy'n lleihau'r angen i deithio mewn car ac annog pobl i arfer teithio llesol a defnyddio trafnidiaeth gynaliadwy i leihau allyriadau a gwella ansawdd aer.
- Sicrhau bod yr holl ddatblygiadau a seilwaith newydd yn wydn o ran effeithiau yn deillio o Newid yn yr Hinsawdd yn y dyfodol. Cyfeirio datblygiadau i ffwrdd o ardaloedd sy'n dueddol o wynebu risg llifogydd ac ymgorffori mesurau rheoli dŵr, a mesurau gwella bioamrywiaeth ac addasu.

**Amcan 2 - Gwella Iechyd Meddyliol a Chorfforol a Llesiant**

- Sicrhau bod pob man yn cynnig amgylcheddau cynhwysol a hygyrch ar gyfer pob oedran sy'n hwyluso rhyngweithio â natur a phobl eraill, a mynediad at gyfleusterau gofal iechyd angenrheidiol. Galluogi preswylwyr i gymryd rhan mewn ffyrdd o fyw actif, drwy ddarparu mynediad cyfleus i fannau agored a llwybrau teithio llesol ar gyfer hamdden, hamddena a gwaith.

- Galluogi darparu cyfleoedd cyflogaeth, hyfforddiant ac adfywio lleol sy'n lleihau anghydraddoldebau iechyd a chymdeithasol.

**Amcan 3 - Cartrefi i Bawb**

- Sicrhau bod pob datblygiad preswyl newydd yn darparu tai o safon uchel sy'n cynnwys y cymysgedd, y ddeiliadaeth a'r math o gartrefi cywir sy'n ymateb i anghenion newidiol poblogaeth y Fro. Mae hyn yn cynnwys cartrefi sy'n fforddiadwy, hygyrch ac addasadwy i bobl o bob oed a sy'n mynd i'r afael ag anghenion llety hysbys holl gymunedau'r Fro drwy bob cyfnod o'u bywydau.

**Amcan 4 - Creu Lleoedd**

- Drwy greu lleoedd, sicrhau y bydd y pob datblygiad yn cyfrannu'n gadarnhaol tuag at greu ymdeimlad o le. Bydd yr holl ddatblygiadau newydd wedi'u lleoli'n briodol ac yn cyfrannu tuag at greu lleoedd llesol, diogel, a hygyrch sy'n cynnwys amrywiaeth o ddefnyddiau. Bydd cymeriad y cymunedau presennol yn cael eu diogelu a'u gwella drwy ddatblygu lleoedd sy'n parchu arbenigrwydd lleol a'u lleoliad presennol.
- Hwyluso darpariaeth seilwaith cymunedol hygyrch sydd wedi'i deilwra i ddiwallu anghenion y gymuned, gan gynnwys iechyd o ansawdd uchel, addysg, hyfforddiant, a chyfleusterau a mannau cymunedol diwylliannol, cymdeithasol a hamdden.

**Amcan 5 – Diogelu a Gwella'r Amgylchedd Naturiol**

- Sicrhau bod pob datblygiad yn cyfrannu’n gadarnhaol at ddatblygu rhwydwaith o seilwaith gwyrdd, diogelu cynefinoedd naturiol ac ansawdd pridd a helpu i wrthdroi'r argyfwng natur drwy ddarparu budd bioamrywiaeth net lleol.
- Blaenoriaethu tir llwyd a ddatblygwyd yn flaenorol ar gyfer datblygiadau newydd, gan gyfeirio datblygiad i ffwrdd o ardaloedd o ddiddordeb cadwraeth natur a diogelu'r amgylchedd naturiol sensitif rhag datblygiad amhriodol.

**Amcan 6 - Cofleidio Diwylliant a Threftadaeth**

- Cydnabod gwerth treftadaeth adeiledig y Fro drwy wreiddio creu lleoedd yn y broses Gynllunio, er mwyn sicrhau bod cynigion datblygu yn amddiffyn amgylchedd adeiledig hanesyddol y Fro rhag newidiadau niweidiol. Sicrhau bod datblygiadau newydd yn gwarchod a gwella rhinweddau deniadol asedau hanesyddol y Fro, yn ymateb yn briodol i'r cyd-destun unigryw lleol a sicrhau safonau dylunio uchel.
- Cynnal a gwella cyfleusterau diwylliannol y Fro, a lle bo'n briodol sicrhau cyfleoedd ar gyfer cyfoethogi diwylliannol, gan gynnwys hyrwyddo’r defnydd o’r Gymraeg, o fewn datblygiadau newydd, yn yr amgylchfyd cyhoeddus a thrwy ddarparu gofodau ac adeiladau cymunedol aml-bwrpas.

**Amcan 7 - Meithrin Cymunedau Amrywiol, Bywiog, a Chysylltiedig**

- Hwyluso adfywiad ffisegol, economaidd, a chymdeithasol, gan adlewyrchu anghenion a dyheadau cymunedau lleol, drwy ddarparu cartrefi newydd, cyflogaeth, a chysylltedd trafnidiaeth gwell.

- Galluogi arallgyfeirio o ran defnydd o fewn canolfannau masnachol a gwasanaeth lleol i gynnig cymysgedd o ddefnyddiau manwerthu, hamdden, masnachol a chymunedol. Gwella teithio llesol a chysylltedd trafnidiaeth gyhoeddus o fewn a rhwng trefi ac aneddiadau cyfagos.
- Darparu ar gyfer cymunedau gwledig hanfodol a bywiog tra'n gwarchod cefn gwlad trwy sicrhau twf mewn lleoliadau cynaliadwy, sy'n gysylltiedig â'r Hierarchaeth Aneddiadau, ochr yn ochr â darparu seilwaith ategol.

**Amcan 8 - Hyrwyddo Dewisiadau Teithio Llesol a Chynaliadwy**

- Sicrhau bod datblygiadau newydd yn cael eu cyfeirio at leoliadau sy'n hygyrch neu'n gallu bod yn hygyrch drwy ddewis o ddulliau teithio, gan gynnwys cerdded, beicio, a thrafnidiaeth gyhoeddus.

- Sicrhau bod pob datblygiad newydd yn cynyddu'r cyfleoedd i breswylwyr deithio'n llesol, drwy ymgorffori cyfleusterau teithio llesol ac annog newid moddol tuag at fwy o ddefnydd ar drafnidiaeth gynaliadwy.

- Dod o hyd i gyfleoedd i wneud y mwyaf o fuddsoddiad mewn trafnidiaeth leol sy'n deillio o Fetro De-ddwyrain Cymru er mwyn cryfhau cysylltedd trafnidiaeth gyhoeddus yn lleol ac yn rhanbarthol, darparu rheolaeth dros y rhwydwaith priffyrdd, a chynnig dewisiadau diogel ac effeithiol ar gyfer cerdded a beicio ochr yn ochr â gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus well.

**Amcan 9 - Adeiladu Economi Ffyniannus a Gwyrdd**

- Darparu ar gyfer amrywiaeth a dewis o dir cyflogaeth o ansawdd da a chefnogi seilwaith i alluogi busnesau lleol i ehangu. Creu cyfleoedd ar gyfer mewnfuddsoddiad a galluogi economi'r Fro i ymateb i newidiadau mewn patrymau gwaith a chyflogaeth yn y dyfodol.

- Hyrwyddo Parth Menter Bro Tathan, Maes Awyr Caerdydd ac Aberddawan, fel meysydd cyflogaeth strategol pwysig, gan alluogi darparu swyddi medrus o safon uchel, hyfforddiant a chyfleoedd addysg.

- Cefnogi arallgyfeirio'r economi wledig, gan alluogi cyfleoedd i ddarparu safleoedd cyflogaeth a busnes o fewn aneddiadau gwledig a hwyluso'r twf mewn mentrau gwledig.
- Hwyluso twf twristiaeth gynaliadwy, gan gydnabod ei gyfraniad at les economaidd y Fro. Galluogi gwell hamdden, hamddena, gweithgarwch economaidd, arallgyfeirio, a datblygu cynaliadwy.

**Amcan 10 – Hyrwyddo Twristiaeth Gynaliadwy**

- Creu cyrchfan dwristiaeth ddeniadol gyda delwedd bositif i Fro Morgannwg, gan annog datblygu cynaliadwy a chyfleusterau o safon i gyfoethogi profiad ymwelwyr a phreswylwyr.

## 5. OPSIYNAU'R STRATEGAETH OFODOL A THWF

5.1. Prif ddiben y strategaeth a ffafrir yw creu darlun clir o lefel y twf a dosbarthiad gofodol datblygiad ym mro morgannwg, er mwy cyflawni'r weledigaeth a'r amcanion dros gyfnod y cynllun.

5.2. Mae ystyried opsiynau gofodol realistig yn rhan bwysig o'r gwaith o baratoi'r CDLlN. Bydd angen i bob opsiwn gofodol roi ystyriaeth i ddeddfwriaeth, polisi cynllunio cenedlaethol a strategaethau lleol a rhanbarthol. Ar ben hyn, mae'n rhaid i'r Cynllun roi ystyriaeth i nodweddion, asedau a phroblemau penodol o fewn Bro Morgannwg, a cheisio llywio datblygiad er mwyn ymateb i hynny. Mae'n rhaid i'r strategaeth gyflawni'r Weledigaeth a'r Amcanion.

### Opsiynau'r Strategaeth Ofodol

5.3. Gan fod y Cyngor eisoes wedi mabwysiadu CDLl, mae Strategaeth bresennol y CDLl wedi cael ei hasesu ochr yn ochr â thair strategaeth amgen, er mwyn penderfynu a yw'n parhau i fod yn briodol o fewn y cyd-destun polisi cyfredol. Dyma'r pedwar opsiwn sydd wedi cael eu hystyried ar gyfer y strategaeth.

- Opsiwn 1 – Parhau â Strategaeth Twf y CDLl mabwysiedig.
- Opsiwn 2 – Twf Gwasgaredig.
- Opsiwn 3 – Twf â Ffocws.
- Opsiwn 4 – Twf Cynaliadwy sy'n Canolbwyntio ar Drafnidiaeth.

5.4. Ystyrir bod y pedwar opsiwn gofodol yn realistig, ond y byddent yn arwain at wahanol ffyrdd o ddosbarthu twf tai a mathau eraill o ddatblygiad. Mae dadansoddiad o bedwar opsiwn y strategaeth ofodol wedi'i gynnwys yn y **Papur Cefndir Opsiynau Gofodol**. Mae'r papur hwn yn ystyried manteision ac anfanteision pob opsiwn gofodol, gan gynnwys y graddau y mae pob opsiwn gofodol yn cydymffurfio â Dyfodol Cymru. Mae pob un o'r opsiynau strategaeth hefyd wedi cael eu hystyried yn rhan o'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig.

5.5. Ceir rhai materion polisi cynllunio allweddol y mae'n rhaid eu hymgorffori ym mha bynnag opsiwn strategaeth a ddewisir gan eu bod yn rhan annatod o unrhyw strategaeth. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Defnyddio tir a ddatblygwyd o'r blaen yn y lle cyntaf cyn safleoedd maes glas.
- Mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd drwy liniaru ac ymaddasu.
- Hyrwyddo egwyddorion creu lle.
- Hyrwyddo trafnidiaeth gynaliadwy a newid dulliau teithio.
- Gwneud y gorau o gyfleoedd i wella seilwaith gwyrdd.
- Ymateb i'r argyfwng natur drwy fudd net bioamrywiaeth.

5.6. Ar ôl dadansoddi'r opsiynau, ac yn dilyn adborth o'r sesiynau ymgysylltu â rhanddeiliaid, ystyrir mai'r Opsiwn Twf sy'n Canolbwyntio ar Drafnidiaeth yw'r opsiwn mwyaf priodol gan mai dyna sy'n cyd-fynd orau â gofynion polisi Dyfodol Cymru, Polisi Cynllunio Cymru a Llwybr Newydd - Strategaeth Trafnidiaeth Cymru, drwy leoli datblygiad mewn mannau cynaliadwy yn bennaf, gan leihau'r angen i deithio ac annog defnydd o drafnidiaeth gynaliadwy. Bydd yr opsiwn hwn hefyd yn ystyried capasiti aneddiadau i gynnwys datblygiadau, yn hytrach na thargedu datblygiadau i safleoedd o faint neu leoliad penodol yn yr hierarchaeth aneddiadau.

5.7. Yn dilyn y broses ymgysylltu, roedd ffocws y strategaeth wedi'i fireinio, fel ei fod nid yn unig yn ceisio lleoli safleoedd mewn lleoedd â gwasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus da, ond hefyd yn targedu datblygiadau mewn mannau sy'n lleihau'r angen deithio yn y lle cyntaf, drwy gydleoli tai mewn lleoedd â chyfleoedd cyflogaeth, gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol. Mae'r **Strategaeth Twf Cynaliadwy** hon hefyd yn ymateb i'r angen dybryd am dai fforddiadwy, drwy leoli datblygiadau'n bennaf mewn ardaloedd lle ceir y mwyaf o angen. Mae’r strategaeth hefyd yn caniatáu datblygiadau tai fforddiadwy ar raddfa fach mewn aneddiadau gwledig llai lle bo’n briodol er mwyn ymateb i’r angen am dai fforddiadwy mewn cymunedau ledled y Fro.

5.8. Ceir esboniad manylach o gydrannau'r Strategaeth Twf Cynaliadwy yn yr adran **Trosolwg o Strategaeth a Ffafrir y CDLlN.**

## Opsiynau Twf

5.9. Un o brif swyddogaethau’r CDLl Newydd yw sicrhau bod digon o dir ar gael ym Mro Morgannwg i fodloni'r gofynion o ran tai a chyflogaeth yn y dyfodol, dros oes y cynllun. Mae'r gofynion hyn yn dibynnu ar nifer y bobl, felly mae lefel y boblogaeth y bydd yn rhaid darparu ar ei chyfer yn y dyfodol yn ystyriaeth allweddol yn y cynllun.

5.10. Wrth baratoi'r CDLlN, mae'n ofynnol i'r Cyngor ystyried ystod o senarios twf poblogaeth er mwyn cynorthwyo i nodi lefel y twf o ran tai a chyflogaeth a ddarperir dros gyfnod y cynllun. Gan hynny, comisiynwyd Edge Analytics gan y Cyngor i lunio papur technegol (**Tystiolaeth Ddemograffig Bro Morgannwg Chwefror 2023**) i ddarparu ystod o dystiolaeth ynghylch twf y boblogaeth, tai a chyflogaeth yn sail ar gyfer y CDLlN a oedd ar ddod. Mae’r adroddiad yn adeiladu ar amcanestyniadau aelwydydd a phoblogaeth Llywodraeth Cymru ochr yn ochr â senarios demograffig, a senarios yn seiliedig ar anheddau a chyflogaeth.

5.11. I ategu’r dystiolaeth ddemograffig, comisiynodd y Cyngor Astudiaeth Tir Cyflogaeth (ATC, Hydref 2022) i nodi'r gofynion o ran tir cyflogaeth yn y Fro. Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, roedd yr ATC yn ystyried amryw o senarios yn seiliedig ar dueddiadau i nodi'r angen dros oes y cynllun, ac yn nodi'r tir

cyflogaeth y byddai ei angen ar gyfer pob opsiwn. Argymhellai'r ATC y dylai'r Cyngor fabwysiadu darpariaeth tir cyflogaeth yn seiliedig ar ddefnydd yn y gorffennol, a olygai fod angen darparu 67.80ha o dir â chapasiti i gynnal 5,338 o swyddi dros gyfnod y cynllun.

5.12. Mae Tabl 1 yn crynhoi'r 12 opsiwn twf a ystyriwyd gan y Cyngor ac yn cynnwys y gofynion tai a thwf sy'n deillio o'r rhagdybiaethau ym mhob un. Rhoddir esboniad llawn o'r senarios a ystyriwyd ym Mhapur Cefndir Opsiynau Twf y Cyngor[i].

Tabl 1: Opsiynau Twf a ystyriwyd gan y Cyngor

| Senario | Newid 2021-2036 | | | | Cyfartaledd y flwyddyn | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Newid i'r boblogaeth** | **Newid i'r boblogaeth %** | **Newid i aelwydydd** | **Newid i aelwydydd %** | **Mudo net** | **Anheddau** | **Cyflogaeth** |
| 5M yn seiliedig ar anheddau | 19,048 | 13.9 | 10,062 | 16.9 | 1,360 | 698 | 493 |
| PG-5M | 16,923 | 12.4 | 9,187 | 15.4 | 1,222 | 637 | 426 |
| AdTC yn seiliedig ar gyflogaeth | 13,224 | 9.8 | 7,599 | 12.9 | 1,020 | 527 | 341 |
| LIC-2018-POBUCHEL | 13,127 | 9.7 | 7,500 | 12.7 | 938 | 520 | 292 |
| 10M yn seiliedig ar anheddau | 13,154 | 9.7 | 7,587 | 12.8 | 1,009 | 526 | 325 |
| AdTC yn seiliedig ar gyflogaeth (CR 1-1) | 10,719 | 7.9 | 6,548 | 11.1 | 869 | 454 | 341 |
| LIC-2018 | 9,787 | 7.3 | 6,214 | 10.6 | 851 | 431 | 243 |
| PG-Tymor Hir | 8,561 | 6.3 | 5,705 | 9.6 | 739 | 396 | 210 |
| PG-10M | 8,519 | 6.3 | 5,695 | 9.6 | 741 | 395 | 197 |
| LIC-2018-POBISEL | 5,172 | 3.8 | 4,559 | 7.8 | 759 | 316 | 191 |
| OE yn seiliedig ar gyflogaeth | 2,402 | 1.8 | 3,041 | 5.2 | 367 | 211 | 25 |
| LIC-2014 | 13 | 0.0 | 2,182 | 3.9 | 64 | 151 | -126 |

5.13. Er mwyn ymgysylltu â rhanddeiliaid, cafodd yr opsiynau eu rhannu i gategorïau twf uchel, canolig ac isel.

- **Twf uchel**: 550 i 700 o anheddau y flwyddyn a 400 i 500 o swyddi newydd y flwyddyn, (senarios PG-5M a 5M yn seiliedig ar anheddau).
- **Twf canolig**: 400 i 550 o anheddau y flwyddyn a 240 i 350 o swyddi newydd y flwyddyn (LIC-2018, AdTC yn seiliedig ar Gyflogaeth (CR 1-1), 10M yn seiliedig

ar Anheddau, LIC-2018-POBUCHEL, a senarios AdTC yn seiliedig ar gyflogaeth).

- **Twf isel**: 150 i 400 o anheddau'r flwyddyn, a gostyngiad o 125 o swyddi i gynnydd o 210 o swyddi'r flwyddyn (LIC-2014, OE yn seiliedig ar Gyflogaeth, LIC-2018-POBISEL, senarios PG-10M, PG-Tymor hir)

5.14. Fel yr eglurir yn y ***Papur Cefndir Opsiynau Twf****,* cafwyd cefnogaeth tuag at lefel ganolig o dwf wrth ymgysylltu â rhanddeiliaid, ac ystyrir hyn yn briodol am y rhesymau canlynol:

- Byddai nifer y swyddi sy'n gysylltiedig â'r cynnydd yn y boblogaeth yn cyd-fynd ag argymhellion yr ATC ynghylch nifer y swyddi y byddai eu hangen, gan leihau'r angen i gymudo.
- Ym mhob opsiwn, byddai'r boblogaeth 65+ oed yn cynyddu, ond byddai'r lefel hon o dwf hefyd yn sefydlogi'r poblogaethau oed gwaith ac oed ysgol dros gyfnod y cynllun, yn wahanol i'r opsiwn twf poblogaeth isel, lle byddai gostyngiad cyffredinol yn y grwpiau oedran hyn. Byddai poblogaeth oed gwaith ac oed ysgol sefydlog yn cefnogi twf economaidd ac yn helpu i sicrhau cymunedau cytbwys sy'n ffynnu, lle mae gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol fel ysgolion yn parhau i fod yn hyfyw.
- Ar gyfer y lefel hon o dwf byddai angen dyrannu lefel gymedrol o anheddau newydd, a fydd yn cynyddu cyfleoedd i sicrhau tai fforddiadwy drwy gytundebau Adran 106, a darparu dyraniadau ychwanegol sy'n seiliedig ar dai fforddiadwy. Bydd hyn o gymorth i fynd i'r afael â'r angen sylweddol am dai fforddiadwy a nodwyd ar draws y Fro. O dan yr opsiynau twf isel, ni fyddai angen dyrannu unrhyw safleoedd tai newydd ychwanegol gan fod digon o dir o fewn y cyflenwad presennol i fodloni'r gofynion tai. Byddai cyfleoedd i ddarparu tai fforddiadwy felly'n brin.
- Byddai lefel ganolig o dwf yn cyd-fynd â'r dyheadau ar gyfer Bro Morgannwg o fewn ardal dwf genedlaethol Cymru'r Dyfodol, a nodir fel ffocws ar gyfer twf economaidd a thai strategol. Dylai lefel y twf yn y cynllun fod yn ddigon uchelgeisiol i gefnogi hyn, gan ategu'r twf yng Nghaerdydd - a nodir yn Dyfodol Cymru fel prif anheddiad y rhanbarth - heb gystadlu â'r twf hwnnw, Ystyrir na fyddai twf isel, sef peidio dyrannu unrhyw safleoedd newydd ar gyfer tai na chyflogaeth, yn gyson â'r hyn y mae'r ardal dwf genedlaethol yn ceisio'i gyflawni. I'r gwrthwyneb, gallai lefel o dwf y tu hwnt i'r hyn a gyflawnwyd yn realistig yn y gorffennol, fel sy'n ofynnol yn y senarios twf uchel, greu goblygiadau o ran lefel y twf y gallai ALlau eraill ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd ei chynnwys.
- Ystyrir bod digon o gapasiti yn y Fro i gynnwys lefel ganolig o dwf y gellir ei ddarparu mewn lleoliadau cynaliadwy ac mewn modd sy'n amddiffyn ardaloedd mwyaf gwerthfawr yr amgylchedd naturiol ac adeiledig i raddau priodol.

5.15. Er mwyn ymateb i Amcanion y CDLIN, yn enwedig darparu ‘Cartrefi i Bawb’ ac ‘Adeiladu Economi Ffyniannus a Gwyrdd,’ ystyrir y byddai’r sylfaen dystiolaeth yn cefnogi twf tuag at ben uchaf yr ystod ‘ganolig’ gan y byddai hyn yn cynyddu'r potensial i ddarparu tai fforddiadwy hyd yr eithaf, ac yn creu'r gyfatebiaeth orau rhwng y cynnydd i'r boblogaeth oed gwaith a'r gofynion cyflogaeth.

5.16. Yr opsiwn Twf a Ffafrir yw'r **Senario 10 mlynedd yn seiliedig ar anheddau,** sy'n seiliedig ar y gyfradd adeiladu flynyddol gyfartalog yn 10 mlynedd cyntaf y cynllun mabwysiedig (526 o anheddau'r flwyddyn neu 7,890 dros oes y cynllun). Gan fod yr opsiwn hwn yn adlewyrchu’r hyn a gyflawnwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ystyrir ei fod yn realistig ac yn gyflawnadwy ac yn ddigon uchelgeisiol, ac ystyried safle’r Fro o fewn yr ardal dwf genedlaethol.

.

## 6. Y STRATEGAETH A FFAFRIR

6.1. Mae strategaeth y CDLN yn nodi ardaloedd eang lle ceir datblygiadau newydd er mwyn cyflawni'r Weledigaeth a'r Amcanion a nodwyd yn gynharach yn y Cynllun. Lluniwyd y strategaeth gan roi ystyriaeth lawn i'r canlynol:

- Y cyd-destun lleol, rhanbarthol a chenedlaethol o ran polisi.
- Y materion cymdeithaso, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol allweddol sy'n berthnasol i Fro Morgannwg.
- Adroddiad Adolygu'r CDLl mabwysiedig.
- Y materion a nodwyd yn Adroddiadau Monitro Blynyddol y CDLl mabwysiedig.
- Amrywiaeth o senarios twf poblogaeth, aelwydydd, anheddau a chyflogaeth.
- Asesiad diweddaraf o’r Farchnad Dai Leol.
- Yr Adolygiad Arfarnu Aneddiadau.
- Adroddiad Cwmpasu'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ac asesiad o'r Opsiynau Amgen.
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid a'u cynnwys yn y Weledigaeth, y Materion a'r Amcanion, Opsiynau'r Strategaeth Ofodol ac Opsiynau Twf; a
- Thrafodaethau rhanbarthol ar lefel y twf yng nghyd-destun Cymru’r Dyfodol.

6.2. Mae'r deg amcan strategol a nodir yn Adran 4 wedi cael cryn ddylanwad ar ddatblygiad y strategaeth, sy'n ceisio taro cydbwysedd rhwng yr angen am dwf (Amcan 3 - Cartrefi i Bawb, Amcan 9 - Adeiladu Economi Ffyniannus a Gwyrdd) a'r angen i warchod amgylchedd naturiol ac adeiledig unigryw Bro Morgannwg (Amcan 5 - Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Naturiol, Amcan 6 - Coleddu Diwylliant a Threftadaeth).

6.3. Yn unol â datganiad y Cyngor ynghylch Argyfwng Hinsawdd, mae rôl cynllunio wrth liniaru ac ymaddasu i'r newid hinsawdd (Amcan 1) yn rhan annatod o'r CDLl Newydd. Lle bynnag y bo modd, mae’r strategaeth yn ceisio ffafrio ailddefnyddio tir a ddatblygwyd o’r blaen, yn osgoi ardaloedd lle ceir perygl llifogydd ac yn hyrwyddo ystod a dewis o safleoedd tai a chyflogaeth newydd mewn lleoliadau cynaliadwy â mynediad da at gyflogaeth, trafnidiaeth gyhoeddus, cyfleusterau cymunedol a siopau (Amcan 8 - Hyrwyddo Dewisiadau Teithio Egnïol a Chynaliadwy).

6.4. Mae creu lleoedd, drwy greu lleoedd gweithredol, diogel a hygyrch sy’n cynnwys amrywiaeth o ddefnyddiau, wrth galon y strategaeth (Amcan 4 – Creu Lleoedd). Bydd hyn hefyd yn helpu i sicrhau bod y cynllun yn creu cymunedau a fydd yn gwella llesiant (Amcan 2 - Gwella Iechyd a Llesiant Meddyliol a Chorfforol). Bydd adfywio ac arallgyfeirio canol trefi yn unol ag egwyddorion canol trefi yn gyntaf yn rhan annatod o greu cymunedau bywiog (Amcan 7 - Meithrin Cymunedau Amrywiol, Bywiog a Chysylltiedig).

6.5. Yn ogystal â hyn, mae'r strategaeth yn cydnabod y manteision economaidd posibl a all ddeillio o hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy briodol (Amcan 10 – Hyrwyddo Twristiaeth Gynaliadwy).

6.6. Mae Strategaeth Twf Cynaliadwy y CDLlN yn cynnwys chwe elfen allweddol, fel a ganlyn:

1. Darparu lefel gynaliadwy o dwf tai a chyflogaeth a gefnogir gan seilwaith priodol i gyd-fynd â safle’r Fro o fewn Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.
2. Cydleoli tai, cyflogaeth, gwasanaethau a chyfleusterau newydd i leihau'r angen i deithio.
3. Llywio datblygiadau'n bennaf at leoliadau a wasanaethir y dda gan orsafoedd rheilffordd presennol ac arfaethedig y rhan o Fetro De Cymru, ac mewn ardaloedd â chysylltiadau bws da.
4. Caniatáu datblygiadau graddfa fach yn seiliedig ar dai fforddiadwy mewn aneddiadau y tu allan i'r Ardal Twf Strategol, ar raddfa sy'n gymesur â maint yr anheddiad.
5. Cefnogi rôl maes awyr Caerdydd fel porth strategol ar gyfer cysylltiadau rhyngwladol.
6. Caniatáu cyfleoedd adfywio, gan gynnwys yn Aberddawan a Dociau'r Barri.

**1. Darparu lefel gynaliadwy o dwf tai a chyflogaeth i gyd-fynd â safle’r Fro o fewn Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.**

6.7. I fodloni'r dyheadau sydd wedi'u cynnwys o fewn y Weledigaeth drosfwaol, mae'n ofynnol sicrhau lefel gynaliadwy o dwf, felly bydd y CDLlN yn darparu ar gyfer y canlynol:

- **8,679 o anheddau** i ddarparu gofyniad tai o 7,890 annedd dros gyfnod y cynllun neu 526 y flwyddyn (gan gynnwys 10% ychwanegol ar gyfer hyblygrwydd).
- Dyraniad o **168 Ha o dir cyflogaeth** ar draws ystod o safleoedd fel bo modd dod â 67.8 Ha ymlaen a darparu hyd at 5,338 o swyddi.

6.8. Mae lefel arfaethedig y twf yn seiliedig ar nifer y datblygiadau cyfartalog a gwblheir dros ddeng mlynedd cyntaf y cynllun mabwysiedig (526 o anheddau y flwyddyn). Mae hyn yn adlewyrchu amserlen briodol, sy'n cynnwys cyfnod lle bo nifer fach o ddatblygiadau'n cael eu cwblhau yn dilyn y dirwasgiad economaidd, a'r blynyddoedd ffyniannus mwy diweddar ar ôl mabwysiadu'r CDLl a darparu safleoedd wedi'u dyrannu. Dangoswyd bod y lefel hon o dwf yn gyflawnadwy ac fe’i hystyrir yn ddigon uchelgeisiol i adlewyrchu safle’r Fro yn ardal dwf genedlaethol Cymru’r Dyfodol a mynd i’r afael â’r angen dybryd am dai

fforddiadwy, gan fod yn gyflawnadwy ar yr un pryd o fewn cyfyngiadau'r amgylchedd naturiol ac adeiledig.

6.9. Bydd y lefel hon o dwf yn ceisio sicrhau cydbwysedd yn y boblogaeth drwy gryfhau'r poblogaethau oed gwaith ac oed ysgol i wrthbwyso'r boblogaeth sy'n heneiddio. Cyflawnir hyn drwy ddarparu ystod o gyfleoedd tai a chyflogaeth i annog preswylwyr presennol i fyw a gweithio yn y Fro (gan leihau allfudo ac allgymudo) yn ogystal ag annog preswylwyr newydd i fewnfudo, ar yr amod bod hynny ar raddfa sy'n cyd-fynd ag awdurdod cyfagos Caerdydd a Phrifddinas-Ranbarth ehangach Caerdydd, yn hytrach na'i bod yn cystadlu â'r rheiny.

6.10. Cydbwysir graddfa'r ddarpariaeth cyflogaeth â lefel y twf yn y boblogaeth er mwyn ceisio lleihau cymudo.

**2. Cydleoli tai, cyflogaeth, gwasanaethau a chyfleusterau newydd i leihau'r angen i deithio.**

6.11. Un o flaenoriaethau allweddol Llwybr Newydd – Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yw dod â gwasanaethau at bobl er mwyn lleihau'r angen iddynt ddefnyddio eu ceir. Bydd y strategaeth ofodol yn ceisio lleoli datblygiadau newydd mawr mewn mannau â gwasanaethau a chyfleusterau da, yn unol â chanfyddiadau'r Adolygiad Arfarnu Aneddiadau.

6.12. Mae'n rhaid i lefel y twf a gynigir yn yr aneddiadau fod yn gynaliadwy ac yn y lleoliadau cywir, gan roi sylw i rôl a swyddogaeth aneddiadau, yr Adolygiad Arfarnu Aneddiadau a chapasiti aneddiadau neilltuol i gynnwys twf pellach.

6.13. Mae gan y Fro amryw o barciau busnes a stadau diwydiannol sefydledig yn y Fro sy'n cynnig ystod o gyfleoedd cyflogaeth. Mae'r busnesau yn Ardal Fenter Maes Awyr Caerdydd a Bro Tathan yn darparu ystod o swyddi o ansawdd uchel, a rhagwelir y bydd cyfleoedd datblygu pellach yn cael eu darparu yn yr Ardal Fenter. Bydd datblygiadau tai newydd felly'n cael eu targedu at Sain Tathan a'r Rhws, fel cyfleoedd datblygu allweddol, er mwyn manteisio ar eu hagosrwydd at yr Ardal Fenter.

6.14. Er y bydd y cynllun yn ceisio alinio defnydd tir lle bo'n briodol, efallai na fydd hi'n briodol cydleoli gwahanol ddefnyddiau ym mhob ardal, a bydd yn rhaid i gynigion roi sylw i'r cyd-destun lleol. Ceir rhai safleoedd cyflogaeth o fewn y Fro mewn lleoliadau nad ydynt wedi'u gwasanaethu'n dda gan drafnidiaeth gynaliadwy, felly ni fyddai'r cynllun yn ceisio hyrwyddo datblygiadau tai newydd na mathau eraill o ddatblygiad graddfa fawr yn y lleoliadau hyn. I'r gwrthwyneb, mae'n bosibl na fydd rhai mathau o gyflogaeth yn briodol mewn ardaloedd preswyl o safbwynt amwynder. Fodd bynnag, lle bo'n briodol, yr egwyddor gyffredinol yw y dylai'r strategaeth ofodol geisio sicrhau bod tai newydd yn cael eu lleoli mewn mannau lle ceir mynediad da at swyddi.

6.15. Mae canol trefi yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd cyflogaeth ac, yn unol â’r egwyddor canol trefi yn gyntaf sydd wedi’i hymgorffori mewn polisi cynllunio cenedlaethol, dylid hyrwyddo datblygiadau newydd, gan gynnwys datblygiadau tai graddfa fach a datblygiadau defnydd cymysg, yng nghanol trefi. Bydd agosrwydd canol trefi hefyd yn ystyriaeth wrth ddyrannu safleoedd tai priodol o faint mwy, gyda safleoedd o fewn pellter cerdded a beicio i ganolfannau yn cael eu ffafrio, gan y bydd hyn yn lleihau'r angen i deithio.

6.16. Lle bo angen gwella'r seilwaith presennol er mwyn helpu i gynnwys datblygiadau newydd, defnyddir y broses rhwymedigaethau Adran 106 i sicrhau bod seilwaith, cyfleusterau a gwasanaethau'n cael eu sicrhau ar lefel briodol ar sail graddfa, math a lleoliad y datblygiad arfaethedig.

**3. Llywio datblygiadau'n bennaf at leoliadau a wasanaethir y dda gan orsafoedd rheilffordd presennol ac arfaethedig y rhan o Fetro De Cymru, ac mewn ardaloedd â chysylltiadau bws da.**

6.17. Er bod lleihau'r angen i deithio yn amcan polisi allweddol, cydnabyddir y bydd angen defnyddio dulliau teithio eraill i gwblhau rhai teithiau, yn enwedig oherwydd y berthynas gref â Chaerdydd fel cyrchfan ar gyfer cyflogaeth, manwerthu ac adloniant. Yn unol â'r hierarchaeth trafnidiaeth, mae strategaeth ofodol y CDLlN yn ceisio lleoli datblygiadau mewn mannau a wasanaethir yn dda gan drafnidiaeth gynaliadwy.

6.18. Mae rheilffordd Bro Morgannwg yn croesi rhan ddeheuol y Fro, gan gysylltu Caerdydd a Phen-y-bont ar Ogwr ag aneddiadau Penarth a Chogan, Dinas Powys, y Barri, y Rhws a Llanilltud Fawr. Ar hyn o bryd ceir pedwar gwasanaeth yr awr rhwng y Barri a Chaerdydd Canolog a gwasanaeth bob awr rhwng y Barri a Phen-y-bont ar Ogwr, er bod disgwyl i amlder y gwasanaeth hwn gynyddu erbyn 2025. Mae llinellau cangen hefyd i Benarth ac Ynys y Barri. Mae targedu datblygiadau newydd i’r aneddiadau a wasanaethir gan y rhwydwaith rheilffyrdd yn rhan allweddol o’r strategaeth, gan y bydd yn hwyluso teithiau drwy ddulliau heblaw'r car.

6.19. Er mwyn helpu i lywio’r broses o ddewis safleoedd, mae Trafnidiaeth Cymru wedi cynhyrchu mapiau isocron amseroedd teithio, sy’n nodi pellteroedd cerdded a beicio bob 5 munud hyd at 20 munud oddi wrth bob un o'r gorsafoedd rheilffordd presennol yn y Fro.

6.20. Cwblhawyd astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer gorsaf newydd yn Sain Tathan yn 2022, a nododd bedwar lleoliad posibl ar gyfer gorsaf newydd i'r de o Sain Tathan. Mae’r orsaf arfaethedig yn cael ei hystyried ar hyn o bryd drwy broses achos busnes Canllawiau Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG). Os bydd yn llwyddiannus, bydd yr orsaf yn gwasanaethu anheddiad preswyl Sain Tathan a’r ardal ehangach, gan gynnwys Ardal Fenter Bro Tathan a Pharc Ynni Gwyrdd arfaethedig Aberddawan.

6.21. Fel y nodwyd yn yr Adolygiad Arfarnu Aneddiadau, mae tref y Bont-faen hefyd yn lleoliad cynaliadwy gyda stryd fawr lewyrchus sy'n cynnwys archfarchnad ac amrywiaeth o siopau, gwasanaethau a chyfleusterau eraill sy'n darparu ar gyfer anghenion bob dydd, gan leihau'r angen i deithio. Mae ganddi hefyd ysgolion cynradd ac uwchradd, canolfan hamdden a chyfleusterau iechyd. Er nad yw'r dref ar linell reilffordd, ceir cysylltiadau bws da rhyngddi ag aneddiadau eraill yn y Fro, yn ogystal â Chaerdydd a Phen-y-bont ar Ogwr.

**4. Caniatáu datblygiadau graddfa fach yn seiliedig ar dai fforddiadwy mewn aneddiadau y tu allan i'r Ardal Twf Strategol, ar raddfa sy'n gymesur â maint yr anheddiad.**

6.22. Mae Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (LHMA) 2021 yn nodi bod angen 1,205 o gartrefi fforddiadwy y flwyddyn dros y 5 mlynedd nesaf ac mae canfyddiadau cychwynnol y diweddariad drafft LHMA (2023) yn nodi bod angen 1,121 o dai fforddiadwy y flwyddyn am y 5 mlynedd nesaf, a 204 o dai fforddiadwy y flwyddyn am y 10 mlynedd ganlynol. Mae ôl-groniad o angen wedi'i nodi ar draws holl is-ardaloedd y Farchnad ym Mro Morgannwg ac mae'r broblem yn ddifrifol mewn llawer o gymunedau lle cyfyngir ar gyfleoedd i ddatblygu.

6.23. Bydd darparu tai fforddiadwy o fewn prif aneddiadau a mân aneddiadau gwledig, fel y'u diffinnir yn yr hierarchaeth aneddiadau, yn cynnig cyfleoedd i bobl iau a phobl oed gwaith, y mae'n bosib y byddent fel arall yn gorfod symud i ran arall o'r Fro neu i ardal ehangach er mwyn canfod tŷ, i aros o fewn eu cymunedau eu hunain. Bydd hyn yn helpu i gynnal strwythur demograffig cytbwys o fewn yr aneddiadau gwledig llai ac o gymorth i gynnal gwasanaethau a chyfleusterau lleol, gan gynnwys ysgolion.

6.24. Rhan allweddol o'r strategaeth felly fydd caniatáu datblygiadau seiliedig ar dai fforddiadwy o fewn y prif aneddiadau a'r mân aneddiadau gwledig hynny y tu allan i'r Ardal Twf Strategol, ar raddfa sy'n cyd-fynd â maint y gymuned y mae'n ei gwasanaethu, gyda nifer yr anheddau'n ddibynnol ar y cyd-destun lleol. Cynllun 'seiliedig ar dai fforddiadwy' yw cynllun lle byddai angen i isafswm o 50% o'r anheddau fod yn fforddiadwy, er y gallai hyn gynyddu i uchafswm o 100% os yw'r safle'n cael ei gynnig gan ddarparydd tai fforddiadwy.

**5. Cefnogi rôl maes awyr Caerdydd fel porth strategol ar gyfer cysylltiadau rhyngwladol.**

6.25. Mae Cymru'r Dyfodol yn cydnabod bod Maes Awyr Caerdydd "yn rhan hanfodol o seilwaith trafnidiaeth strategol Cymru. Mae'n borth rhyngwladol sy'n cysylltu Cymru â'r byd ac yn sbardun pwysig i economi Cymru." Mae strategaeth y CDLIN felly'n cydnabod pwysigrwydd Maes Awyr Caerdydd o safbwynt economaidd a thrafnidiaeth.

6.26. Mae’r maes awyr o fewn Ardal Fenter Maes Awyr Caerdydd a Bro Tathan. Mae’r Ardal Fenter wedi’i rhannu’n ddau safle – Ardal Ddatblygu Maes Awyr a Phorth Caerdydd, sydd yn union wrth ymyl y maes awyr, a safle Bro Tathan yn Sain Tathan. Bwriedir i'r safleoedd blaenllaw hyn sydd wedi'u lleoli'n strategol ysgogi buddsoddiad mewnol a chyfnerthu rôl Bro Morgannwg ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd.

6.27. Mae Ardal Ddatblygu Maes Awyr a Phorth Caerdydd yn cynnwys dau safle ar wahân - Parc Busnes y Maes Awyr, i'r gogledd o Port Road, a'r safle cyflogaeth strategol i'r de o Port Road, a elwir yn Model Farm. Ar hyn o bryd mae’r safle gogleddol yn cynnwys Canolfan Ryngwladol ar gyfer Hyfforddiant Awyrofod (ICAT), sy’n rhan o Goleg Caerdydd a’r Fro, ac mae cynlluniau i ehangu'r Ganolfan ymhellach. Yn ôl yr Astudiaeth Tir Cyflogaeth, mae 61.05 Ha o dir ar gael o hyd ar draws rhannau gogleddol a deheuol y rhan hon o'r Ardal Fenter. Mae apêl am ddiffyg penderfyniad wedi'i gyflwyno i Benderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW) ar gyfer cais cynllunio amlinellol ar gyfer Parc Busnes B1, B2, B8 ar safle'r de (Model Farm). Rhoddir ystyriaeth i ganlyniad yr apêl hon wrth benderfynu ar statws y safle hwn o fewn y CDLlN ar Adnau.

6.28. Mae Bro Tathan wedi derbyn buddsoddiad sylweddol hyd yma, gan gynnwys cwblhad diweddar Heol Fynediad y Gogledd, sy'n cynnig mynediad uniongyrchol i'r Ardal Fenter, gan wella cysylltedd. Mae'r safle hefyd yn elwa ar redfa 1,800m gwbl weithredol a gynhelir gan sifiliaid. Mae nifer o fusnesau adnabyddus, gan gynnwys Aston Martin Lagonda ac eCube Solutions wedi'u lleoli ar y safle. Erys ystod o gyfleoedd datblygu ar safle Bro Tathan ar gyfer cymysgedd o ddefnyddiau gan gynnwys B1, B2 a B8, yn ogystal â chyfle am westy. Yn ôl yr Astudiaeth Tir Cyflogaeth ceir 51.3 Ha o dir datblygadwy net sy'n debygol yn realistig o fod ar gael o fewn cyfnod y cynllun.

6.29. Bydd y CDLlN yn diogelu tir o fewn yr Ardal Fenter lle bo’n briodol er mwyn cynorthwyo i gefnogi rôl Maes Awyr Caerdydd.

6.30. Cydnabyddir bod tensiwn rhwng amcan newid hinsawdd y CDLlN a’r bwriad i gefnogi Maes Awyr Caerdydd, ac ystyried bod allyriadau awyrennau yn cyfrannu’n sylweddol at newid hinsawdd yn fyd-eang. Cydnabyddir yr her hon yn Llwybr Newydd – Strategaeth Trafnidiaeth Cymru. Fodd bynnag, mae’r ffaith bod maes awyr lleol ar gael yn rhoi cyfle i deithwyr sy’n byw yng Nghymru gael hedfan o safle sy'n nes at adref, gan leihau teithiau a allai fod wedi cael eu gwneud y tu allan i Gymru. Mae LlC yn gweithio gyda Llywodraeth y DU a menter Jet Zero, yn ogystal â Maes Awyr Caerdydd, i leihau effeithiau hedfan ar yr amgylchedd.

**6. Caniatáu cyfleoedd adfywio, gan gynnwys yng Ngorsaf Bŵer Aberddawan a Dociau'r Barri.**

6.31. Bydd y strategaeth yn cydnabod ac yn gwarchod tir yn hen Orsaf Bŵer Aberdâr, fel Parc Ynni Gwyrdd. Ar ôl dymchwel yr orsaf bŵer ac adfer y safle, cynigir y bydd y safle:

- Yn cefnogi cynhyrchu prosiectau ynni adnewyddadwy a gwyrdd.
- Yn darparu cyfleuster storio batri i gefnogi'r prosiectau ynni gwyrdd.
- Yn cynhyrchu clwstwr gweithgynhyrchu di-garbon a fydd yn cynnwys cyfleusterau cynhyrchu hydrogen gwyrdd.
- Yn darparu canolfan arloesi ynni gwyrdd i hyrwyddo arloesi, twf, gwybodaeth a chyfleoedd i'r gymuned ryngweithio â dyfodol di-garbon Cymru.
- Yn gyfrifol am ddatblygu a chynnal parc ecoleg bio-amrywiol a fydd yn cynnwys canolfan ymwelwyr, gan ddarparu cyfleusterau i'r gymuned leol.
- Creu'r amodau cywir i gefnogi datgarboneiddio diwydiannol a chyfleusterau giga-waith y dyfodol.

6.32. Mae Aberddawan yn cynnig cyfle unigryw i greu swyddi hyfedr, gan wneud cyfraniad sylweddol ar yr un pryd at liniaru'r newid hinsawdd, yn unol ag amcanion y Cynllun. Cefnogir y cyfle adfywio pwysig hwn drwy fframwaith polisi’r CDLlN, wedi'i lywio gan yr Uwchgynllun sy'n cael ei baratoi ar hyn o bryd.

<u>Dociau'r Barri</u>

6.33. Roedd y strategaeth ar gyfer y CDLl mabwysiedig yn canolbwyntio ar adfywio hen Ddoc Rhif 1, a elwir yn Lannau'r Barri, fel safle strategol defnydd cymysg. Mae'r rhan fwyaf o'r datblygiad preswyl bellach wedi'i gwblhau, a gweddill yr unedau ar Gei'r Dwyrain yn cael eu hadeiladu ar hyn o bryd.

6.34. Ceir cynlluniau i barhau i adfywio'r Glannau yn y dyfodol, gan gynnwys cynnig i greu marina 400 docfa gyda phontynau arnofiol, ynghyd â swyddfa marina, bwyty, gweithdai hybu ac unedau preswyl yn y Mole.

6.35. Yn ogystal â'r cynigion ar gyfer y Mole a'r Marina, mae Cymdeithas Porthladdoedd Prydain wedi nodi cyfleoedd ailddatblygu i'r dyfodol ar dir o fewn eu perchnogaeth. Mae hyn yn cynnwys:


- Uwchraddio Loc y Fonesig Windsor, a gosod gatiau loc newydd i fodloni anghenion yr holl longau sy'n defnyddio'r Doc.
- Ailddatblygu Ardal Dwf Creigiau Duon, at ddefnyddiau fel y gadwyn gyflenwi batris, uwchweithgynhyrchu, prosesu mwynau prin o'r ddaear, a gweithgynhyrchu biodanwydd y genhedlaeth nesaf.
- Hyb Twf Glân y Porthladd a fydd yn canolbwyntio ar weithgynhyrchu di-garbon.

## Ardal Twf Strategol

6.36. Mae'r Strategaeth yn ceisio hyrwyddo datblygiad yn yr Ardal Twf Strategol, ardal sy'n cynnwys y prif ganolfannau poblogaeth a'r aneddiadau trefol a wasanaethir gan ystod o gyfleusterau a gwasanaethau, ac sy'n hygyrch drwy amrywiaeth o ddulliau teithio. O fewn yr Ardal Twf Strategol, mae'r Barri yn anheddiad allweddol, ac aneddiadau canolfan wasanaeth Llanilltud Fawr, Penarth a'r Bont-faen yn cynnig cyfleoedd am dwf cynaliadwy. Mae prif aneddiadau Sili, Dinas Powys, Llandochau (Penarth), y Rhws a Sain Tathan hefyd wedi'u cynnwys o fewn yr Ardal Twf Strategol, gan fod y rhain yn lleoliadau cynaliadwy lle gellir alinio datblygiad preswyl newydd â defnyddiau eraill a lle ceir opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy eisoes neu arfaethedig, i leihau'r ange i deithio yn y car.

## Diagram Allweddol

6.37. Mae'r diagram allweddol yn dangos Strategaeth y CDLlN ac yn dangos maint ardal Cyngor Bro Morgannwg ac ardal y CDLlN. Mae'r diagram allweddol hefyd yn dangos yr Ardal Twf Strategol, llwybrau trafnidiaeth strategol, lleoliadau allweddol i'w datblygu yn y dyfodol, hierarchaeth aneddiadau'r cynllun a'r rhyngberthnasau ag awdurdodau lleol cyfagos.




**Ffigur 12: Diagram Allweddol**

## POLISÏAU STRATEGOL

6.38. Mae'r adran hon yn nodi'r polisïau strategol trosfwaol sy'n ymdrin â'r themâu allweddol a nodwyd ac sydd hefyd yn cyfrannu at gyflawni'r weledigaeth a'r amcanion. Mae'r polisïau wedi'u trefnu i bedair thema Polisi Cynllunio Cymru:

- Dewisiadau Strategol a Gofodol
- Lleoedd Actif a Chymdeithasol
- Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus
- Lleoedd Nodweddiadol a Naturiol

## DEWISIADAU STRATEGOL A GOFODOL

## STRATEGAETH TWF A FFAFRIR

6.39. Mae Polisi SP1 yn pennu lefel y twf a'i ddosbarthiad gofodol yn unol â Strategaeth Twf Cynaliadwy'r CDLlN.

**SP1: STRATEGAETH TWF**

Bydd CDLlN Bro Morgannwg yn gwneud darpariaeth ar gyfer y canlynol yn y cyfnod 2021-2036:

**Tai**

Darparu 7,890 o anheddau erbyn 2036, gan gynnwys isafswm o 2,000 o gartrefi fforddiadwy. Bydd prif ffocws twf tai a chyflogaeth yn y Fro o fewn yr Ardal Twf Strategol fel y'i nodir yn y Diagram Allweddol, a bydd wedi'i lywio'n bennaf at y lleoliadau canlynol a wasanaethir eisoes gan lwybrau trafnidiaeth gyhoeddus ac yn cynnig cyfle i wella cysylltedd trafnidiaeth gynaliadwy:

A. Y Barri
B. Penarth
C. Llanilltud Fawr
D. Y Bont-faen
E. Dinas Powys
F. Y Rhws
G. Sain Tathan

Mewn ardaloedd gwledig, caniateir twf ychwanegol o fewn ffiniau aneddiadau presennol ac ar gynlluniau seiliedig ar dai fforddiadwy mewn lleoliadau cynaliadwy.

**Cyflogaeth**

Safleoedd cyflogaeth i ddarparu'r gofyniad tir cyflogaeth a nodwyd o 67.8ha a darparu hyd at 5,388 o swyddi. Bydd datblygiad cyflogaeth newydd yn canolbwyntio ar Safleoedd Cyflogaeth Mawr a Phwysig Lleol ac Ardaloedd Cyfleoedd Adfywio Cyflogaeth.

**Seilwaith**
Darparu'r seilwaith cysylltiedig sydd ei angen i gefnogi'r twf.

## HIERARCHAETH ANEDDIADAU

6.40. Er mwyn sicrhau bod datblygiadau newydd yn digwydd mewn lleoliadau sydd â'r mynediad gorau at ystod eang o wasanaethau, cyfleusterau, a chyfleoedd cyflogaeth, gan leihau'r angen i deithio, dosberthir twf ar sail yr hierarchaeth aneddiadau canlynol. Defnyddiwyd asesiad o faint y boblogaeth, cysylltedd yr anheddiad, ac argaeledd cyflogaeth a gwasanaethau a chyfleusterau eraill, fel y manylir yn Adolygiad Arfarnu Aneddiadau'r Cyngor, yn sail i bennu safle pob anheddiad o fewn yr hierarchaeth.

**SP2: HIERARCHAETH ANEDDIADAU**
Bydd dosbarthiad eang datblygiad o fewn yr Ardal Twf Strategol wedi'i siapio gan yr hierarchaeth aneddiadau, gan adlewyrchu rôl a swyddogaeth llefydd, a chyfeirio twf at leoliadau a fydd yn cynnig y cyfleoedd mwyaf i ddarparu tai i fodloni'r angen am dai fforddiadwy, seilwaith cymunedol a darpariaeth well o ran trafnidiaeth gynaliadwy.

**Hierarchaeth Aneddiadau'r Ardal Twf Strategol:**

**Anheddiad Allweddol: Y Barri**.
Bydd y Barri yn parhau i fod yn ganolbwynt i ddatblygu ym Mro Morgannwg yn y dyfodol. Fel y dref fwyaf yn y Fro, bydd twf yn y dyfodol yn cefnogi ei rôl fel prif dref weinyddol sy'n darparu cysylltiadau trafnidiaeth da, gwasanaethau, cyflogaeth a chyfleusterau manwerthu a hamdden i'w phreswylwyr a'r ardal ehangach.

**Aneddiadau Canolfan Wasanaeth: Y Bont-faen, Llanilltud Fawr, Penarth.**
Mae'r aneddiadau pwysig hyn yn cynnig amrywiaeth o gyfleusterau sydd hefyd yn gwasanaethu ardal ehangach. Bydd twf yn cefnogi'r rôl hon a lle bydd lefel y datblygiad yn diwallu anghenion lleol yr ardal.

**Prif Aneddiadau: Y Rhws, Sain Tathan, Sili, Llandochau, Dinas Powys**
Bydd datblygiadau o fewn yr aneddiadau hyn yn adlewyrchu eu rôl gyflenwol mewn perthynas â'r Aneddiadau Allweddol a Chanolfan Wasanaeth, cysylltedd trafnidiaeth ac ardaloedd cyflogaeth.

**Ardaloedd y tu allan i'r Ardal Twf Strategol**

**Prif Aneddiadau:** Gwenfô, Y Wig, Croes Cwrlwys
**Mân Aneddiadau Gwledig:** Ewenni, Corntwn, Saint-y-brid, Tregolwyn, Sain Nicolas, Tresimwn, Fferm Goch, Llanbedr-y-fro, Llandw, Ystradowen, Llanfaes, Pendeulwyn, Aberthin, Llancarfan, Llyswyrni, Graig Penllyn, Aberogwr, Singingstone, Dwyrain Aberddawan, Penllyn, Treoes.

Bydd cymeriad yr aneddiadau, gan gynnwys eu perthynas â'r ardal o gefn gwlad o'u hamgylch a'u gosodiad yn yr ardal honno, yn cael ei warchod a'i wella lle bo modd. Bydd datblygiad yn y Prif Aneddiadau sydd y tu hwnt i ffiniau'r ardal twf strategol, yn ogystal â'r Mân Aneddiadau Gwledig a nodwyd wedi'u cyfyngu i ddefnydd effeithlon a chynaliadwy o adeiladau presennol, cyfleoedd mewnlenwi, cynlluniau tai graddfa fach seiliedig ar dai fforddiadwy, a datblygiadau'n gysylltiedig â mentrau gwledig / amaethyddiaeth.

I ddibenion y polisi hwn, diffinnir datblygiadau graddfa fach seiliedig ar dai fforddiadwy fel datblygiadau sy'n darparu isafswm o 50% o dai fforddiadwy ar safleoedd sy'n cynnwys hyd at 25 o anheddau mewn mân aneddiadau gwledig, neu hyd at 50 o anheddau mewn prif aneddiadau. Disgwylir i fath, graddfa a chymysgedd y tai fforddiadwy adlewyrchu'r dystiolaeth ddiweddaraf, a chynnwys tai arbenigol i bobl hŷn. Ni chymeradwyir cynigion nad ydynt yn bodloni'r isafswm o 50% o dai fforddiadwy.

Ceir ffiniau anheddiad o amgylch yr aneddiadau a nodir yn y hierarchaeth aneddiadau. 'Cefn gwlad' sydd y tu hwnt i'r ffiniau anheddiad diffiniedig hyn, onid yw'r tir hwnnw wedi'i nodi'n benodol i ddibenion eraill yn y cynllun.

6.41. Mae strategaeth twf gofodol y Fro yn darparu'r fframwaith ar gyfer darparu twf a fydd yn cefnogi ac yn adlewyrchu rolau a swyddogaethau amrywiol ei threfi a'i phentrefi ac anghenion cymunedau, wedi'i gysylltu gan ddewisiadau trafnidiaeth gynaliadwy. Er mwyn cyflawni Creu Lleoedd, mae angen i dwf hefyd barchu graddfa a swyddogaeth lleoedd, diogelu ansawdd yr amgylchedd a gwella cymeriad lleol.

6.42. Mae Polisi SP2 yn nodi'r hierarchaeth aneddiadau ym Mro Morgannwg, gan adlewyrchu Ardal Twf Strategol y Cynllun. O fewn yr Ardal Dwf,mae'r Strategaeth yn cyfeirio twf i'r Aneddiadau Allweddol, yr Aneddiadau Canolfan Wasanaeth a'r Prif Aneddiadau sydd wedi'u lleoli yn yr Ardal Twf Strategol. Yn ogystal â darparu cyfleoedd ar gyfer adfywio cynaliadwy a chefnogi darpariaeth gwasanaeth lleol, ac annog defnydd o ddulliau teithio cynaliadwy, dylai twf yn y dyfodol hefyd adlewyrchu eu rolau a'u nodweddion perthnasol, yn ogystal â'u cyfyngiadau ffisegol ac amgylcheddol perthnasol.

## Aneddiadau'r Ardal Twf Strategol

6.43. Bydd Anheddiad Allweddol y Barri yn parhau i fod yn ganolbwynt pwysig ar gyfer gweithgarwch cymdeithasol ac economaidd, ac mae wedi'i gydnabod yn y Strategaeth fel un o'r lleoliadau mwyaf cynaliadwy y dylid llywio cyfleoedd datblygu newydd mawr tuag ato. Gwelwyd twf mawr yn y Barri dros gyfnod y cynllun blaenorol, gan gynnwys drwy ailddatblygiad defnydd cymysg ar Lannau'r Barri, a nodwyd fel safle strategol o fewn y CDLl mabwysiedig hyd at 2026. Erys cyfleoedd datblygu ar gyfer cymysgedd o ddefnyddiau o fewn ardal ehangach Glannau'r Barri ar nifer o safleoedd llai, ond er mwyn bodloni'r angen sylweddol am dai fforddiadwy ac ymateb i safle'r Barri fel Anheddiad Allweddol, mae angen nodi tai ychwanegol yn y dref, wedi'u cefnogi gan ystod o ddefnyddiau cyflenwol eraill.

6.44. Mae aneddiadau Canolfan Wasanaeth y Bont-faen, Penarth a Llanilltud Fawr oll yn wahanol o ran eu cymeriad, ond mae eu rolau'n debyg. Er enghraifft, mae ganddynt oll boblogaethau preswyl sylweddol, darpariaeth dda o ran trafnidiaeth gyhoeddus, cyfleoedd cyflogaeth lleol, canol trefi sefydledig ac ystod eang o wasanaethau a chyfleusterau diwylliannol, addysgol a chymunedol. Mae aneddiadau Canolfan Wasanaeth yn gwasanaethu anghenion dyddiol eu preswylwyr ac yn gweithredu fel canolbwynt pwysig i'r rhai sy'n byw mewn aneddiadau llai cyfagos. Mae'r strategaeth felly'n rhagweld y bydd yr aneddiadau hyn hefyd yn gweithredu fel canolbwynt ar gyfer twf ym Mro Morgannwg dros gyfnod y Cynllun.

6.45. Diffinnir Dinas Powys, Llandochau (Penarth) a Sili fel Prif Aneddiadau ac maent yn cyflawni rôl sy'n ategu'r aneddiadau allweddol a chanolfan wasanaeth, drwy fodloni anghenion preswylwyr. Maent yn cynnwys amryw o wasanaethau a chyfleusterau allweddol, sy'n hollbwysig i'w rôl fel cymunedau cynaliadwy, ac yn cynnwys gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus da. Mae'r cyfleusterau hyn yn cynnwys ysgolion cynradd, siopau cyfleustra bach, mannau gwerthu bwyd a diod a chyfleoedd cyflogaeth.

6.46. Mae Sain Tathan a'r Rhws yn lleoliadau allweddol ar gyfer twf cyflogaeth o fewn yr Ardal Twf Strategol. Mae'r ddau anheddiad wedi'u nodi'n Brif Aneddiadau, gan adlewyrchu'r ystod o wasanaethau a chyfleusterau sydd ar gael. Byddai twf yn yr aneddiadau hyn yn y dyfodol yn cyd-fynd â'u rolau yn yr ardal dwf ranbarthol ehangach oherwydd eu hagosrwydd at Barthau Menter Bro Athan a Maes Awyr Caerdydd a'r Parc Ynni Gwyrdd arfaethedig yn Aberdâr, yn ogystal â chysylltiadau trafnidiaeth presennol, a chynigion ar gyfer cysylltiadau trafnidiaeth yn y dyfodol.

### Aneddiadau y tu allan i'r Ardaloedd Twf Strategol

6.47. Mae aneddiadau’r Wig, Gwenfô a Chroes Cwrlwys wedi’u nodi fel Prif Aneddiadau fel rhan o’r Adolygiad Arfarnu Aneddiadau gan fod maint yr aneddiadau a’r gwasanaethau a’r cyfleusterau sydd ar gael yn gymesur â Phrif Aneddiadau eraill ar raddfa debyg. Er hynny, o fwriad, nid yw'r aneddiadau hynny wedi cael eu cynnwys yn yr Ardal Twf Strategol oherwydd byddai twf ychwanegol sylweddol o fewn yr aneddiadau hyn yn groes i Strategaeth y CDLlN. Yn achos y Wig, mae hyn oherwydd lleoliad gwledig yr anheddiad, a phrinder cyfleoedd i deithio drwy ddulliau eraill heblaw'r car, ar gyfer cyflogaeth ac er mwyn cyrchu gwasanaethau a chyfleusterau.

6.48. Er nad yw Croes Cwrlwys na Gwenfô ar linellau rheilffordd ar hyn o bryd, mae ganddynt wasanaethau bws rheolaidd. Mae cymeriad Croes Cwrlwys wedi newid dros gyfnod y cynllun mabwysiedig, gydag ailddatblygiad hen stiwdios ITV yn rhoi rôl fwy preswyl i'r anheddiad, ochr yn ochr â'i safle fel canolfan fanwerthu ar gyrion y dref. Er bod ystod o ddefnyddiau A1, A3 a D2 yn agos, nid oes ganddo unrhyw gyfleusterau cymunedol gan gynnwys ysgolion a gwasanaethau gofal iechyd, felly

gallai datblygiadau preswyl pellach yn yr ardal hon gynyddu'r defnydd o geir. Ar ben hynny, mae'r papur Opsiynau Gofodol hefyd yn nodi y cyfyngir yn sylweddol ar gyfleoedd datblygu yng Nghroes Cwrlwys a Gwenfô gan bresenoldeb y tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas (BMV) ar gyrion y ddau anheddiad.

6.49. Mae Mân Aneddiadau Gwledig y Fro hefyd wedi'u nodi y tu allan i'r Ardal Twf Strategol. Mae'r mathau o wasanaethau a chyfleusterau a geir fel arfer yn yr aneddiadau llai hyn y cynnwys mannau addoli, neuaddau cymuned, defnyddiau manwerthu graddfa fach a chyfleusterau hamdden ffurfiol. Mae nifer o'r aneddiadau gwledig llai fel Tregolwyn, Sain Nicolas a Saint-y-brid yn cynnwys ysgolion cynradd sy'n gwasanaethu dalgylch ehangach, tra bo eraill hefyd yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth lleol, naill ai oddi mewn neu yng nghyffiniau aneddiadau. Oherwydd y cysylltiadau swyddogaethol hyn rhwng aneddiadau gwledig, mae'n hanfodol sicrhau bod gwasanaethau a chyfleusterau presennol yn cael eu diogelu, a galluogi cyfleoedd a fydd yn cefnogi neu'n gwella cyfleusterau.

6.50. Ar wahân i hyn, mae'n hanfodol i'r CDLl sicrhau bod twf yn taro cydbwysedd rhwng cefnogi anghenion cymunedau gwledig ac amcanion cynaliadwyedd ehangach y cynllun, yn enwedig ei gyfraniad tuag at ymateb i'r heriau a achosir gan y newid hinsawdd. Mae Polisi SP2 felly'n nodi'r aneddiadau hynny yr ystyrir bod ganddynt boblogaeth, gwasanaethau a chyfleusterau digonol i gynnwys twf graddfa fach, heb iddo niweidio eu cymeriad a'u hamgylchedd lleol presennol.

6.51. Yn gyson â pholisi cenedlaethol, o fewn yr aneddiadau hyn bydd tai'r farchnad gyffredinol wedi'u cyfyngu i gyfleoedd o fewn ffiniau anheddiad diffiniedig, gan gynnwys datblygiadau mewnlenwi a thrawsnewid adeiladau presennol. Mewn mannau eraill, bydd datblygiadau tai newydd ar gyrion y pentrefi hyn yn cael eu cyfyngu i dai 'eithriadau gwledig' lle bo tystiolaeth o angen swyddogaethol, ac i ddyraniadau graddfa fach sy'n seiliedig ar dai fforddiadwy (hyd at 25 o anheddau mewn aneddiadau gwledig llai a hyd at 50 o anheddau mewn prif aneddiadau y tu allan i'r ardal twf strategol), lle bydd angen darparu isafswm o 50% o dai fforddiadwy.

6.52. Bydd galluogi elfen o dai marchnad agored o fewn pentrefi gwledig yn cynnig cyfleoedd i ddarparu tai fforddiadwy a thai'r farchnad gan adlewyrchu dyheadau cymunedau gwledig i gynnal a darparu ar gyfer eu hanghenion tai, ac yn cefnogi hyfywedd a chyflawnadwyedd. Yn hyn o beth ni chaniateir cynigion na allant ddarparu isafswm o 50% o dai fforddiadwy.

6.53. Ac ystyried cymeriad amrywiol y pentrefi gwledig a nodir ym Mholisi SP2, wrth ystyried maint yr angen am dai fforddiadwy a gynigir, bydd y Cyngor yn ystyried addasrwydd y cynnig mewn perthynas â gwasanaethau a chyfleusterau presennol, argaeledd trafnidiaeth gyhoeddus ac effaith y cynnig ar gymeriad a gosodiad y pentref. Yn hyn o beth, dylai cynigion gael eu seilio ar egwyddorion Creu Lleoedd a nodir ym Mholisi SP5, yn hytrach nag ar ddymuniad i gynyddu nifer yr anheddau a nodir yn y polisi hyd yr eithaf.

6.54. Bydd ffiniau aneddiadau'n gallu cael eu llunio o amgylch pob un o'r trefi a'r pentrefi yn hierarchaeth aneddiadau'r CDLlN yn y cam Adneuo, a byddant wedi'u diffinio'n glir ar Fap y Cynigion. Mae ffiniau aneddiadau yn chwarae rhan bwysig wrth sicrhau datblygiad cynaliadwy drwy annog datblygiad o fewn yr aneddiadau cynaliadwy a nodir yn Hierarchaeth y CDLl. Maent hefyd o gymorth i ddiogelu'r ardal o gefn gwlad oddi amgylch rhag datblygiadau amhriodol, yn unol â pholisi cynllunio cenedlaethol, drwy amlinellu ehangder datblygiad adeiledig. Mae amlinellu ffiniau aneddiadau felly'n helpu i gefnogi ac atgyfnerthu'r gwaith o gyflawni amcanion a strategaeth y Cynllun ac yn darparu mecanwaith polisi allweddol ar gyfer rheoli twf ym Mro Morgannwg.

## TWF TAI

6.55. Nod strategaeth y CDLlN ar gyfer twf tai yw ceisio dod â digon o dai ymlaen i fodloni'r gofyniad tai a nodwyd yn yr opsiwn twf a ffafrir ar gyfer y cynllun dros gyfnod y cynllun, gan sicrhau y darperir cymysgedd briodol ar gyfer y farchnad anghenion cyffredinol a chartrefi fforddiadwy, a thai arbenigol i fodloni anghenion rhai sydd angen tai hygyrch neu wedi'u haddasu.

**SP3: GOFYNIAD TAI**

Er mwyn bodloni'r gofyniad tai a nodwyd o 7,890 o anheddau, gwneir darpariaeth ar gyfer darparu 8,679 o gartrefi dros Gyfnod y Cynllun, o 2021 i 2036. Cyflawnir hyn drwy ddarparu'r canlynol:

- 4,457 o anheddau o'r cyflenwad tir presennol
- 1,603 o anheddau o ddatblygiadau mawr a hapddatblygiadau bach
- 2,450 i 2,750 o anheddau ar safleoedd allweddol*
- Dyraniadau tai newydd ychwanegol gan gynnwys datblygiadau seiliedig ar dai fforddiadwy*

*Pennir nifer union yr unedau yng ngham y CDLlN wedi'i Adneuo.

6.56. Mae Polisi SP3 yn nodi gofyniad tai o 7,890 o anheddau (526 uned y flwyddyn) dros gyfnod y cynllun. Gan gynnwys gorswm o 10% er hyblygrwydd ac i sicrhau'r gallu i gyflawni, bydd y cynllun yn darparu ar gyfer 8,679 o anheddau. Bydd y ddarpariaeth hon o dai yn cael ei chyflawni o'r ffynonellau cydrannol a restrir yn Nhabl 2.

6.57. Er mwyn bodloni'r ffigur gofyniad tai hwn, mae'r Cyngor wedi ystyried cyfraniad y cyflenwad presennol o dir, hy, safleoedd sydd â chaniatâd cynllunio, gan gynnwys yr unedau hynny sy'n cael eu hadeiladu, a safleoedd CDLl mabwysiedig presennol yr ystyrir eu bod yn gyflawnadwy ac yn hyfyw, ac sy'n ategu strategaeth twf gofodol y CDLlN. Mae'r ffigur hwn hefyd yn cynnwys unedau sydd wedi eu cwblhau ar safleoedd mawr a bach dros y 2 flynedd gyntaf o gyfnod y cynllun, sy'n gyfwerth â 785 o anheddau. Gyda'i gilydd byddai'r ffynonellau hyn yn cyfrannu **4,457 o**

**anheddau** at fodloni'r gofyniad tai. Mae Atodiad 1 yn rhoi rhestr o'r holl safleoedd sydd â chaniatâd cynllunio ac Atodiad 2 yn nodi'r safleoedd sy'n gyflawnadwy yn y CDLl mabwysiedig y cynigir eu symud ymlaen.

6.58. Mae ffynhonnell bellach o dai yn deillio o hap-ddatblygiadau, sef safleoedd nad ydynt wedi'u dynodi'n benodol ar gyfer tai, ond a gaiff eu dwyn ymlaen yn unol â'r cynllun datblygu ac ystyriaethau cynllunio perthnasol eraill. Dengys dadansoddiad o'r cyflenwad tai dros y 10 mlynedd diwethaf fod hapsafleoedd bach (safleoedd sy'n cynnwys llai na 10 o anheddau) ar gyfartaledd wedi darparu tua 55 o anheddau wedi'u cwblhau bob blwyddyn, a bod hapsafleoedd mawr (10 annedd neu fwy) wedi cyfrannu cyfartaledd o 74 o anheddau'r flwyddyn. Ar ôl ystyried hapsafleoedd mawr presennol o fewn cyflenwad presennol o dir ar gyfer tai, a'r cyfraniad y mae'r ffynonellau hyn eisoes wedi'i wneud yn ystod dwy flynedd gyntaf y CDLlN, rhagamcennir y gallai hapsafleoedd gyfrannu **1,603 o anheddau** pellach dros weddill y cynllun.

6.59. Mae Tabl 2 isod yn dod â'r elfennau uchod ynghyd i nodi'r cyflenwad presennol o dai yn erbyn y gofyniad tai, ac yn pennu'r gofyniad tai i'w fodloni yn y dyfodol drwy ddyrannu safleoedd yn y CDLlN.  Gyda’i gilydd mae’r ffynonellau hyn yn cyfrannu 6,060 o anheddau tuag at ofyniad tai’r CDLlN o 8,679 o anheddau, gan adael gofyniad tai gweddilliol o **2,619** o anheddau i'w darparu drwy ddyraniadau ychwanegol o fewn y CDLlN.

| Tabl 2: Cyflenwad Tai a Gofyniad Tai | | | |
|---|---|---|---|
| | Cydran y Cyflenwad | Nifer yr Anheddau | Nodiadau |
| | **Darpariaeth Tai** | **8,679** | Gofyniad tai ar gyfer 2021-2036 (7,890 o anheddau + 789 (10%) i gynnwys elfen o hyblygrwydd) |
| **A** | Cwblhawyd yn 21/22 a 22/23 | 785 | Yn cynnwys 700 o anheddau ar safleoedd mawr ac 85 o anheddau ar safleoedd bach |
| **B** | Unedau sy'n cael eu hadeiladu 1 Ebrill 2023 | 513 | |
| **C** | Unedau o fewn caniatâd cynllunio | 1,449 | Yn cynnwys safleoedd sydd â chytundebau A106 yn yr arfaeth lle bo gobaith realistig i'r cytundeb gael ei lofnodi. |
| **D** | Safleoedd CDLl wedi'u dwyn ymlaen | 1,710 | Dim ond y rhai sy'n debygol yn realistig o gael eu datblygu - mae rhai yn destun ceisiadau cynllunio |
| | **Cyfanswm y Cyflenwad Presennol (A+B+C+D)** | **4,457** | |
| **E** | Caniatáu ar gyfer hapsafleoedd mawr (10 annedd neu fwy): | 888 (74 annedd y flwyddyn x 12 mlynedd) | Rhagwelir goddefiant o 74 o anheddau y flwyddyn drwy hapsafleoedd mawr dros gyfnod y cynllun. Er mwyn osgoi cyfrif hapsafleoedd mawr sydd eisoes o fewn y cyflenwad tir ddwywaith, mae'r goddefiant hwn wedi'i gymhwyso i 12 o'r blynyddoedd sy'n weddill yn y cynllun 2024-2026. |
| **DD** | Caniatáu ar gyfer Hapsafleoedd Bach (9 annedd neu lai): | 715 (55 annedd y flwyddyn x 13 mlynedd) | Mae goddefiant o 55 o anheddau y flwyddyn wedi'i gynnwys, sy'n seiliedig ar gyfartaledd yr anheddau a gwblhawyd ar safleoedd bach dros y 10 mlynedd diwethaf. Cymhwyswyd y goddefiant hwn i'r blynyddoedd sy'n weddill yn y cynllun 2023-2026. |
| | **Cyfanswm goddefiant hapsafleoedd** | **1,603** | |
| | Gofyniad Gweddilliol (Tir ychwanegol i'w ddyrannu ar safleoedd newydd) | **2,619** | Darpariaeth tai llai cyfanswm y cyflenwad presennol llai cyfanswm y goddefiant hap-safleoedd |

6.60. Ceir rhagor o fanylion am ddadansoddiad y Cyngor o gyflenwad tir Bro Morgannwg ym Mhapur Cefndir Cyflenwad Tir ar gyfer Tai y CDLlN.

## DARPARU TAI

6.61. Mae'r Polisïau Strategol SP1 ac SP3 yn nodi'r angen i ddarparu 7,890 o anheddau ychwanegol dros gyfnod y cynllun, ac mae'r cynllun yn cynnwys darpariaeth ychwanegol o 10% i gynnwys elfen o hyblygrwydd fel y gellir cyflawni'r gofyniad, sef cyfanswm o 8,769 o anheddau. Cyflawnir y ffigur hwn drwy'r cyflenwad presennol o dir y manylir arno yn Nhabl 2 plws dyraniad safleoedd allweddol fel y'u rhestrir ym Mholisi SP4 a safleoedd ychwanegol yn seiliedig ar dai fforddiadwy, a nodir yng ngham y Cynllun wedi'i Adneuo, ar ôl cwblhau gwaith asesu manwl pellach.

6.62. Mae Polisi Cynllunio yn pennu dilyniant chwilio er mwyn dyrannu tir, lle rhoddir ystyriaeth yn y lle cyntaf i safleoedd a datblygwyd o'r blaen (tir llwyd) a safleoedd wedi'u tanddefnyddio. Nid oes rhyw lawer o gyfleoedd i ddatblygu tir llwyd ym Mro Morgannwg, felly mae angen targedu datblygiad at y lleoliadau mwyaf cynaliadwy ar gyrion aneddiadau, lle gellir cael cysylltiadau da â thrafnidiaeth gyhoeddus, gwasanaethau a chyfleusterau drwy lwybrau teithio llesol. Bydd y CDLlN yn ceisio dyrannu'r safleoedd hynny sydd yn y lleoliadau mwyaf cynaliadwy ac sy'n gallu darparu datblygiad o ansawdd uchel yn unol ag egwyddorion creu lleoedd, ac sy'n ymateb yn gadarnhaol i'r argyfyngau natur a hinsawdd.

6.63. Dewiswyd y Safleoedd Allweddol a nodir ym Mholisi SP4 ar ôl cynnal proses asesu drwyadl aml-gam yn unol â'r Methodoleg Asesu Safleoedd Ymgeisiol. Drwy'r broses ystyriwyd addasrwydd safleoedd i'w datblygu gan roi sylw i arfarniad cychwynnol o gyfyngiadau ar safleoedd a'r gallu i'w cyflawni, ynghyd â'r graddau y maent yn cydymffurfio â'r Strategaeth a Ffafrir. Ar gam y Strategaeth a Ffafrir, dim ond safleoedd a ystyrir y allweddol er mwyn cyflawni'r strategaeth sydd wedi'u nodi. Mae'r safleoedd allweddol hyn wedi'u lleoli mewn aneddiadau yn haenau uchaf yr hierarchaeth aneddiadau o fewn yr ardal twf strategol, ac maent ar raddfa ddigonol i allu cyflawni'r egwyddorion creu lleoedd yn y ffordd orau gan gynnwys darparu cymysgedd o ddefnyddiau, seilwaith gwyrdd a gwelliannau teithio llesol. Mae'r holl safleoedd allweddol hefyd o fewn 20 munud ar droed neu ar feic i orsafoedd rheilffordd arfaethedig.

**SP4: SAFLEOEDD ALLWEDDOL YN SEILIEDIG AR DAI**

Er mwyn cyflawni twf strategol y cynllun a chyfrannu at fodloni'r gofyniad tai a nodwyd yn SP3, nodir tir ychwanegol ar gyfer datblygiad preswyl o fewn y lleoliadau allweddol a ganlyn:

| **Safleoedd Allweddol** |
| --- |

| Cyfeirnod Safle | Anheddiad | Enw'r Safle | Anheddau a gynigir dros gyfnod y cynllun |
|---|---|---|---|
| SP4 KS1 | Y Barri | Tir yng Ngogledd-ddwyrain y Barri | 900 |
| SP4 KS2 | Dinas Powys | I'r gogledd o Ddinas Powys, oddi ar Heol Caerdydd | 250 |
| SP4 KS3 | Y Rhws | Tir yn Readers Way | 450 |
| SP4 KS4 | Sain Tathan | Tir yn Church Farm, Sain Tathan | 250-550 |
| SP4 KS5 | Sain Tathan | Tir i'r Gorllewin o Sain Tathan | 600 |
| | | | **2,450 - 2,750** |

| **Safleoedd Banc Tir yr Ardal Twf Strategol - Safleoedd Tai Ymrwymedig ac a Ddygwyd Ymlaen** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfeirnod** | **Anheddiad** | **Enw'r Safle** | **Statws** | **Anheddau sy'n Weddill 1 Ebrill 2023** |
| SP4 L1 | Y Barri | Tir i'r Gorllewin o Pencoedtre Lane | Dyraniad a ddygwyd ymlaen o'r CDLl Mabwysiedig | 135 |
| SP4 L2 | Y Bont-faen | Tir yn ymyl Heol Sain Tathan | Cais cynllunio yn disgwyl penderfyniad | 105 |
| SP4 L3 | Y Bont-faen | Darren Farm | Yn cael ei adeiladu | 306 |
| SP4 L4 | Llanilltud Fawr | Hen Ysgol Eagleswell | Dyraniad a ddygwyd ymlaen o'r | 72 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | CDLl Mabwysiedig | |
| SP4 L5 | Llanilltud Fawr | Tir rhwng Ffordd Fynediad newydd y Gogledd a Heol Eglwys Brewis (dwyrain) | Dyraniad a ddygwyd ymlaen o'r CDLl Mabwysiedig | 185 |
| SP4 L6 | Llanilltud Fawr | Tir wrth ymyl Fferm Froglands | Caniatâd cynllunio (yn amodol ar a106) | 90 |
| SP4 L7 | Llanilltud Fawr | Tir rhwng Ffordd Fynediad y Gogledd a Heol Eglwys Brewis (gorllewin) | Caniatâd cynllunio (yn amodol ar a106) | 140 |
| SP4 L8 | Penarth | Tir ar Fferm Cosmeston Uchaf | Cais cynllunio yn disgwyl penderfyniad | 576 |
| SP4 L9 | Penarth | Tir i'r de o Allt Llandochau / Heol Penarth | Caniatâd cynllunio (yn amodol ar a106) | 133 |
| SP4 L10 | Y Rhws | Tir i'r gogledd o'r Rheilffordd, (Dwyrain) | Cais cynllunio yn disgwyl penderfyniad | 282 |
| SP4 L11 | Sain Tathan | Tir yn Burley Place | Dyraniad a ddygwyd ymlaen o'r CDLl Mabwysiedig | 80 |
| SP4 L12 | Sain Tathan | Tir i'r dwyrain o Eglwys Brewis | Yn cael ei adeiladu | 152 |
| SP4 L13 | Sili | Tir ar Swanbridge Road | Yn cael ei adeiladu | 333 |
| | | | **Cyfanswm** | **2,589** |

**Wrth gyflawni'r gofyniad tai, bydd yn ofynnol i bob datblygiad preswyl newydd gyfrannu at ddarparu cymysgedd briodol o dai'r farchnad, tai fforddiadwy a llety arbenigol a chefnogi'r newid tuag at fod yn ddi-garbon.**

6.64. Er mwyn cyflawni'r gofyniad tai hwn, mae Polisi SP4 yn nodi'r Dyraniadau Tai Allweddol a'r Dyraniadau Ardaloedd Twf Strategol a fydd yn cyfrannu at fodloni'r rhan fwyaf o'r gofyniad tai dros gyfnod y cynllun. Mae'r rhain yn cynnwys dyraniadau Safleoedd Allweddol newydd a Safleoedd Banc Tir Ardal Twf Strategol a Ymrwymwyd a Safleoedd a Ddygwyd Ymlaen (hy, safleoedd sydd â chaniatâd cynllunio a/neu safleoedd a ddyrannwyd eisoes sy'n debygol yn realistig o gael eu cyflawni dros gyfnod y CDLlN). Dim ond y safleoedd hynny sy'n gallu cynnwys 50 neu fwy o anheddau sydd wedi'u cynnwys yn y rhestr uchod gan mai'r rhain fydd yn gwneud y cyfraniad mwyaf sylweddol at gyflawni'r strategaeth. Yn ogystal â hyn, ceir safleoedd sy'n elwa ar ganiatâd cynllunio ond nad ydynt edi'u cynnwys yn y rhestr uchod am eu bod yn llai (yn cynnwys llai na 50 o anheddau), neu am eu bod wedi'u lleoli y tu allan i'r Ardal Twf Strategol. Ceir rhestr lawn o'r safleoedd â chaniatâd cynllunio yn Atodiad 1.

6.65. Rhoddir ystyriaeth bellach i'r Safleoedd Allweddol o ran gofynion tai, cyfleusterau cymunedol, trafnidiaeth gynaliadwy a seilwaith ar gyfer pob un o'r safleoedd ym mholisïau safle-benodol SP4 KS1 i SP4 KS5 ac yn Atodiad 3.

6.66. Ar gyfer safleoedd presennol a chanddynt ganiatâd cynllunio o fewn yr Ardal Twf Strategol, disgwylir y cyflawnir dyraniadau'n unol â'u caniatadau cyfredol. Bydd yn ofynnol i ddyraniadau tai presennol y CDLl gydymffurfio â holl bolisïau perthnasol eraill y CDLl presennol hyd nes y caiff y CDLlN ei fabwysiadu. Ar ôl hynny, bydd yn ofynnol i safleoedd gydymffurfio â pholisïau'r CDLlN gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â darparu tai fforddiadwy, teithio llesol, creu lleoedd a dylunio a darparu seilwaith gwyrdd.

## Dosbarthiad Gofodol Twf Tai

6.67. Mae'r tabl isod yn crynhoi dosbarthiad gofodol gwahanol gydrannau'r cyflenwad tir ar gyfer tai fel y bônt yn berthnasol i Hierarchaeth Aneddiadau'r CDLlN. Mae'r tabl yn nodi bod 785 o anheddau eisoes wedi'u hadeiladu ers dechrau cyfnod y cynllun ac y bydd y banc tir presennol ar gyfer tai yn cyfrannu at gyfran fawr o'r gofyniad tai a nodwyd. Mae dosbarthiad hap-safleoedd ar draws yr hierarchaeth aneddiadau a ddangosir yn y tabl yn cynrychioli tueddiadau hanesyddol, lle bo'r rhan fwyaf o ddatblygiadau ar hap-safleoedd yn deillio o safleoedd yn Y Barri a Chanolfannau Gwasanaeth y Bont-faen, Llanilltud Fawr a Phenarth, ac mae'r ddarpariaeth a ragamcennir yn adlewyrchu'r duedd hon. Ceir rhagor o fanylion am ddadansoddiad y Cyngor o dueddiadau hap-safleoedd ym Mhapur y CDLlN ar y Cyflenwad Tir ar gyfer Tai.

| Tabl 3: Dosbarthiad Gofodol y Cyflenwad Tai Presennol (Ebrill 2023) | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cydrannau'r Cyflenwad Tai** | | | **Hierarchaeth Aneddiadau** | | | | | |
| **A** | | **Cyfanswm** | **Anheddiad Allweddol Y Barri** | **Aneddiadau Canolfan Wasanaeth** | **Prif Aneddiadau yn yr Ardal Twf Strategol** | **Mân Aneddiadau Gwledig a Phrif Aneddiadau y tu allan i'r Ardal Twf Strategol** | **Pentrefannau ac Aneddiadau Gwledig Llai** |
| | Hap-safleoedd Bach | 85 | 33 | 23 | 22 | 5 | 2 |
| | (Hap-safleoedd) Mawr a Dyraniadau | 700 | 268 | 102 | 303 | 27 | 0 |
| **B** | Unedau'n cael eu Hadeiladu Ebrill 2023 | 513 | 261 | 99 | 145 | 8 | 0 |
| **C** | *Unedau â Chaniatâd Cynllunio Heb eu Dechrau (Ebrill 2023) | 1449 | 153 | 608 | 561 | 111 | 16 |
| **D** | Safleoedd y CDLl a ddygwyd ymlaen | 1710 | 135 | 938 | 637 | 0 | 0 |
| **E** | Dyraniadau Tai Allweddol | 2,450-2,750 | 900 | 0 | 1,550 – 1,850 | 0 | 0 |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **F** | Dyraniadau Tai Ychwanegol a Dyraniadau Seiliedig ar Dai Fforddiadwy | I'W GADARNHAU | I'W GADARNHAU | I'W GADARNHAU | I'W GADARNHAU | I'W GADARNHAU | I'W GADARNHAU |
| **G** | Hap-safleoedd mawr (10>) | 888 | 359 | 272 | 126 | 64 | 67 |
| **H** | Hap-safleoedd bach ( <10) | 715 | 290 | 218 | 102 | 51 | 54 |
| **I** | Cyfanswm y Ddarpariaeth Tai | | **2,399** | **2,260** | **3,446-3,746** | **266** | **139** |
| **Cyfanswm y** | | | **8,510 – 8,810** | | | | |

6.68. Mae dosbarthiad gofodol y cyflenwad tir ar gyfer tai yn Nhabl 4 yn dangos bod dosbarthiad gofodol tai newydd yn cael ei gyfeirio yn unol â'r strategaeth twf gofodol (SP1), yn benodol at yr aneddiadau yn y Fro sy'n cael eu gwasanaethu orau gan gysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus, ac sy'n cynnig ystod dda o wasanaethau a chyfleusterau. Mae'r Barri, fel anheddiad allweddol, yn cynnwys cyfran sylweddol o ddatblygiadau newydd sy'n gymesur â'i statws yn yr hierarchaeth a'i nodweddion fel anheddiad cynaliadwy a wasanaethir yn dda gan drafnidiaeth gynaliadwy. Mae'r aneddiadau canolfan wasanaeth hefyd yn cynnwys cyfran briodol. Er bod y gyfran fwyaf o ddatblygiadau wedi'u nodi o fewn y prif aneddiadau o fewn yr ardal twf strategol, dylid nodi bod pum anheddiad yn y categori hwn - Sain Tathan, Y Rhws, Dinas Powys, Llandochau a Sili. Mae'r rhain yn aneddiadau ac ynddynt gyfleoedd cyflogaeth da wrthlaw, yn ogystal â bod ganddynt gysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus da ac arfaethedig, gan alinio tai â chyflogaeth. Nodir mai ond cyfran fach o ddatblygiad sy'n debygol o ddigwydd y tu allan i'r ardal twf strategol, gyda pheth o'r datblygiad hwn yn gysylltiedig â cheisiadau cynllunio a ganiatáwyd yn uno â strategaeth fabwysiedig y CDLl.

6.69. Yn y tymor byr, bydd y ddarpariaeth tai'n fwy dibynnol ar gyflawni ymrwymiadau presennol ac ar ddyraniadau'r cynllun mabwysiedig a ddygir ymlaen i'r CDLlN. Fodd bynnag, wrth i gyfnod y cynllun fynd rhagddo, ceir cyfraniad mwy sylweddol o ddyraniadau newydd. Bydd taflwybr tai sy'n nodi'r unedau i'w darparu yn cael ei baratoi i gefnogi'r CDLl wedi'i Adneuo.

## Manylion safleoedd allweddol

6.70. Yn dilyn y broses asesu safleoedd ymgeisiol a gynhaliwyd yn sail ar gyfer y Strategaeth a Ffafrir, y safleoedd a nodir fel Safleoedd Allweddol yw'r rhai yr ystyrir eu bod yn cyd-fynd orau ag egwyddorion y Strategaeth a Ffafrir am eu bod wedi'u lleoli'n agos at gysylltiadau trafnidiaeth gynaliadwy, gwasanaethau a chyfleusterau, ac yn safleoedd a ystyrir yn hyfyw ac yn gyflawnadwy, gan roi sylw i gyfyngiadau. Er bod cynlluniau dangosol wedi'u darparu ar gyfer pob safle, bydd gwaith asesu manwl pellach yn cael ei gynnal wrth baratoi am y Cynllun wedi'i Adneuo, gan gynnwys Uwchgynlluniau a rhestr fanwl o ofynion datblygu. Mae'n bosibl y bydd capasiti cyffredinol safleoedd a'r targed tai fforddiadwy yn newid yng ngoleuni'r broses uwchgynllunio a gwaith manwl ar hyfywedd.


**SP4 KS1 GOGLEDD DDWYRAIN Y BARRI**

Mae tir yng Ngogledd Ddwyrain y Barri wedi’i ddyrannu ar gyfer datblygiad preswyl. Mae'n cynnwys datblygiad preswyl, cyfleusterau cymunedol gan gynnwys ysgol gynradd, defnyddiau masnachol, seilwaith gwyrdd a chyfleusterau hamdden, a llwybrau teithio llesol gwell. Bydd y safle'n gallu cynnwys hyd at 1,500 o anheddau, a byddai 900 o'r anheddau hynny'n cael eu darparu dros gyfnod y Cynllun.

Bydd yn ofynnol i'r datblygwr ddarparu'r canlynol:

- Isafswm o 30% o dai fforddiadwy, yn amodol ar ystyriaeth o hyfywedd.
- Mesurau ar y safle ac oddi arno i ddarparu cysylltiadau cerdded a beicio deniadol, eglur, diogel, hygyrch ac o ansawdd da at wasanaethau, cyfleusterau a nodau trafnidiaeth gyhoeddus lleol, gan gynnwys Gorsaf Tregatwg ac ar hyd yr A4231, Heol Gyswllt Dociau'r Barri
- Darparu canol pentref sy'n cynnwys cymysgedd briodol o ddefnyddiau i'w pennu drwy'r broses uwchgynllunio.
- Darparu cyfleusterau addysg ar-safle.
- Gwella seilwaith, gan gynnwys uwchraddio priffyrdd, a mynediad i gerddwyr ac ar feic o Gilbert Lane ac Argae Lane.
- Darparu a gwella seilwaith gwyrdd a mannau hamdden a chwaraeon priodol ynghyd â gwella bioamrywiaeth i sicrhau budd net bioamrywiaeth.
- Rhwymedigaethau cynllunio eraill fel bo'r angen yn unol â Pholisi SP12 i'w pennu drwy'r broses Uwchgynllunio.

**Ffigur 13: SP4 KS1 Tir yng Ngogledd-ddwyrain y Barri - cynllun eglurhaol cychwynnol**



**SP4 KS2 TIR I'R GOGLEDD O DDINAS POWYS, ODDI AR HEOL CAERDYDD**

Mae tir i'r Gogledd o Ddinas Powys wedi'i ddyrannu ar gyfer datblygiad preswyl cynhwysfawr sy'n cynnwys 250 o gartrefi dros gyfnod y Cynllun.

Bydd yn ofynnol i'r datblygwr ddarparu'r canlynol:

- Isafswm o 40% o dai fforddiadwy, yn amodol ar ystyriaeth o hyfywedd.
- Mesurau ar y safle ac oddi arno i ddarparu cysylltiadau deniadol, eglur, diogel, hygyrch ac o ansawdd da ar feic ac ar droed at wasanaethau a chyfleusterau leol, a nodau trafnidiaeth gyhoeddus, gan gynnwys Gorsaf Eastbrook.
- Gwella seilwaith, gan gynnwys uwchraddio priffyrdd a mynediad ar droed ac ar feic i Heol Caerdydd.
- Darparu a gwella seilwaith gwyrdd a mannau hamdden a chwaraeon priodol ynghyd â gwella bioamrywiaeth i sicrhau budd net bioamrywiaeth.
- Rhwymedigaethau cynllunio eraill fel bo'r angen yn unol â Pholisi SP12 i'w pennu drwy'r broses Uwchgynllunio.

**Ffigur 14: SP4 KS2 Tir i'r gogledd o Ddinas Powys, Oddi ar Heol Caerdydd, Dinas Powys - cynllun eglurhaol cychwynnol**




**SP4 KS3 READERS WAY, Y RHWS**

Mae tir ar Readers Way, Y Rhws, wedi'i ddyrannu ar gyfer datblygiad preswyl cynhwysfawr a fydd yn cynnwys 450 o gartrefi dros gyfnod y Cynllun. Bydd yn ofynnol i isafswm o 35% o'r holl gartrefi newydd fod yn fforddiadwy.

Bydd yn ofynnol i'r datblygwr ddarparu'r canlynol:

- Isafswm o 35% o dai fforddiadwy, yn amodol ar ystyriaeth o hyfywedd.
- Mesurau ar y safle ac oddi arno i ddarparu cysylltiadau deniadol, eglur, diogel, hygyrch ac o ansawdd da ar feic ac ar droed at wasanaethau a chyfleusterau lleol, a nodau trafnidiaeth gyhoeddus, gan gynnwys Gorsaf y Rhws.
- Darparu cymysgedd briodol o ddefnyddiau i'w pennu drwy'r broses Uwchgynllunio.
- Gwella seilwaith, gan gynnwys uwchraddio priffyrdd a mynediad ar droed ac ar feic i wasanaethu'r safle.
- Darparu a gwella seilwaith gwyrdd a mannau hamdden a chwaraeon priodol ynghyd â gwella bioamrywiaeth i sicrhau budd net bioamrywiaeth.
- Rhwymedigaethau cynllunio eraill fel bo'r angen yn unol â Pholisi SP12 i'w pennu drwy'r broses Uwchgynllunio.

**Ffigur 15: SP4 KS3 Tir yn Readers Way, Y Rhws - cynllun eglurhaol cychwynnol**




**SP4 KS4 CHURCH FARM, SAIN TATHAN**

Mae tir yn Church Farm, Sain Tathan wedi'i ddyrannu ar gyfer datblygiad preswyl cynhwysfawr a fydd yn cynnwys rhwng 250 a 550 o gartrefi dros gyfnod y Cynllun. Bydd yn ofynnol i isafswm o 35% o'r holl gartrefi newydd fod yn fforddiadwy.

Bydd yn ofynnol i'r datblygwr ddarparu'r canlynol:

- Isafswm o 35% o dai fforddiadwy, yn amodol ar ystyriaeth o hyfywedd.
- Mesurau ar y safle ac oddi arno i ddarparu cysylltiadau deniadol, eglur, diogel, hygyrch ac o ansawdd da ar feic ac ar droed at wasanaethau a chyfleusterau lleol, a nodau trafnidiaeth gyhoeddus.
- Darparu cymysgedd briodol o ddefnyddiau i'w pennu drwy'r broses Uwchgynllunio.
- Gwella seilwaith, gan gynnwys uwchraddio priffyrdd a mynediad ar droed ac ar feic i wasanaethu'r safle.
- Darparu a gwella seilwaith gwyrdd a mannau hamdden a chwaraeon priodol ynghyd â gwella bioamrywiaeth i sicrhau budd net bioamrywiaeth.
- Rhwymedigaethau cynllunio eraill fel bo'r angen yn unol â Pholisi SP12 i'w pennu drwy'r broses Uwchgynllunio. Gall hyn gynnwys cyfraniad at ddarparu gorsaf newydd yn Sain Tathan.

**Ffigur 16: SP4 KS4 Tir yn Church Farm, Sain Tathan - cynllun eglurhaol cychwynnol**




**SP4 KS5 TIR I'R GORLLEWIN O SAIN TATHAN**

Mae tir i’r gorllewin o Sain Tathan wedi'i ddyrannu ar gyfer datblygiad preswyl cynhwysfawr sy'n cynnwys 600 o gartrefi dros gyfnod y Cynllun. Bydd yn ofynnol i isafswm o 35% o'r holl gartrefi newydd fod yn fforddiadwy.

Bydd yn ofynnol i'r datblygwr ddarparu'r canlynol:

- Isafswm o 35% o dai fforddiadwy, yn amodol ar ystyriaeth o hyfywedd.
- Mesurau ar y safle ac oddi arno i ddarparu cysylltiadau deniadol, eglur, diogel, hygyrch ac o ansawdd da ar feic ac ar droed at wasanaethau a chyfleusterau lleol, a nodau trafnidiaeth gyhoeddus.
- Darparu cymysgedd briodol o ddefnyddiau i'w pennu drwy'r broses Uwchgynllunio.
- Gwella seilwaith, gan gynnwys uwchraddio priffyrdd a mynediad ar droed ac ar feic i wasanaethu'r safle.
- Darparu a gwella seilwaith gwyrdd a mannau hamdden a chwaraeon priodol ynghyd â gwella bioamrywiaeth i sicrhau budd net bioamrywiaeth.
- Rhwymedigaethau cynllunio eraill fel bo'r angen yn unol â Pholisi SP12 i'w pennu drwy'r broses Uwchgynllunio. Gall hyn gynnwys cyfraniad at ddarparu gorsaf newydd yn Sain Tathan.

**Ffigur 17: SP4 KS5 Tir i'r gorllewin o Sain Tathan - cynllun eglurhaol cychwynnol**



## LLEOEDD ACTIF A CHYMDEITHASOL

### CREU LLEOEDD

6.71. Mae creu lleoedd yn un o gonglfeini'r polisi cynllunio cenedlaethol yng Nghymru, a'r amcanion datblygu cynaliadwy sy'n sail iddo. Mae'n ddull amlochrog o gynllunio, dylunio a rheoli datblygiadau a mannau newydd, yn ogystal â diogelu a gwella asedau presennol. Yn sylfaenol, mae'n golygu ymateb i gyd-destun lle, drwy ddeall ei esblygiad, ei swyddogaeth a'i effeithiau.

**SP5: CREU LLEOEDD**

Bydd yn ofynnol i gynigion datblygu arddangos yr Egwyddorion Creu Lleoedd canlynol, a fydd yn ychwanegu gwerth cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol, gan arwain at fuddion gwell i'r ardal leol drwy:


A. Sicrhau dyluniad cynaliadwy o ansawdd uchel sy'n adlewyrchu nodweddion unigryw lleol, cymeriad a hunaniaeth ddiwylliannol;
B. Blaenoriaethu penderfynyddion iechyd a llesiant yn ystod y broses ddylunio;
C. Creu cymysgedd amrywiol o ddefnyddiau a gofodau aml-swyddogaeth;
D. Cyfrannu at dir cyhoeddus bywiog, diogel a chynhwysol sy'n annog teithio llesol ac yn lleihau dibyniaeth ar geir;
E. Integreiddio rhwydweithiau Seilwaith Gwyrdd a mannau agored yn strategol i ddatblygiadau, gan sicrhau buddion cymdeithasol ac amgylcheddol;
F. Darparu amrywiaeth o fathau o dai a deiliadaeth;
G. Lleoli datblygiad yn briodol lle bo cartrefi, gwasanaethau a chyfleusterau lleol yn hygyrch ac wedi'u cysylltu'n dda.
H. Datblygu dwyseddau uchel lle bo’n briodol, gan wneud y defnydd mwyaf effeithlon o dir a chefnogi defnyddiau cymysg;
I. Gwarchod a gwella'r Amgylchedd Hanesyddol.

Bydd Datganiadau Creu Lleoedd yn ofynnol ar gyfer pob datblygiad mawr sy’n nodi sut mae’r cynnig yn cydymffurfio ag Egwyddorion Creu Lleoedd.

6.72. Mae’r Cyngor wedi ymrwymo i Siarter Creu Lleoedd Cymru ac yn cydnabod bod Creu Lleoedd yn hanfodol i gyflawni Gweledigaeth y CDLlN. Pwrpas Polisi SP5 yw sicrhau bod pob datblygiad newydd yn cyflawni Creu Lleoedd drwy gymhwyso'r Egwyddorion Creu Lleoedd.

6.73. Diffinnir Creu Lleoedd gan Gomisiwn Dylunio Cymru (CDC) yn y Canllaw Creu Lleoedd (2020) fel “sicrhau bod pob datblygiad neu ymyriad newydd yn cyfrannu’n gadarnhaol at greu neu wella amgylcheddau y gall pobl, cymunedau, busnesau a

natur ffynnu ynddynt". Er mwyn asesu cynigion ar gyfer datblygiadau newydd mae angen mabwysiadu dull cyfannol sy'n ystyried lleoedd yn eu cyfanrwydd yn hytrach na defnyddiau tir unigol neu bob datblygiad yn unigol. Mae creu lleoedd yn ymwneud â'r amgylchedd adeiledig a naturiol ac yn cynnwys ystyriaethau ar lefel uchel, gan gynnwys y newid hinsawdd, hyd at ystyriaethau ar lefel leol fel yr effaith ar gymeriad a hunaniaeth ddiwylliannol leol, gan gynnwys yr effaith ar y Gymraeg.




**Ffigur 18: Egwyddorion Creu Lleoedd**
**Ffynhonnell: Comisiwn Dylunio Cymru**

6.74. Bydd gweithredu'r Egwyddorion Creu Lleoedd yn sicrhau cymaint â phosib o lesiant drwy ddatblygiad cynaliadwy sy'n hyrwyddo ffyrdd iach ac egnïol o fyw. Rhaid hefyd ystyried penderfynyddion iechyd a llesiant, fel y'u nodir o dan bolisi SP12 Iechyd a Llesiant, hefyd yn flaenoriaeth o'r cyfnod dylunio cynnar, a dangos hynny'n glir mewn cynigion datblygu. Bydd safonau dylunio uchel yn creu mannau deniadol â hunaniaeth leol unigryw a thir cyhoeddus bywiog sy'n hygyrch i bawb,

wedi'u ffocysu o amgylch canolfannau datblygiad defnydd cymysg sy'n gysylltiedig ac wedi'u gwasanaethu'n dda gan ddarpariaeth teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus.

6.75. Mae gan y Fro gyfoeth o gymeriad, treftadaeth a harddwch naturiol lleol y mae'n rhaid i ddatblygiadau newydd ei barchu a'i wella. Mae'n rhaid i gynigion datblygu arddangos dyluniadau ystyriol, sy'n gynaliadwy, yn effeithio cyn lleied â phosib ar yr amgylchedd ac sy'n ymateb yn weledol i'r hyn sydd o'u hamgylch. Yn ogystal â bod yn fywiog a deniadol, rhaid i'r tir cyhoeddus fod yn hygyrch ac yn gynhwysol i bawb. Dylai cynigion i wella tir cyhoeddus ystyried mesurau i helpu pobl â nam corfforol neu nam ar y synhwyrau.

6.76. Dylai datblygiadau newydd yn y Fro gyfrannu at leoedd ag amrywiaeth o ddefnyddiau, gwasanaethau a chyfleusterau, lle gall pobl fyw, gweithio a mwynhau. Rhaid i ddatblygiadau tai gynnig amrywiaeth o fathau o dai a deiliadaeth i ddarparu ar gyfer ystod o anghenion, a bod mewn lleoliadau cynaliadwy lle ceir mynediad i amrywiaeth o ddefnyddiau. Bydd cymysgedd o ddefnyddiau yn helpu i greu lleoedd sy'n ddeniadol ac yn gynaliadwy; yn cynnig cyfleoedd i bobl, busnes a'r amgylchedd ryngweithio â'i gilydd mewn modd cadarnhaol, ac yn lleihau'r angen i deithio. Bydd datblygu ar ddwysedd uchel yn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o'r tir, yn gwneud y gorau o'r potensial i ddatblygu, yn gwella cysylltedd ac yn annog dulliau teithio llesol.

6.77. Mae mannau aml-swyddogaeth yn cynnwys mannau agored cyhoeddus, strydoedd neu adeiladau defnydd cymysg sy’n cynnig mannau diogel a chroesawgar i bobl ryngweithio, cymdeithasu, gweithio, ymarfer corff neu ymlacio. Dylid integreiddio Seilwaith Gwyrdd i fannau cyhoeddus er mwyn gwella ansawdd gweledol, ychwanegu gwerth amwynder, annog gweithgarwch corfforol a rhyngweithio â natur yn ogystal â systemau draenio cynaliadwy a buddion ecolegol.

6.78. Bydd datblygiad yn cael ei ffafrio lle dangoswyd bod y gymuned wedi'i chynnwys mewn modd ystyrlon. Mae ymgysylltu â phobl, gan roi cyfle iddynt gyfrannu at gynigion datblygu, yn werthfawr er mwyn creu lleoedd, gan ei fod yn creu ymdeimlad o berchnogaeth ac o berthyn ymhlith cymunedau.

6.79. Mae'n rhaid cael Datganiad Creu Lleoedd i gyd-fynd â chynigion datblygu graddfa fawr i ddangos yn glir sut y bydd cynnig am ddatblygiad newydd yn bodloni gofynion creu lleoedd. Bydd Datganiadau Creu Lleoedd yn egluro’r agweddau ar y datblygiad a’r mesurau a gymerwyd i sicrhau bod y cynnig yn gyson â’r Egwyddorion Creu Lleoedd. Dylid cynnwys tystiolaeth i ddangos sut mae pob Egwyddor Creu Lle wedi’i bodloni.

## IECHYD A LLESIANT

6.80. Mae iechyd a llesiant ei cymunedau'n dyngedfennol bwysig er mwyn creu lleoedd a datblygiadau hirdymor a chynaliadwy. Mae hyn yn cynnwys llesiant corfforol, meddyliol a chymdeithasol. Yr hyn sy’n allweddol i’r Cynllun yw sicrhau mynediad at wasanaethau a chyfleusterau o ansawdd da, a bod pobl o bob oed a chefndir yn derbyn y mynediad sydd ei angen arnynt i fyw bywydau llawn, cynhyrchiol a ffyniannus.

6.81. Mae angen ystyried cynllunio ac iechyd gyda’i gilydd mewn dwy ffordd: o ran creu amgylcheddau sy’n cefnogi ac yn annog ffyrdd iach o fyw, ac o ran nodi a sicrhau’r cyfleusterau sydd eu hangen ar gyfer gofal sylfaenol, eilaidd a thrydyddol, a’r system iechyd a gofal ehangach.


**SP6 – CREU LLEOEDD A MANNAU IACH A CHYNHWYSOL**

Bydd pob datblygiad yn ceisio creu lleoedd iach a chynhwysol sy'n lleihau anghydraddoldebau iechyd ac yn gwella cydlyniant cymdeithasol. Cyflawnir hyn drwy:

A. Sicrhau bod cynigion datblygu yn cael eu dylunio mewn modd sy'n hyrwyddo amgylcheddau iach er mwyn mynd i'r afael â phenderfynyddion iechyd mewn modd cadarnhaol, yn enwedig mewn ymateb i anghenion iechyd lleol.
B. Sicrhau bod pob lle a datblygiad mor gynhwysol â phosibl, yn gallu ymaddasu i fodloni ystod eang o anghenion cyfnewidiol, ac yn darparu ansawdd bywyd da, lle na chaiff neb ei eithrio.
C. Galluogi cyfleoedd i gael mynediad at ddewisiadau bwyd iach
D. Cefnogi darparu cyfleusterau cymunedol a gofal iechyd newydd a gwell.
E. Diogelu iechyd a llesiant presennol y cyhoedd.

Bydd angen Asesiadau Effaith Iechyd ar gyfer Datblygiadau Mawr er mwyn rhoi ystyriaeth lawn i'w goblygiadau o ran iechyd.

6.82. Mae Polisi SP6 yn ceisio sicrhau bod cynigion datblygu yn hybu iechyd a llesiant. Er bod llawer o gymhlethdodau'n gysylltiedig â hyrwyddo iechyd a llesiant sydd y tu hwnt i gwmpas y system gynllunio, cydnabyddir bod ansawdd amgylchedd ein cynefin, a'r gweithgareddau sy'n digwydd o fewn y mannau hynny, yn cael cryn effaith arnynt. Ym mhenderfynyddion ehangach iechyd (Ffigur 19), gwelir y berthynas a'r ymadwaith rhwng yr amgylchedd adeiledig a llesiant corfforol a meddyliol.




**Ffigur 19: The Wider Determinants of Health. Ffynhonnell: Dahlgren and Whitehead (1991) R: Barton and Grant (2006)**

6.83. Er mwyn sicrhau bod datblygiadau newydd yn ymateb yn briodol i anghenion iechyd a llesiant, ac yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, dilynir ymagwedd iechyd ym mhob polisi. Drwy hynny, ystyrir y goblygiadau iechyd yn gysylltiedig â phob polisi newydd drwy geisio osgoi canlyniadau iechyd negyddol a gwella'r canlyniadau hynny lle bo modd. Mae hyn yn ymwreiddio iechyd a llesiant fel mater polisi allweddol drwy'r holl bolisïau perthnasol o fewn y cynllun, ac wedi'i danategu gan Bolisi SP6.

6.84. Mannau a Gofodau Iach yw'r rhai sy'n ymgorffori safon uchel o ran dyluniad sy'n ymateb i anghenion iechyd a llesiant pob defnyddiwr a'r egwyddorion creu lleoedd; yn hwyluso lefelau uchel o hygyrchedd amlfoddol ar gyfer pob taith i wasanaethau a chyfleusterau angenrheidiol; darparu seilwaith teithio llesol a mannau agored o ansawdd, gan gynnwys cyfleusterau chwaraeon; darparu seilwaith a mannau gwyrdd i gymdeithasu, gan gynnwys mannau i dyfu bwyd; a llety mewn tai priodol o ansawdd uchel. Bydd sicrhau'r rhain yn gwarantu y rhoddir sylw cadarnhaol i benderfynyddion iechyd yr effeithir arnynt gan agweddau cynllunio.

6.85. Lleoedd cynhwysol yw’r rhai sy’n cynnig mynediad a chyfle cyfartal, gan alluog pawb i gymryd rhan yn llawn mewn cymdeithas ac i bobl aros yn eu cartrefi a'u cymunedau wrth i'w hanghenion newid. Gall addasiadau cymharol fach gael cryn effaith ar allu pobl i fwynhau eu hardal leol, fel cynnwys goleuadau priodol i leihau'r ofn rhag trosedd, darparu mannau i bobl orffwyso a chymdeithasu. Drwy ddylunio'n ofalus gellir sicrhau bod lleoedd y groesawgar i bob cenhedlaeth, gan gael gwared â rhwystrau sy'n atal pobl rhag bodloni eu hanghenion neu fwynhau bywydau heini. Yn hyn o beth, ceir elfennau sylweddol sy'n gorgyffwrdd rhwng iechyd a llesiant a chreu lleoedd, fel y nodir ym Mholisi SP5.

6.86. Cysylltir argaeledd bwyd iach, fforddiadwy lleol ag agweddau gwell at fwyta'n iach ac ymddygiad iachach wrth brynu bwyd, yn ogystal â newid ymddygiad yn gysylltiedig â diet, fel bwyta rhagor o ffrwythau a llysiau.Mae darparu ardaloedd i dyfu bwyd o fewn datblygiadau newydd yn cynnig cyfle i unigolion a chymunedau gael mynediad at ffrwythau a llysiau ffres, gan gyfrannu at ffyrdd iach o fyw ac annog gweithgarwch corfforol.

Yn ogystal â hynny, gall garddio a thyfu bwyd hefyd gyfrannu at lesiant meddyliol ac at gynhwysiant cymdeithasol, a darparu buddion economaidd, amgylcheddol ac addysgiadol. Yn dibynnu ar y cynnig, gallai cynnwys ardaloedd i dyfu bwyd gyfrannu at y gofyniad i ddarparu mannau agored ar y safle. Darparu rhandiroedd yw'r ffordd fwyaf cyffredin o ddarparu cyfleoedd anffurfiol i gynhyrchu bwyd yn lleol. Fodd bynnag os yw'r cyfleoedd yn brin i ddarparu mannau tyfu bwyd dynodedig yn yr awyr agored, dylid chwilio am atebion creadigol. Gallai mesurau o'r fath gynnwys plannu coed ffrwythau, darparu cynwysyddion a gwelyau uchel o fewn cynlluniau tirlunio, creu mannau tyfu mewn gerddi cymunedol, iardiau mewnol a gerddi to, neu drwy ddefnyddio mannau atodol. Mewn datblygiadau mwy gallai hyn hefyd gynnwys ardaloedd o dir sy'n anaddas i adeiladu arnynt.

6.87. Ceir anghydraddoldebau iechyd ar draws Bro Morgannwg, rhwng gwahanol ardaloedd a hefyd rhwng gwahanol grwpiau o'r boblogaeth. Drwy gydymffurfio â Pholisi SP6 sicrheir y bydd yr anghydraddoldebau iechyd hyn yn derbyn sylw lle bo modd. Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru[6], a chyhoeddiadau gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ymhlith y setiau data sy'n nodi anghydraddoldebau. Dylid defnyddio'r rhain yn sail ar gyfer Asesiadau Effaith Iechyd (AEIau)

6.88. Bydd AEIau yn ystyried sut y bydd datblygiad yn effeithi ar y boblogaeth, gan asesu'r effeithiau cadarnhaol a negyddol ar iechyd. Ystyriaeth allweddol ynddynt yw sicrhau na fydd datblygiadau arfaethedig yn cynyddu anghydraddoldebau iechyd. Dylai pob datblygiad sy'n is na'r trothwy ar gyfer cynnal AEI fod wedi'i ddylunio i gael cymaint o effaith ag sy'n bosibl er mwyn hyrwyddo cymunedau iach a lleihau anghydraddoldebau iechyd. Bryd hynny, lle nodir anghydraddoldebau, dylid esbonio sut y bydd datblygiad arfaethedig yn cyflawni hyn mewn datganiad cynllunio.

6.89. Bydd AEIau yn ofynnol wrth asesu datblygiadau mawr (10 neu fwy o anheddau ac ati) er mwyn ystyried eu goblygiadau o ran iechyd. Mae'r Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru wedi llunio Canllawiau ar gwblhau AEIau[7]. Bydd canllawiau pellach ar y gofynion ar gyfer AEIau wedi'u cynnwys mewn Canllawiau Cynllunio Atodol.

[6] Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru | LLYW.CYMRU
[7]Canllawiau AEIau Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru: HIA_Tool_Kit_V2_WEB-1.pdf (phwwhocc.co.uk).

6.90. Ffactor pwysig sy'n cyfrannu at ddiet gwael ac iechyd gwael yw dosbarthiad a mynediad at Ddefnyddiau Bwyd a Diod, fel siopau cludfwyd poeth, caffis a bwytai gyda gwasanaeth cludfwyd. Mae hyn yn arbennig o berthnasol mewn ardaloedd o amddifadedd. Mewn rhai lleoliadau, ceir problem lle bydd defnyddiau o'r fath mewn clwstwr gyda'i gilydd, gan ei gwneud hi'n haws cael mynediad at fwydydd nad ydynt yn iach. Rhoddir ystyriaeth felly i reoli amlder defnyddiau o'r fath, ac felly'r mynediad atynt, yng nghanolfannau manwerthu presennol y Fro.

6.91. Rôl arall y CDLlN fydd cefnogi darparu cyfleusterau gofal iechyd, ac er nad yw Cyngor Bro Morgannwg yn darparu cyfleusterau gofal iechyd yn uniongyrchol, mae gan y Cyngor rôl alluogi allweddol. Drwy weithio mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, gellir cael dealltwriaeth o gapasiti gwasanaethau, newid mewn darpariaeth gwasanaeth a'r angen am gyfleusterau ychwanegol. Gall y CDLlN hyrwyddo hynny a chanfod cyfleoedd am ddarpariaeth newydd a gwell.

6.92. Mewn ymgynghoriad â darparwyr gofal iechyd lleol sy'n darparu cyfleusterau seilwaith iechyd yn y Fro, dylai datblygwyr datblygiadau tai mawr (neu lle ceir effeithiau cronnus yn sgil nifer o ddatblygiadau llai), ystyried a oes angen darparu cyfleusterau gofal iechyd priodol. Dylid ystyried yr angen am gyfleusterau gofal iechyd, neu seilwaith arall sy'n hybu iechyd fel lonydd beicio ar wahân neu gyfleusterau hamdden, yn unol â gofynion datblygiadau newydd. Mae hyn yn arbennig o angenrheidiol ar gyfer safleoedd mawr a allai gael eu cyflwyno fesul cam, lle gallai'r gofynion sy'n cael eu creu gan ddatblygiad newid.

6.93. Mae'n hanfodol hefyd fod cynigion datblygu'n diogelu iechyd a llesiant y cyhoedd, gan gynnwys y risgiau posibl sy'n deillio o'r newid hinsawdd. Er mwyn cyflawni hyn, mae'n rhaid i gynigion datblygu ddangos na fyddant yn achosi effaith annerbyniol ar bobl nac amwynder preswyl, gan gynnwys mathau amrywiol o lygredd.

## TRAFNIDIAETH GYNALIADWY

6.94. Mae Bro Morgannwg yn elwa ar gysylltiadau trafnidiaeth da ar reilffordd a'r ffordd sy'n rhoi mynediad uniongyrchol i rwydwaith strategol. Fodd bynnag, ceir tagfeydd ar y rhwydwaith yn ystod oriau brig sy'n achosi oedi. Mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen i wella gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus a seilwaith cerdded a beicio i annog pobl i deithio drwy ddulliau llesol (cerdded a beiciau) yn arbennig ar deithiau byrrach oddi mewn i drefi a phentrefi'r Fro a rhyngddynt.

6.95. Rhan allweddol o'n strategaeth yw lleoli datblygiad mewn ardaloedd sy'n gynaliadwy, neu y gellir eu gwneud yn gynaliadwy, drwy annog cymysgedd o ddefnyddiau o fewn datblygiad, gan gyfyngu ar yr angen i deithio, lle bynnag y bo

modd, a chynnig dewis gwirioneddol a rhoi'r flaenoriaeth i gerdded, beicio a thrafnidiaeth teithwyr. Drwy leihau'r ddibyniaeth ar y defnydd o geir preifat, bydd patrymau defnydd tir o'r fath hefyd o gymorth i liniaru bygythiad y Newid Hinsawdd sy'n cynyddu o hyd, drwy leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr.

**SP7: TRAFNIDIAETH GYNALIADWY**

To help address the RLDP Vision and Objectives, the Plan encourages a modal shift towards sustainable forms of transport and increasing active travel opportunities. New development must support an enhanced transport network that increases the proportion of journeys being undertaken by sustainable travel modes.

Cyflawnir hyn drwy:

A.

i. Leoli datblygiadau newydd yn briodol mewn lleoliadau cynaliadwy a hygyrch, lle bo ystod o wasanaethau a chyfleusterau o fewn pellter cerdded a beicio.

ii Sicrhau bod datblygiadau newydd yn cael eu hymgorffori mewn Llwybrau Teithio Llesol sy'n cynnig profiad teithio diogel, cynhwysol a dymunol, yn cyfrannu at waith i'w hehangu ac yn gwella cysylltedd oddi mewn i drefi, pentrefi ac aneddiadau gwledig oddi amgylch, a rhyngddynt.

iii Sicrhau bod datblygiadau newydd wedi'u dylunio i annog pobl i gerdded, beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus fel opsiynau eraill yn lle defnyddio car preifat.

iv Mabwysiadu lefelau priodol o ddarpariaeth i barcio ceir a beiciau, gan adlewyrchu amcanion y cynllun i leihau teithiau mewn ceir yn unol â safonau parcio mabwysiedig y Cyngor.

v Gwella hygyrchedd a chysylltedd â chyfleusterau trafnidiaeth gynaliadwy.

vi Darparu gwasanaethau trafnidiaeth a chyfleusterau trafnidiaeth gyhoeddus newydd neu well, lle bo'n briodol.

vii Cefnogi a hyrwyddo darpariaeth Metro De Cymru.

viii Diogelu hen reilffyrdd i'w defnyddio ar gyfer llwybrau Teithio Llesol presennol a phosibl.

ix Darparu'r seilwaith angenrheidiol ar gyfer ULEVs mewn lleoliadau priodol.

B. Fel y bo'n briodol, bydd yn ofynnol i gynigion datblygu newydd ddarparu Datganiadau Trafnidiaeth, Asesiadau Trafnidiaeth a Chynlluniau Teithio i sicrhau y darperir dewisiadau teithio a chyfleoedd teithio cynaliadwy.

C. Disgwylir i ddatblygiadau newydd y rhagwelir y byddant yn cael effaith andwyol ar y rhwydwaith trafnidiaeth gyfrannu at gapasiti a mesurau lliniaru. Bydd yn ofynnol i gynigion y mae angen seilwaith trafnidiaeth newydd ar eu cyfer wneud cyfraniad ariannol yn gymesur â hynny.

6.96. Yng ngoleuni’r Hierarchaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy a amlinellir ym Mholisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 11) a’r targed sydd wedi’i gynnwys yn Llwybr Newydd, Strategaeth Trafnidiaeth Cymru 2021 newydd i gwblhau 45% o deithiau ar drafnidiaeth gyhoeddus, drwy gerdded neu ar feic erbyn 2040, mae’n hanfodol i’r CDLIN gynnwys polisi strategol uchelgeisiol sy’n mynd i’r afael â dewisiadau teithio cynaliadwy ym Mro Morgannwg.

6.97. Mae Polisi SP7 yn nodi ymagwedd y cynllun i annog defnydd o drafnidiaeth gynaliadwy, gan nodi y bydd yn ofynnol i bob cynnig datblygu newydd gyfrannu at greu rhwydwaith trafnidiaeth hygyrch, cynaliadwy, diogel ac integredig sydd wedi'i gysylltu'n dda. Dylid bodloni hyn o fewn a thu allan i'r ardal ddatblygu a dylai cynigion ddangos y bydd y ddarpariaeth o ran trafnidiaeth sy'n gysylltiedig â chynigion datblygu yn briodol, o ran y dewis o ddulliau teithio a chapasiti'r rhwydwaith priffyrdd i gynnwys teithiau ychwanegol ar gyfer pob dull teithio.

6.98. Dylai teithio llesol fod yn ddewis cyntaf naturiol ar gyfer teithiau bob dydd, felly dylai pob datblygiad newydd roi'r flaenoriaeth i gerdded, beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn y camau cynharaf, gan gynnwys esbonio sut mae'r cynnig yn creu cysylltiadau ag ardaloedd presennol, a pha gyfleoedd sydd ar gael i wella cysylltiadau teithio llesol. Dylai datblygwyr allu dangos y bydd y ddarpariaeth o ran trafnidiaeth sy'n gysylltiedig â chynigion datblygu yn briodol, o ran y dewis o ddulliau teithio a chapasiti'r rhwydwaith priffyrdd i gynnwys teithiau ychwanegol ar gyfer pob dull teithio.

6.99. Mae hi hefyd yn bwysig i ddatblygiadau barchu graddfa a chymeriad presennol yr ardal. Ni ddylai gofynion cerbydau preifat y datblygiad gael effaith andwyol sylweddol ar yr amgylchedd ehangach nac ar amwynder preswylwyr, ee drwy gynhyrchu lefelau annerbyniol o deithiau neu achosi i gerbydau gael eu parcio mewn mannau amhriodol. Dylai datblygwyr allu dangos y bydd y ddarpariaeth o ran trafnidiaeth sy'n gysylltiedig â chynigion datblygu yn briodol, o ran y dewis o ddulliau teithio a chapasiti'r rhwydwaith priffyrdd i gynnwys teithiau ychwanegol ar gyfer pob dull teithio. Os yw datblygiadau newydd yn debygol o gael effaith andwyol ar y rhwydwaith trafnidiaeth oddi amgylch, bydd yn ofynnol iddynt gyfrannu at fesurau lliniarol a mesurau i wella capasiti.

6.100. Bydd yn rhaid cyflwyno Datganiadau Trafnidiaeth, Asesiadau Trafnidiaeth a Chynlluniau Teithio, fel bo'n briodol, i gefnogi datblygiadau newydd sy'n debygol o effeithio ar drafnidiaeth yn sylweddol, er mwyn sicrhau bod cyfleoedd teithio cynaliadwy yn cael eu cynnig yn unol â chanllawiau diweddaraf Llywodraeth Cymru. Mae Asesiad Trafnidiaeth yn esbonio'n fanwl sut mae datblygiad arfaethedig yn debygol o effeithio ar drafnidiaeth, ac fe'i cyflwynir i gefnogi cais cynllunio; asesiad lefel is ar gyfer datblygiadau llai yw Datganiad Trafnidiaeth. Strategaethau rheoli hirdymor yw Cynlluniau Teithio, a'u pwrpas yw ymgorffori cynigion teithio cynaliadwy yn y broses gynllunio. Bydd angen eu cyflwyno'n aml pan fo'n ofynnol cyflwyno Asesiad Trafnidiaeth llawn i gefnogi cynnig. Sicrheir bod y Cynllun Teithio yn cael ei weithredu yn rhan o ganiatâd cynllunio.

6.101. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu safonau parcio gofynnol o fewn datblygiadau preswyl er mwyn goresgyn problemau'n gysylltiedig â lefel isel o ddarpariaeth parcio. Wrth bennu'r lefelau parcio cywir, bydd y Cyngor yn ystyried y galw a ragwelir yn sgil y math o dai a gynigir, y meddianwyr tebygol, dyluniad tir y cyhoedd a'r briffordd, datrysiadau dylunio a gynigir ar gyfer parcio ac unrhyw gyfyngiadau lleol.

## TAI FFORDDIADWY AC ARBENIGOL

6.102. Mae darparu tai fforddiadwy yn amcan allweddol yn Strategaeth y CDLl, ac mae cryfder cymharol marchnad dai Bro Morgannwg dros y 10 mlynedd diwethaf wedi achosi i lawer o bobl leol ei chael hi'n anodd prynu tŷ addas ar y farchnad agored.

6.103. Mae’r Asesiad diweddaraf o’r Farchnad Dai Leol (2021), a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2022, yn nodi bod angen 1,205 o gartrefi fforddiadwy newydd y flwyddyn ar gyfer y cyfnod 2021-2026. Mae hyn yn cynnwys:

- 915 o unedau llety rhent cymdeithasol
- 211 o unedau o dai rhent canolradd
- 79 o unedau perchentyaeth cost isel

6.104. Mae’r ôl-groniad presennol o angen ymhlith pobl ar y rhestr aros tai yn fwyaf difrifol yn y Barri ac ym Mhenarth/Llandochau, er bod nifer sylweddol ar y rhestr aros yn hol ardaloedd y Fro. Unedau bach un a dwy ystafell wely i'w rhentu'n gymdeithasol ar draws sawl rhan o Fro Morgannwg sydd i gyfrif am y mwyaf o angen am dai fforddiadwy, sy'n adlewyrchu tueddiadau cymdeithas o ran cyfansoddiad aelwydydd a mynychder aelwydydd un person ac aelwydydd sy'n cynnwys cyplau heb blant.

6.105. Ym mis Mawrth 2022, cyhoeddwyd methodoleg newydd ar gyfer paratoi AFDLau gan Lywodraeth Cymru gyda'r gofyniad bod rhaid i CDLlau newydd bellach fod yn seiliedig ar allbynnau AFDLau wedi’u paratoi gan ddefnyddio'r fethodoleg newydd. Mae gwaith wedi datblygu ar baratoi AFDL wedi'i ddiweddaru gan ddefnyddio'r fethodoleg newydd hon. Fodd bynnag, cyhoeddwyd fersiwn newydd o'r offeryn AFDL a gyhoeddwyd ar 30 Mehefin 2023, a ddiweddarodd y data diofyn ac a oedd yn cynnwys wardiau etholiadol newydd Mai 2022. Oherwydd yr amserlenni ar gyfer paratoi'r Strategaeth a Ffefrir, nid oedd yn bosibl cwblhau adroddiad AFDL newydd gan ddefnyddio'r offeryn newydd fel rhan o'r sylfaen dystiolaeth i lywio'r Strategaeth a Ffefrir. Fodd bynnag, mae adolygiad cychwynnol o allbynnau lefel uchel yr AFDL drafft yn dangos bod lefel yr angen am dai fforddiadwy yn parhau'n uchel. Y bwriad yw cynnwys yr AFDL terfynol fel rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y Cynllun ar Adnau unwaith y bydd Llywodraeth Cymru wedi ei gymeradwyo.

6.106. Er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r angen a nodwyd, mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd y cyflenwad tir presennol a nodwyd yn SP3 ynghyd â dyraniadau newydd yn

darparu o leiaf 2,000 o anheddau fforddiadwy drwy'r system gynllunio dros gyfnod y cynllun. Bydd y targed tai fforddiadwy cyffredinol yn dibynnu ar hyfywedd targedau ardal-benodol a dosbarthiad gofodol safleoedd newydd a hap-safleoedd. Bydd felly'n cael ei adolygu ar gyfer y CDLl wedi'i Adneuo i roi ystyriaeth i safleoedd tai ychwanegol sydd i'w dynodi, ac i adlewyrchu tystiolaeth gyfredol ynghylch hyfywedd. Mae manylion y cyfraniadau tai fforddiadwy o'r banc tir tai presennol a'r rhai sy'n deillio o'r hap-safleoedd a ragwelir wedi'u nodi ym Mhapur Cefndir y Cyngor ar y Cyflenwad o Dir ar gyfer Tai.

**SP8: TAI FFORDDIADWY AC ARBENIGOL**

Disgwylir i'r gofyn preswyl a nodwyd ym Mholisi SP3 gyfrannu at anghenion tai cymunedol sefydledig Bro Morgannwg trwy ddarparu o leiaf 2,000 o unedau preswyl fforddiadwy dros gyfnod y cynllun.

Wrth gyrraedd y targed hwn, bydd y cynllun yn sicrhau bod datblygiadau tai newydd yn darparu ar gyfer cymysgedd o ddeiliadaethau, mathau a meintiau tai, gan gynnwys llety arbenigol i fodloni anghenion preswylwyr ag anghenion gofal a phoblogaeth sy'n heneiddio, yn unol ag Asesiad Marcio Tai Lleol a Strategaeth Tai Pobl Hŷn diweddaraf y Cyngor.

6.107. Mae Strategaeth Tai Pobl Hŷn y Cyngor, Creu Cartrefi a Chymdogaethau ar gyfer Bywyd Diweddarach 2022-36, yn nodi gweledigaeth yng Nghyngor Bro Morgannwg, sef: 'sicrhau'r ansawdd bywyd gorau i bobl hŷn fyw mor annibynnol â phosibl yn ddiweddarach mewn bywyd. Mae hyn yn golygu darparu ystod o lety sy'n galluogi i bobl hŷn fyw bywydau boddhaus a mwynhau iechyd da mewn cartrefi deniadol sy'n diwallu eu hanghenion ac yn caniatáu iddynt gadw eu hannibyniaeth wrth iddynt heneiddio''.

6.108. Mae'r strategaeth yn rhagweld erbyn 2037 y bydd angen tua 1,357 o dai arbenigol a ddynodir yn ôl oed, tai ymddeol (ar gyfer rhent cymdeithasol ac i'w gwerthu) a thai â gofal (tai gofal ychwanegol ar gyfer rhent cymdeithasol ac i'w gwerthu). Tynnu sylw at bwysigrwydd y Cyngor a'i bartneriaid i fynd i'r afael ag anghenion tai yn y dyfodol sy'n gysylltiedig â phoblogaeth sy'n heneiddio drwy ddarparu atebion tai priodol sy'n deillio o boblogaeth hŷn sy'n tyfu. Er mwyn mynd i'r afael â'r angen hwn a ragwelir, mae'r strategaeth yn nodi ystod o fecanweithiau ar gyfer darparu gan gynnwys y CDLl y gwelir bod ganddo rôl allweddol wrth annog darparwyr tai preifat a chymdeithasol i ddatblygu ystod o dai prif ffrwd sy'n addas ac yn ddeniadol i bobl hŷn.

6.109. Am y rhesymau hyn, mae Polisïau Tai Strategol SP3 ac SP4 yn darparu ar gyfer datblygiadau tai newydd i gynnwys tai arbenigol megis tai pobl hŷn fel rhan o'r gymysgedd gyffredinol â datblygiadau preswyl, gan gynnwys lle ceisir tai fforddiadwy trwy gyfraniadau cynllunio.

6.110. Mae tai i bobl hŷn yn cwmpasu sbectrwm o anghenion, o dai gwarchod (lle mae preswylwyr yn byw bywydau annibynnol yn bennaf wrth rannu rhai cyfleusterau cymunedol) i dai gofal ychwanegol a chartrefi gofal, lle darperir lefel o ofal iechyd personol fel arfer. Yn ogystal â llety sy'n gysylltiedig yn bennaf ag anghenion pobl hŷn, mae mathau eraill o lety wedi'i addasu sy'n darparu ar gyfer anghenion eraill sy'n gysylltiedig ag iechyd. Byddai'r rhain hefyd yn dod o fewn darpariaethau'r polisi hwn.

6.111. Bydd rhagor o fanylion am y mecanweithiau ar gyfer darparu tai arbenigol yn cael eu nodi yng Nghanllaw Cynllunio Atodol Tai Fforddiadwy y Cyngor.

**SP9: SIPSIWN A THEITHWYR**

Bydd tir ar gael i ddarparu llety Sipsiwn a Theithwyr sydd heb eu diwallu a nodwyd yn yr Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr diweddaraf ar gyfer darparu 11 o leiniau preswyl erbyn 2036.

6.112. Mae'r Ddeddf Tai yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ystyried anghenion llety'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr drwy baratoi Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr (GTAA). Cwblhawyd y GTAA diweddaraf ym mis Mehefin 2022 ac mae wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo. Mae'r GTAA wedi nodi bod angen 9 llain preswyl yn y cyfnod o bum mlynedd hyd at 2026 a 2 lain arall yng ngweddill cyfnod cynllun y CDLl Newydd, gan roi cyfanswm angen o 11 o leiniau tan ddiwedd cyfnod y Cynllun.

6.113. Ar hyn o bryd ceir ceisiadau cynllunio ôl-weithredol mewn perthynas â phedair llain ar draws dau safle, sy'n rhan o'r angen sydd heb ei ddiwallu. Os cymeradwyir y ceisiadau hyn, bydd y ffigur angen heb ei ddiwallu yn cael ei leihau. Efallai y bydd lle hefyd i gynnwys lleiniau ychwanegol yn un o'r safleoedd sydd heb eu hawdurdodi ar hyn o bryd (i ddiwallu'r angen llain ychwanegol wrth i blant y preswylwyr ddod yn oedolion). Byddai hyn yn gwrthbwyso'r angen ymhellach.

6.114. Bydd tir yn cael ei nodi i ddarparu ar gyfer unrhyw lety Sipsiwn a Theithwyr sydd heb ei ddiwallu yn y Cynllun wedi’i Adneuo. Bydd y Cynllun wedi’i Adneuo hefyd yn cynnwys polisi sy'n seiliedig ar feini prawf i asesu ceisiadau am alw newydd neu annisgwyl am lety Sipsiwn a Theithwyr, gan gynnwys estyniadau i safleoedd presennol.

6.115. Mae'r GTAA hefyd yn ystyried darpariaeth tramwy, gan gydnabod bod angen mwy o ddarpariaeth tramwy yng Nghymru, ond adnabuwyd nad oedd angen darparu safle tramwy yn y Fro ar sail tystiolaeth gyfredol. Ystyrir bod darpariaeth dramwy yn fater rhanbarthol ac felly mae'n cael ei ystyried yn rhanbarthol drwy Grŵp Cynllunio Strategol De-ddwyrain Cymru fel rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y Cynllun Datblygu Strategol.

## CANOLFANNAU MANWERTHU, MASNACHOL A GWASANAETH

**SP10: CANOLFANNAU MANWERTHU, MASNACHOL A GWASANAETH**

Dyma Hierarchaeth Canolfannau Manwerthu, Masnachol a Gwasanaeth ym Mro Morgannwg:

**Canol Trefi -** Heol Holltwn y Barri, Penarth, Y Bont-faen
Mae canol trefi yn darparu (neu â'r potensial i ddarparu) amrywiaeth o siopau, gwasanaethau, busnesau, cyfleusterau diwylliannol, hamdden a chymunedol i gefnwlad sylweddol sy'n cynnwys trefi cyfagos llai neu nifer o faestrefi.

**Canolfannau Dosbarth** - Stryd Fawr y Barri, Llanilltud Fawr
Mae canolfannau ardal yn darparu (neu â'r potensial i ddarparu) amrywiaeth o siopau, gwasanaethau, busnesau a chyfleusterau cymunedol i gefnwlad sy'n cynnwys pentrefi cyfagos neu rai maestrefi cyfagos.

**Canolfannau Pentref a Lleol -** Y Barri: Main Street, Tregatwg; Vere Street, Tregatwg; Park Crescent; Ffordd y Barri, ger Tregatwg; Heol Holltwn Uchaf
Dinas Powys: Cardiff Road; Canolfan Bentref Dinas Powys
Penarth: Cornerswell Road
Y Rhws: Fontygary Road
Sain Tathan: The Square
Mae Canolfannau Pentref a Lleol yn darparu (neu â'r potensial i ddarparu) siopau a gwasanaethau hanfodol i gymuned gyfagos gan gynnwys pentrefi a phentrefannau cyfagos.

**Canolfannau Cymdogaeth -** Y Barri: Bron-y-Môr; Cwm Talwg; Canolfan Gibbonsdown; Park Road Boverton
Dinas Powys: Camms Corner; Castle Court/The Parade
Llanilltud Fawr: Crawshay Drive
Penarth: Pill Street; Tennyson Road
Mae Canolfannau Cymdogaeth yn darparu (neu â'r potensial i ddarparu) siopau a gwasanaethau hanfodol i'w hardal breswyl agos)

Y canolfannau a nodir uchod yw'r lleoliadau a ffefrir ar gyfer amrywiaeth o ddefnyddiau, gan gynnwys manwerthu, hamdden, swyddfa, llety ymwelwyr a chyfleusterau preswyl a chymunedol priodol. Rhaid i gynigion datblygu fod yn unol â rôl ddiffiniedig pob canolfan.

Dylai datblygiad newydd o fewn y Canolfannau Manwerthu, Masnachol a Gwasanaeth gyd-fynd â rôl ddiffiniedig pob canolfan o fewn yr hierarchaeth a chefnogi bywiogrwydd a hyfywedd a chynyddu nifer yr ymwelwyr o fewn y canolfannau.

6.116. Mae rôl canol trefi traddodiadol fel canolfannau manwerthu yn newid a bydd eu hadfywio yn y dyfodol yn cynnwys ail-bwrpasu i greu 'canolfannau manwerthu, masnachol a gwasanaeth' amlbwrpas sy'n diwallu anghenion y gymuned y maent yn ei gwasanaethu. Er mwyn cydnabod yr angen i symud i ffwrdd o rôl fanwerthu

draddodiadol Canol Trefi ac yn unol â Pholisi Canol Trefi yn Gyntaf Cymru’r Dyfodol, mae Polisi SP9 yn mabwysiadu dull mwy hyblyg o ddefnydd nad yw'n fanwerthu i greu cymysgedd o fanwerthu, masnachol, hamdden, preswyl ac ati. Er mwyn cynnal hyfywedd a bywiogrwydd hirdymor canolfannau manwerthu'r Fro, bydd y cynllun yn ceisio eu galluogi i esblygu i ganolfannau amlswyddogaethol sy'n cynnwys ystod eang o fanwerthu, hamdden a gwasanaethau sy'n gweithredu fel lleoedd a gofod ar gyfer cymdeithasu, gweithio, astudio a mwynhau.

6.117. Bydd cynigion datblygu mewn Canolfannau yn defnyddio’r Egwyddorion Creu Lleoedd ym Mholisi SP5, gan sicrhau bod Canolfannau yn ddeniadol, yn ddiogel ac yn groesawgar. Bydd canolfannau yn hygyrch i bawb ac yn blaenoriaethu trafnidiaeth gynaliadwy; byddant yn cael eu gwasanaethu'n dda gan seilwaith teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus sy'n cysylltu ag aneddiadau cyfagos.

6.118. Ystyrir canolfannau fel lleoedd cynaliadwy i fyw a, lle bo'n briodol, gallent gynnwys datblygiadau preswyl newydd ar raddfa fach drwy, er enghraifft, drosi lloriau uchaf. Dylent hefyd gynnwys mannau gwyrdd agored amlswyddogaethol i wella amwynder, ansawdd gweledol a darparu buddion amgylcheddol ac iechyd.

6.119. Mae'r Barri (Heol Holltwn), Penarth a'r Bont-faen wedi'u dynodi’n Ganol Trefi ar frig yr hierarchaeth oherwydd bod ganddyn nifer fawr ac ystod eang o fanwerthu, hamdden a gwasanaethau. Mae Canol Trefi yn chwarae rhan bwysig yn eu darpariaeth manwerthu a gwasanaethau wrth iddynt wasanaethu cymunedau cyfagos ac ehangach, sydd wedi'u cysylltu'n dda gan drafnidiaeth gynaliadwy. Mae ystod a nifer y manwerthu, hamdden a gwasanaethau ac arwyddocâd eu rôl ehangach yn cynyddu wrth i Ganolfannau symud i fyny trwy'r hierarchaeth o Ganolfannau Cymdogaeth, Canol Pentref, Canol Ardal a Chanol y Dref.

6.120. Bydd angen ystyried Polisi SP9 ochr yn ochr â pholisïau manwl sy'n ceisio rheoli manwerthu ymylol ac allan o'r dref.

**SP11: ARWYNEBEDD LLAWR MANWERTHU**

Dylid cyfeirio arwynebedd llawr manwerthu newydd i'r canol trefi a'r ardal a adnabuwyd ym Mholisi SP10. Mae capasiti ar gyfer rhwng 4,282 a 5,862 metr sgwâr (net) o ofod llawr manwerthu cyfleus newydd ym Mro Morgannwg. Lle mae tystiolaeth o angen meintiol ac ansoddol ac nad oes safleoedd addas ar gael yng nghanol y dref a'r ardal, dilynir y prawf dilyniannol. Lle nodir angen, rhaid i gynigion gydymffurfio â gofynion Polisïau RLDP perthnasol.

6.121. Mae'r ddarpariaeth fanwerthu ym Mro Morgannwg wedi'i chanoli i raddau helaeth yng nghanol tref y Barri a Phenarth, y Bont-faen a Llanilltud Fawr. Nodweddir yr ardaloedd manwerthu hyn gan amrywiaeth o fanwerthwyr lleol a chenedlaethol ac maent yn gwasanaethu dalgylchoedd cymharol eang. Yn ogystal, mae

canolfannau lleol a chymdogaeth yn darparu gwasanaeth lleol pwysig ar gyfer eu dalgylch uniongyrchol ac yn darparu cyfleoedd i leihau teithiau mewn car.

6.122. Mae Astudiaeth Manwerthu a Hamdden diweddaraf Bro Morgannwg (Mehefin 2023) yn darparu angen meintiol wedi'i ddiweddaru ac asesiad ansoddol o gyfleustra (bwyd), nwyddau cymharu (dillad, eitemau electronig ac ati) a defnyddiau hamdden canol trefi fel bariau, caffis a bwytai ar draws yr awdurdod. Adnabu’r astudiaeth fod capasiti ansoddol ar gyfer rhwng 4,282 a 5,862 metr sgwâr o arwynebedd llawr manwerthu bwyd cyfleus a 432 metr sgwâr net a 679 metr sgwâr net o ofod llawr cymhariaeth dros gyfnod y cynllun hyd 2036. Yn ofodol, mae'r astudiaeth yn nodi’r angen posibl am fanwerthu bwyd cyfleus angen ychwanegol yng nghanolfannau manwerthu'r Barri, Penarth a Llanilltud Fawr, y mae'r adroddiad yn ei argymell a fyddai'n arwain at welliannau posibl ym bywiogrwydd a hyfywedd y canolfannau hyn, gan gydnabod hefyd angen ansoddol cyffredinol i annog ystod amrywiol o ddefnyddiau ym mhrif ganolfannau manwerthu tref ac ardal y Fro.

6.123. Wrth ystyried cynigion am siopau cyfleustra ychwanegol a chymharu cynigion manwerthu, bydd y Cyngor yn ystyried sut mae cynigion yn cyfrannu at amcanion polisi cenedlaethol "Canol Trefi yn Gyntaf" i gefnogi canolfannau amlswyddogaethol amrywiol sy'n gweithredu y tu hwnt i rôl draddodiadol canolfannau siopa trefi, gan ehangu eu rôl fel lleoedd sy'n cynnig cyfleoedd i gael mynediad at amrywiaeth o gyfleoedd siopa, masnachol a hamdden yn ogystal â gweithleoedd, addysg, hunaniaeth ddinesig a rhyngweithio cymdeithasol.

## SEILWAITH

6.124. Mae sawl math o ddatblygiad yn rhoi gofynion ychwanegol ar wasanaethau a chyfleusterau a fydd yn effeithio ar eu gallu i ddiwallu anghenion y gymuned. Mae’n hollbwysig darparu seilwaith newydd, yn ogystal â diogelu, gwella a defnydd effeithlon o'r seilwaith presennol i sicrhau bod yr holl ddatblygiadau newydd a gynigir o fewn cyfnod y Cynllun yn cyfrannu at gyflawni gweledigaeth y Cynllun o greu cymunedau cynaliadwy. Felly, mae darparu seilwaith angenrheidiol yn amserol sy'n cefnogi ac yn lliniaru effaith datblygiad newydd yn hanfodol i gefnogi ein Strategaeth Ofodol.

**SP12: RHWYMEDIGAETHAU SEILWAITH A CHYNLLUNIO CYMUNEDOL**

Lle bo'n briodol ac o ran hyfywedd datblygu, bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau seilwaith, cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol newydd a gwell sy'n briodol i raddfa, math a lleoliad datblygiadau arfaethedig drwy ddefnyddio rhwymedigaethau cynllunio. Gall seilwaith cymunedol gynnwys darparu neu wella:

A. Tai fforddiadwy ac arbenigol.
B. Darpariaeth a chyfleusterau addysgol.

C. Seilwaith a chyfleusterau trafnidiaeth ar gyfer cerddwyr, beicwyr, trafnidiaeth gyhoeddus, a thraffig cerbydau.
D. Mannau agored cyhoeddus.
E. Mannau Tyfu Cymunedol fel rhandiroedd
F. Seilwaith gwyrdd.
G. Celf gyhoeddus
H. Cyfleusterau hamdden a chwaraeon.
I. Gwella bioamrywiaeth.
J. Cyfleusterau cymunedol.
K. Cyfleusterau gofal iechyd.
L. Seilwaith gwasanaethau a chyfleustodau, gan gynnwys seilwaith digidol.
M. Diogelu a gwella’r amgylchedd megis atal llifogydd, adfywio canol trefi, rheoli llygredd neu adnewyddu hanesyddol.
N. Cyfleusterau ailgylchu a rheoli gwastraff; a
O. Cyfleoedd cyflogaeth a chyfleusterau cyflenwol gan gynnwys hybiau hyfforddi a gweithio.

Rhaid darparu seilwaith newydd neu well, neu fesurau priodol eraill, mewn modd amserol a chydgysylltiedig i ddiwallu anghenion cymunedau presennol a chynlluniedig cyn y camau datblygu perthnasol neu wrth ddechrau’r camau hynny.

6.125. Mae ansawdd, hygyrchedd ac ystod y seilwaith cymunedol sydd ar gael i ddiwallu anghenion datblygiadau newydd yn hanfodol i greu cymunedau cynaliadwy. Mae Polisi SP12 yn nodi'r gofynion ar gyfer sicrhau bod pob datblygiad newydd ym Mro Morgannwg yn cael eu cefnogi gan wasanaethau a chyfleusterau priodol i ddiwallu eu hanghenion ac anghenion y gymuned bresennol, i greu cymunedau diogel, cynaliadwy, byw, iach a chymysg. Gall hyn fod drwy welliannau i gyfleusterau presennol neu ddarparu seilwaith newydd.

6.126. Wrth ystyried yr anghenion seilwaith a gynhyrchir o ddatblygiad, bydd hyn yn cael ei ystyried yn erbyn y math o ddatblygiad a gynigir, yr amgylchiadau a'r anghenion lleol sy'n deillio o'r datblygiad a'r hyn y mae'n rhesymol disgwyl i'r datblygwr ei ddarparu gan ystyried y polisïau cynllunio cenedlaethol a lleol perthnasol. Bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei nodi yng Nghanllaw Cynllunio Atodol y Cyngor ar Rwymedigaethau Cynllunio. Yn ogystal, caiff seilwaith cymunedol safle-benodol ei nodi o dan ddyraniadau safle perthnasol a nodir ym Mholisïau 4.1 i 4.5.

6.127. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd y Cyngor yn annog datblygwyr i ddarparu cyfleusterau a seilwaith ar y safle i wasanaethu meddianwyr y datblygiad yn y dyfodol. Lle mae hyn yn wir, bydd y cyfraniadau 'mewn nwyddau' hyn yn cael eu hystyried wrth gyfrifo swm unrhyw gyfraniadau oddi ar y safle. Pan ystyrir bod datblygiad yn diwallu ei holl anghenion ar y safle ac yn lliniaru ei effeithiau trwy

gyfraniadau digonol mewn nwyddau, mae'n annhebygol y gofynnir am unrhyw gyfraniadau ariannol ychwanegol.

6.128. Os ydynt yn bodloni'r profion polisi, (h.y., yn angenrheidiol; yn berthnasol i gynllunio; yn berthnasol i'r datblygiad sydd i'w ganiatáu; y gellir ei orfodi; yn fanwl ac yn rhesymol ym mhob ffordd arall), bydd y Cyngor yn defnyddio amodau cynllunio yn hytrach na Rhwymedigaethau Cynllunio i sicrhau'r seilwaith cymunedol angenrheidiol sydd ei angen o ganlyniad i'r datblygiad (Polisi Cynllunio Cymru a Chylchlythyr 16/2014 'Defnyddio Amodau ar gyfer Rheoli Datblygu').

6.129. Mae cytundebau Adran 106 yn wirfoddol ac mae angen cydweithrediad y datblygwr er mwyn eu cyflawni. Fodd bynnag, pan na fydd datblygwr yn dangos y gall liniaru effeithiau ei ddatblygiad yn ddigonol, naill ai trwy rwymedigaethau cynllunio neu fesurau eraill, mae'n debygol y bydd y cais yn cael ei wrthod.

## LLEOEDD CYNHYRCHIOL A MENTRUS

### TWF ECONOMAIDD

6.130. Mae'r CDLl yn ceisio ymaddasu i amgylchiadau economaidd newidiol ym Mro Morgannwg a natur newidiol cyflogaeth dros amser drwy ddarparu ystod amrywiol o safleoedd cyflogaeth newydd a diogelu ardaloedd cyflogaeth presennol.

6.131. Er mwyn sicrhau bod digon o dir yn bodoli i ddiwallu anghenion cyflogaeth lleol, comisiynodd y Cyngor Astudiaeth Tir Cyflogaeth (ATC) (2022), i ddarparu asesiad o'r cyflenwad presennol o dir cyflogaeth ac ardaloedd cyflogaeth, ac i nodi anghenion tir cyflogaeth yn y dyfodol dros gyfnod y cynllun yng nghyd-destun rhanbarth ehangach De-ddwyrain Cymru.

6.132. Amlygodd yr astudiaeth fod gweithgarwch economaidd y Fro yn bennaf o fewn y sectorau diwydiannol a gweithgynhyrchu, sy'n canolbwyntio'n neilltuol ar tua 3 maes marchnad sef y Barri, Maes Awyr Caerdydd a Bro Tathan (Sain Tathan) a'r Fro Wledig (yn bennaf cynlluniau arallgyfeirio Llanilltud Fawr, y Bont-faen, Llandŵ a chynlluniau arallgyfeirio gwledig llai).

6.133. O ran anghenion tir cyflogaeth yn y dyfodol, mae'r astudiaeth wedi nodi bod angen 67.8ha o dir cyflogaeth dros gyfnod y cynllun (gan gynnwys byffer hyblygrwydd o 5 mlynedd). Yn dilyn asesiad o dir cyflogaeth presennol yn y Fro, daeth yr astudiaeth i'r casgliad bod digon o dir cyflogaeth i ddiwallu'r angen dros gyfnod y cynllun, a bod gan y ddarpariaeth hon y potensial i gefnogi tua 5,338 o swyddi ychwanegol dros gyfnod y cynllun.

**SP13: TWF CYFLOGAETH**

I gefnogi twf swyddi a ffyniant economaidd ar draws Bro Morgannwg dros gyfnod y cynllun ac i ddiwallu anghenion tir cyflogaeth a ragwelir o 67.8 hectar o dir cyflogaeth, a darparu hyd at 5,338 o swyddi, darparu 168 hectar net o dir cyflogaeth ar gyfer B1 (Swyddfa a Diwydiant Ysgafn), B2 (Diwydiannau Cyffredinol) a B8 (Dosbarthu a Storio) darperir defnyddiau cyflogaeth yn y lleoliadau cyflogaeth mawr a lleol canlynol:

**Dyraniadau Cyflogaeth Mawr*:**

1. Tir i'r dwyrain o Faes Awyr Caerdydd, y Rhws (16.3 ha net)
2. Tir i'r de o Port Road (Model Farm), y Rhws (44.75 ha net)
3. Dwyrain Bro Tathan, Parc Busnes Awyrofod (48.5 ha net)
4. Tir i'r de o Gyffordd 34, Hensol (29.59 ha net)

**Dyraniadau Cyflogaeth Lleol:**

5. Ystâd Fasnachu Iwerydd, y Barri (6.21 ha net)
6. Parc Windmill, Hayes Road, y Barri (3.6 ha net)
7. Parc Busnes y Fro, Llandŵ (12.4 ha net)
8. Tir i'r de o Gyffordd 34 M4 Hensol (Ardal D 6.64 ha net)

**Ardaloedd Cyfle Adfywio Cyflogaeth:**

Bydd cynigion ar gyfer ailddatblygu a gwella tir ac adeiladau presennol ar gyfer B1, B2 a B8 a chynigion cyflogaeth a seilwaith sy'n gysylltiedig â Charbon Isel a Di-garbon yn cael eu cefnogi yn:

9. Cyn Orsaf Bŵer Aberddawan
10. Porthladd Rhif 2, Dociau'r Barri

*Gall defnyddiau oni bai am B ategol ac sy’n cyd-fynd gael eu caniatáu lle y byddai'r rhain yn darparu gwasanaethau cefnogol ar gyfer busnesau presennol a rhai'r dyfodol a'u gweithwyr.

6.134. Mae Polisi SP13 yn nodi'r ddarpariaeth tir cyflogaeth ofodol ar gyfer Bro Morgannwg dros gyfnod y cynllun, sy'n cynnwys hierarchaeth o safleoedd cyflogaeth strategol a lleol sydd wedi'u lleoli'n dda i'r 3 maes allweddol yn y farchnad gyflogaeth a nodwyd yn yr ATC, gan ddarparu hyblygrwydd a dewis i ddiwallu anghenion tir cyflogaeth y Fro dros gyfnod y Cynllun.

6.135. Er mwyn bodloni'r angen tir cyflogaeth a ragwelir o 67.8 hectar net, mae Polisi SP12 yn darparu ar gyfer 168 hectar net, sy'n adlewyrchu'r cyflenwad tir cyflogaeth presennol sydd ar gael yn y Fro ar 1 Ebrill 2021. Mae cyfran fawr o'r cyflenwad presennol wedi'i ganoli yn Ardaloedd Menter Maes Awyr Caerdydd a Bro Tathan ac yng Nghyffordd 34 yr M4, gyda thir ychwanegol wedi'i nodi mewn ardaloedd cyflogaeth lleol yn y Barri a Llandŵ.


## Dyraniadau Cyflogaeth Mawr

6.136. Mae'r hierarchaeth tir cyflogaeth yn cynnwys pedwar safle strategol - Parc Awyrofod a Busnes Bro Tathan (Sain Tathan), tir i'r dwyrain o Barc Busnes Maes Awyr Caerdydd a thir i'r de o Port Road (Model Farm) sydd gyda'i gilydd yn ffurfio Ardaloedd Menter Caerdydd a Sain Tathan a thir i'r de o Gyffordd 34. Mae eu safle fel safleoedd cyflogaeth mawr o fewn yr hierarchaeth gyflogaeth yn adlewyrchu eu pwysigrwydd fel meysydd allweddol o gyfleoedd buddsoddi a chyflogaeth yn y Fro.

6.137. Gwelir bod **Maes Awyr Caerdydd a Bro Tathan** yn cynnig cyfleoedd sylweddol ar gyfer datblygu awyrofod a gweithgynhyrchu uwch, ymchwil a datblygu ac arloesi ym Mro Morgannwg, gan adeiladu ar sylfaen sgiliau Maes Awyr Caerdydd, British Airways Maintenance Cardiff, a datblygiad mwy diweddar yn Ardal Fenter Bro Tathan. Mae eu pwysigrwydd i'r rhanbarth ehangach yn cael ei gydnabod yng Nghymru'r Dyfodol, y Cynllun Cenedlaethol, sy'n nodi bod Maes Awyr Caerdydd yn un o 4 Porth Strategol i Gymru (Polisi 10), gan nodi:

*"Mae Maes Awyr Caerdydd yn rhan hanfodol o seilwaith trafnidiaeth strategol Cymru. Mae'n borth rhyngwladol sy'n cysylltu Cymru â'r byd ac mae'n sbardun pwysig o fewn economi Cymru. Lleolir Maes Awyr Caerdydd o fewn Ardal Fenter Maes Awyr Caerdydd a Bro Tathan sy'n cynnig cyfleoedd i fuddsoddi yn y safle a'r dalgylch. Mae'r Ardal Fenter yn cynnig ystod eang o safleoedd datblygu a llety busnes, gan gynnig cyfleoedd i ddatblygu cyfleusterau pwrpasol neu fuddsoddi mewn llety sy'n bodoli eisoes" (Cymru'r Dyfodol, tudalen 82)*

6.138. Mae **tir i'r dwyrain o Faes Awyr Caerdydd** i'r dwyrain o'r Maes Awyr a Pharc Busnes presennol y Maes Awyr ac mae'r A4226 i'r gogledd a Port Road i'r de yn ffinio ag ef. Llywodraeth Cymru a Chyngor Bro Morgannwg sy'n berchen ar y rhan fwyaf o'r tir hwn, sy'n cael ei ddyrannu fel cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant defnydd cymysg. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor gyda Choleg Caerdydd a'r Fro yn archwilio datblygiad posibl campws newydd Coleg Caerdydd a'r Fro ar gyfer gweithgynhyrchu uwch ar 2.7ha o dir i'r de-ddwyrain o Barc Busnes presennol y Maes Awyr a gallai fod yn gartref i hyd at 2,000 o fyfyrwyr a staff. Mae'r Cyngor am weld gweddill y safle yn cael ei ddatblygu ar gyfer parc busnes masnachol, a allai fod yn gysylltiedig â'r cynigion Model Farm cyfagos ac mae uwchgynllun yn cael ei baratoi ar gyfer hyn ar hyn o bryd.





**Ffigur 20: Maes Awyr Caerdydd ac Ardal Datblygu Porth Ffynhonnell: SPG Maes Awyr Caerdydd ac Ardal Datblygu Porth (Rhagfyr 2019)**

6.139. Ar hyn o bryd mae **tir i'r de o Port Road (Model Farm) y Rhws** yn destun apêl am beidio â phenderfynu ar gais cynllunio amlinellol ar gyfer Busnes B1, B2, B8. Os yw'r apêl yn cael ei ganiatáu, rhagwelir y bydd y safle yn darparu 1.7 miliwn troedfedd sgwâr o swyddfeydd Dosbarth B1, B2 a B8, unedau diwydiannol ysgafn a warysau ac unedau dosbarthu, ochr yn ochr â meysydd parcio, tirlunio, seilwaith draenio a gwaith gwella bioamrywiaeth sy'n cynnwys tir ar gyfer ehangu Parc Gwledig Porthceri i'r de (Ffigur 20). Mae agosrwydd y safle at Faes Awyr Caerdydd a Bro Tathan ochr yn ochr â dyheadau Coleg Caerdydd a'r Fro yn y dyfodol yn rhoi'r cyfle i ddatblygu'r ardal yn glwstwr busnes o ansawdd uchel.

6.140. Mae **Dwyrain Bro Tathan (Sain Tathan)** tua 5 milltir o Faes Awyr Caerdydd, sydd gyda'i gilydd yn ffurfio Ardal Fenter Sain Tathan a Maes Awyr Caerdydd Llywodraeth Cymru. Ers ei ddynodi yn 2013 fel un o 6 Ardal Fenter yng Nghymru mae buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru ym Mro Tathan wedi darparu tua 1,200 o swyddi newydd ac mae wedi gweld adnewyddu hangar ac adeiladau presennol y Weinyddiaeth Amddiffyn, datblygu 32 hectar o dir cyflogaeth (Gogledd Bro Tathan) a ffordd fynediad ogleddol newydd yn ogystal â gwelliannau i'r B4265. Mae Bro Tathan bellach yn gartref i ystod amrywiol o fusnesau mewn sectorau technoleg uchel gan gynnwys ymchwil peirianneg/technoleg (Prifysgol Caerdydd), gwneuthurwr dronau arbenigol, busnes seiberddiogelwch newydd a ffermio fertigol.

6.141. Mae'r 48.5 hectar o dir a ddyrannwyd o dan SP13.3 yn ymwneud â cham nesaf y buddsoddiad ym mharth Dwyrain Bro Tathan y mae Llywodraeth Cymru wedi nodi a fydd yn barod i'w ddatblygu yn 2025. Gan adlewyrchu dyheadau parhaus Llywodraeth Cymru i ddatblygu Dwyrain Bro Tathan yn barc busnes defnydd cymysg o ansawdd uchel. Nododd ATC y Cyngor nad oedd cyfleusterau ategol ar gael i'r rhai a gyflogir ym Mro Tathan, yn unol â hynny mae Polisi SP13 yn caniatáu ar gyfer darparu defnyddiau ategol sy’n cyd-fynd i gefnogi'r rhai a gyflogir ym Mro Tathan.

6.142. Yn ogystal â'r tir sydd wedi'i ddyrannu, mae Bro Tathan wedi’i dynodi’n ardal gyflogaeth bresennol, a fydd yn galluogi i ragor o gyfleoedd defnyddiau cyflogaeth gael eu datblygu dros y tymor hwy.




Ffigur 21: Briff Datblygu Bro Tathan Y Porth (Gorffennaf 2020)

6.143. **Meddiannir tir i'r de o Gyffordd 34, yr M4** gan Renishaw PLC, a brynodd y safle yn 2011. Mae ei safle strategol ger traffordd yr M4 yn rhoi cyfle i Fro Morgannwg ddatblygu busnesau diwydiannol a logisteg ar raddfa strategol. Rhoddwyd caniatâd cynllunio amlinellol yn 2016 ar gyfer hyd at 151,060 metr sgwâr o ddefnyddiau Dosbarth B1, B2 a B8; Gwesty/Canolfan Hyfforddi Preswyl (Dosbarth C1/C2); a hyd at 1,300 metr sgwâr o ddefnyddiau ategol o fewn Dosbarthiadau A1, A2, A3; ochr yn ochr â 30.5 hectar o seilwaith gwyrdd. Mae'r cynigion (Ffigur 22) yn cynnwys ehangu gweithgynhyrchu presennol Renishaw yn y 40,000 metr sgwâr o warysau (2019/01421/RES, a gymeradwywyd ym mis Mai 2021), a pharc busnes 6.64 ha a fydd yn cyfrannu at ddiwallu anghenion cyflogaeth lleol sydd wedi’u nodi (SP13.8).




**Ffigur 22: Defnydd Tir y Dyfodol tir i'r de o gyffordd 34, M4 Ffynhonnell: Cais cynllunio 2019/01421/RES**

## Dyraniadau Cyflogaeth Lleol

6.144. Mae dyraniadau cyflogaeth lleol yn cynnwys 28.85 hectar (net) arall o dir ar gyfer defnyddiau B1, B2 a B8 ac fe'u dyrennir i sicrhau bod ystod a dewis priodol o dir ar gael i gefnogi twf economaidd lleol. Yn gyffredinol, mae'r safleoedd hyn wedi'u lleoli o fewn ardaloedd cyflogaeth presennol neu'n gyfagos sy'n cefnogi amrywiaeth o ddefnyddiau cyflogaeth, ac yn darparu cyfleoedd i fentrau bach lleol

a busnesau newydd, sy'n galluogi i fusnesau sefydledig ehangu ac maent yn feysydd deniadol ar gyfer buddsoddiad busnesau lleol.

6.145. Mae cynnal a chadw banc tir o safleoedd, yn enwedig lle gellir darparu ar gyfer sectorau twf, yn hanfodol i lwyddiant mentrau a buddsoddiad datblygiad economaidd yr ardal. Felly, ni chaniateir i gynigion ar gyfer defnyddiau amgen ar y dyraniadau safle cyflogaeth strategol a lleol a adnabuwyd ym Mholisi SP13 at ddibenion nad ydynt yn rhai cyflogaeth ddiogelu eu statws fel safleoedd cyflogaeth pwysig.

### Ardaloedd Cyfle Adfywio Cyflogaeth

6.146. Mae Polisi SP13 yn dynodi dwy Ardal Cyfle Adfywio Cyflogaeth yng nghyn Orsaf Bŵer Aberddawan a Phorthladd Gweithredol Dociau'r Barri, y mae'r cynllun yn eu hystyried yn ardaloedd pwysig ar gyfer cefnogi amcanion y CDLl ar gyfer Newid Hinsawdd a gwneud economi'r Fro yn fwy Gwyrdd, gan hwyluso'r twf mewn cynhyrchu a busnesau ynni adnewyddadwy a charbon isel.

6.147. Mae **Gorsaf Bŵer Aberddawan** wedi'i chaffael gan Brifddinas-Ranbarth Caerdydd (CCR) yn dilyn buddsoddiad o £38.4 miliwn a bydd yr hen orsaf bŵer yn cael ei thrawsnewid yn Barc Ynni Gwyrdd, a allai gynnwys:

- Cynhyrchu prosiectau ynni adnewyddadwy a gwyrdd.
- Cyfleuster storio batri i gefnogi'r prosiectau ynni gwyrdd.
- Clwstwr gweithgynhyrchu di-garbon, gan gynnwys cyfleusterau cynhyrchu hydrogen gwyrdd.
- Canolfan arloesi ynni gwyrdd i hyrwyddo arloesedd, twf, gwybodaeth a rhyngweithio cymunedol â dyfodol di-garbon Cymru, a
- Parc ecoleg bioamrywiaeth a fydd yn cynnwys canolfan ymwelwyr, sy'n darparu cyfleusterau i'r gymuned leol.

6.148. Mae Uwchgynllun yn cael ei baratoi ar hyn o bryd gan CCR Energy i lywio'r datblygiad yn y dyfodol. Bydd cam cyntaf yr ailddatblygiad yn golygu dymchwel yr orsaf bŵer a gwaith adfer y disgwylir iddo ddechrau yn 2023 a bydd yn cymryd sawl blwyddyn i'w gwblhau.



**Ffigur 23: Cynllun Cysyniadol Canolbwynt Ynni Gwyrdd Aberddawan**

6.149. Mae cyfleusterau porthladdoedd yn seilwaith rhanbarthol pwysig ac yn ased economaidd yn rhanbarth De-ddwyrain Cymru ac maent yn cael eu cydnabod felly yng Nghymru'r Dyfodol sy'n nodi "*dylai Cynlluniau Datblygu Lleol ystyried rôl y porthladdoedd yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol a sefydlu fframweithiau i gefnogi'r porthladdoedd hyn ac, o bosibl, helpu i'w hehangu"*. Yn y Fro, mae Dociau'r Barri yn ffynhonnell werthfawr o gyflogaeth leol ac mae wedi bod yn ganolbwynt adfywio i'r Barri gydag ailddatblygu Glannau'r Barri ar gyfer tai, manwerthu a hamdden.

6.150. Mae **Doc Rhif 2**, **Dociau'r Barri**, sy'n eiddo i Associate British Ports (ABP) yn cynrychioli'r ail gam wrth adfywio Dociau'r Barri a fydd yn canolbwyntio ar wella rôl economaidd y dociau ar gyfer y dyfodol. Mae dynodio'r ardal yn Ardal Adfywio Cyflogaeth yn adlewyrchu gweledigaeth a dyheadau ABP a gynhwysir yn ei strategaeth hirdymor *Future Ports: Barry*, sy'n nodi ei hardaloedd cyflogaeth a'i phorthladdoedd gweithredol yn Doc Rhif 2 hyd at 2035, sy'n canolbwyntio ar ddatblygu'r porthladd o amgylch sectorau carbon isel a di-garbon ochr yn ochr â defnyddiau diwydiannol morol traddodiadol.




**Ffigur 24: Future Ports: Barry Docks Land Use Proposals**
**Ffynhonnell: https://www.abports.co.uk/media/up4dk5s3/20220726-abp-barry-port-vision-v1-1-web-format.pdf**

6.151. Ymhlith y prosiectau posibl sydd wedi’u nodi o fewn y cynigion y mae ailddatblygu ardaloedd diwydiannol presennol o fewn y porthladd gweithredol ar gyfer clwstwr ynni carbon isel gan gynnwys cynhyrchu ynni gwyrdd, cyfleusterau dal carbon a chynhyrchu hydrogen, yn ogystal â gwella mynediad i'r ffyrdd a'r rheilffyrdd. Er mwyn ymaddasu i newid hinsawdd, bydd angen i ddatblygiadau newydd yn y porthladd hefyd gynnwys mesurau angenrheidiol i fynd i'r afael â pherygl llifogydd.

6.152. Y gobaith yw y bydd y twf yn y sector ynni adnewyddadwy yn Aberddawan a Dociau'r Barri yn creu swyddi medrus newydd ac yn rhoi hwb sylweddol i'r economi. Yn unol â hynny, mae Polisi SP13 yn cefnogi twf y sectorau hyn ochr yn ochr â chyflogaeth B1, B2 a B8.

## TWRISTIAETH

6.153. Mae lleoliad arfordirol a gwledig y Fro, ynghyd â'i diwylliant cyfoethog a'i hamgylchedd hanesyddol yn asedau gwerthfawr ar gyfer twristiaeth a hamdden. Mae atyniadau fel Arfordir Treftadaeth Morgannwg, Bae Whitmore, Ynys y Barri a Phenarth, yn ogystal â'i lleoliad yn rhanbarth De-ddwyrain Cymru yn gwneud Bro Morgannwg yn gyrchfan ddeniadol i ymwelwyr dydd, yn ogystal â'r rhai sy'n dymuno aros yn hirach.

6.154. Mae asedau twristiaeth y Fro yn darparu ffynhonnell werthfawr o gyflogaeth leol, gan gyflogi dros 2,000 o bobl a chynhyrchu tua £203 miliwn o wariant ymwelwyr yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol.

**SP14: TWRISTIAETH GYNALIADWY**

Ffefrir cynigion sy'n hyrwyddo Bro Morgannwg fel cyrchfan ar gyfer Twristiaeth Gynaliadwy. Dylai cynigion datblygu gyfrannu at ddelwedd gadarnhaol y Fro fel cyrchfan ddeniadol a chynaliadwy i dwristiaid drwy:

A. Hyrwyddo cyfleoedd i ymwelwyr gymryd rhan mewn mathau o dwristiaeth sy’n cael effaith isel ar yr amgylchedd.
B. Diogelu a gwella atyniadau twristiaeth a chyfleusterau hamdden presennol;
C. Gwella’r economi ymweld, denu buddsoddiad lleol, darparu cyfleoedd cyflogaeth lleol a chyfrannu at arallgyfeirio gwledig.
D. Cydnabod a diogelu hunaniaeth leol unigryw'r Fro, amgylchedd adeiledig a naturiol fel asedau i dwristiaeth;
E. Darparu amrywiaeth o gyfleoedd i ymwelwyr, yn enwedig trwy gydol y flwyddyn a thrwy amrywiaeth o lety ymwelwyr sydd wedi'u lleoli'n briodol.

6.155. Mae Polisi SP14 yn ceisio cefnogi'r ddarpariaeth o gyfleusterau twristiaeth newydd a gwell, gan bwysleisio pwysigrwydd gwneud hyn mewn modd cynaliadwy, fel bod yr asedau twristiaeth naturiol ac adeiledig yn cael eu cynnal er mwynhad cenedlaethau'r dyfodol. Bydd y CDLl yn darparu fframwaith polisi sy'n annog buddsoddiad newydd mewn cyfleusterau twristiaeth a hamdden sydd wedi'u lleoli'n briodol, ac sy'n ceisio diogelu a gwella cyfleusterau presennol, er budd preswylwyr, ymwelwyr a'r economi leol.

## NEWID HINSAWDD

**SP15: LLINIARU AC YMADDASU I’R NEWID HINSAWDD**

Rhaid i bob cynnig datblygu ymateb i heriau newid hinsawdd trwy liniaru ei achosion ac ymaddasu i'w effeithiau.

Bydd achosion newid hinsawdd yn cael eu lliniaru drwy sicrhau cynigion datblygu newydd:

A. Cyfrannu at ddatgarboneiddio yn eu lleoliad, eu dyluniad, eu hadeiladu, eu cymysgedd o  ddefnyddiau a, thrwy ddilyn egwyddorion creu lleoedd.
B. Hyrwyddo egwyddorion economi gylchol drwy flaenoriaethu ailddefnyddio adeiladau presennol ac adeiladu adeiladau mwy addasadwy a gwydn.
C. Manteisio i'r eithaf ar effeithlonrwydd adnoddau a thechnegau adeiladu cynaliadwy, gan gynnwys dod o hyd i ddeunyddiau yn lleol.

D. Cynnwys egwyddorion dylunio adeiladau cynaliadwy, gan ymgorffori technegau adeiladu goddefol lle bo hynny'n bosibl.
E. Manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd ar gyfer dal carbon o seilwaith gwyrdd.
F. Manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd ar gyfer datblygu ynni adnewyddadwy, yn benodol mewn ardaloedd chwilio lleol, i ddarparu 70% o'r galw trydan a ragwelir erbyn 2036.
G. Hyrwyddo optimeiddio opsiynau cyflenwi a dosbarthu ynni, gan gynnwys darparu rhwydweithiau gwres ardal.

Bydd cynigion datblygu newydd yn ymaddasu i effeithiau newid hinsawdd drwy:

H. Gael eu cynllunio i ymateb i hinsawdd gynhesach.
I. Hyrwyddo cysgodi ac oeri trefol trwy ddarparu seilwaith gwyrdd.
J. Gwneud y mwyaf o effeithlonrwydd dŵr a lleihau'r effeithiau andwyol ar ansawdd yr adnodd dŵr.
K. Ailgyfeirio datblygiad i ffwrdd o ardaloedd lle mae perygl llifogydd a sicrhau bod datblygiad newydd yn rheoli dŵr wyneb ffo yn briodol trwy ddefnyddio systemau draenio cynaliadwy ac atebion sy'n seiliedig ar natur.
L. Ailgyfeirio datblygiad i ffwrdd o ardaloedd o erydu arfordirol.

Rhaid i bob cais nodi sut y maent yn lliniaru achosion newid hinsawdd ac ymaddasu i'w effeithiau.

Bydd yn ofynnol i Ddatblygiadau Mawr gael Adroddiadau Ynni hefyd i arddangos cydymffurfiaeth â maen prawf D. Lle cynigir dymchwel adeilad presennol yn hytrach na'i ailddefnyddio, bydd angen Asesiadau Carbon Bywyd Cyfan i sicrhau cydymffurfiaeth â maen prawf B.

6.156. Ni all y broses gynllunio ar ei phen ei hun ymateb i oblygiadau newid hinsawdd a'r Argyfwng Hinsawdd sydd wedi'i ddatgan, ac mae rôl i'w chwarae i bob sector o gymdeithas. Fodd bynnag, mae'n hanfodol bod canlyniadau'r broses yn ymateb i'r goblygiadau hyn lle bo hynny'n bosibl. Mae Polisi SP14 yn ceisio cyflawni hyn drwy sicrhau bod datblygiad newydd yn lliniaru achosion newid hinsawdd ac yn ymaddasu i'w oblygiadau. Yn benodol, bydd yr achosion yn cael eu lliniaru trwy ystyried datblygiad newydd yn sensitif trwy brosesau creu lleoedd a cheisio lleihau allyriadau yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol. Addasir i'r effeithiau drwy ystyried goblygiadau hinsawdd gynhesach. Bydd hyn yn gofyn am ystyriaeth benodol wrth ddylunio cynlluniau i ystyried a ydynt yn briodol o ystyried mwy o amrywiadau mewn patrymau tywydd, gan gynnwys digwyddiadau tywydd mwy eithafol, yn ogystal â lefelau'r môr yn codi.

6.157. Mae Polisi SP14 yn cwmpasu'r prif feysydd lle gall y broses gynllunio liniaru'r achosion ac ymaddasu i effeithiau newid hinsawdd. Fodd bynnag, mae'r ymatebion i'r goblygiadau'n eang ac yn cwmpasu sawl maes cynllunio, er enghraifft, seilwaith gwyrdd, trafnidiaeth gynaliadwy, a chreu lleoedd. Felly, er bod SP14 yn ymdrin â materion allweddol ar lefel uchel, darperir rhagor o fanylion trwy'r

Polisïau Strategol i sicrhau bod y lefel briodol o sylw yn cael ei roi i faterion sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd. Mae hyn yn benodol wir mewn perthynas â hyrwyddo newid moddol a lleoli datblygiadau newydd mewn lleoliadau a fydd yn lleihau'r angen i deithio, sy'n rhan annatod o gyflawni'r Strategaeth a lleihau allyriadau o drafnidiaeth. Mae'r materion yr ymdrinnir â hwy yn benodol gan Bolisi 14 yn cael eu hymestyn isod.

6.158. Bydd yn rhaid i ddatblygiad newydd ystyried a oes cyfleoedd i gyrraedd safonau adeiladu cynaliadwy uwch, gan gynnwys dim carbon, er mwyn ymateb i oblygiadau newid hinsawdd. Mae hyn yn golygu:

- **Lliniaru -** Sicrhau bod dyluniad ac adeiladwaith adeiladau newydd yn lleihau allyriadau carbon, gan gynnwys trwy gymryd camau i leihau'r defnydd o ynni; ac
- **Ymaddasu:** Sicrhau bod adeiladau'n wydn i newidiadau a ragwelir i batrymau tywydd, gan gynnwys digwyddiadau tywydd mwy eithafol. Byddai hyn yn cynnwys gwytnwch llifogydd ac ystyried gorboethi.

6.159. Mae Maen Prawf B yn blaenoriaethu ailddefnyddio adeiladau presennol er mwyn cyfrif am eu carbon corfforedig. Fodd bynnag, cydnabyddir nad dyma'r dull mwyaf effeithiol o gyfyngu ar allyriadau carbon bob amser, yn enwedig lle gallai adeilad newydd fod â rhinweddau cynaliadwyedd sylweddol uwch. Felly, gall Asesiadau Carbon Bywyd Cyfan[8] gyfiawnhau pryd y gall fod yn fwy priodol adeiladu adeilad newydd yn seiliedig ar dystiolaeth lle gellir allyrru llai o garbon trwy adeiladu adeilad newydd.

6.160. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn gwneud gwaith dichonoldeb i ystyried goblygiadau ei gwneud yn ofynnol i adeiladau newydd fod yn ddi-garbon wrth eu hadeiladu a'u gweithredu. Unwaith y bydd hyn wedi'i gwblhau, bydd y Cyngor yn gallu ystyried yn llawn effeithiau hyfywedd economaidd ei gwneud yn ofynnol i adeiladau newydd fod yn ddi-garbon wrth eu hadeiladu a'u gweithredu. Yn unol â pharagraff 5.8.5 o Bolisi Cynllunio Cymru, byddai'r gwaith hwn yn darparu tystiolaeth gadarn i'r Cyngor fyddai'n ein galluogi i gyflwyno safonau sy'n uwch na'r safonau cenedlaethol a nodir yn Rheoliadau Adeiladu. Pe byddai'r ymyrraeth hon yn cael ei hystyried yn ymarferol, byddai Polisi SP14 yn cael ei ddiweddaru yn y cyfnod Adnau i adlewyrchu gofynion di-garbon, a byddai polisi ategol rhagnodol yn cael ei gynhyrchu.

6.161. Mae Polisi 17 Cymru'r Dyfodol yn nodi bod angen rhoi pwysau sylweddol ar yr angen i gynhyrchu 70% o drydan Cymru erbyn 2030 o ffynonellau adnewyddadwy, yn ogystal ag ymrwymiadau rhyngwladol eraill. Mae asesiad ynni adnewyddadwy wedi'i gwblhau i nodi sut y gall Bro Morgannwg gyfrannu at gyflawni hyn. Mae'r

[8] Asesiad carbon oes cyfan Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig ar gyfer yr amgylchedd adeiledig: sut, pam a beth nesaf? | Cyfnodolion | Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig

asesiad ynni adnewyddadwy yn cynnwys nodi meysydd chwilio penodol ym Mro Morgannwg, lle mae'r datblygiad ynni adnewyddadwy yn cael ei gyfyngu leiaf. Bydd polisi manwl pellach yn cyfeirio'n uniongyrchol at fanylion y meysydd penodol hyn. Ar ôl nodi'r ardaloedd hyn ac asesu potensial adnoddau Bro Morgannwg, lluniwyd targed heriol ond cyraeddadwy ar gyfer cynhyrchu ynni trydan adnewyddadwy, fel y nodir yn nhestun y polisi. Mae dichonoldeb rhwydwaith gwres yn y Barri hefyd wedi'i ystyried, ac mae darparu hyn, yn ogystal â ffynonellau eraill o ynni gwres adnewyddadwy, yn cael ei hwyluso gan Bolisi SP15. Ochr yn ochr â phartneriaid lleol a rhanbarthol mae Cynllun Ynni Ardal Leol yn cael ei gynhyrchu ar gyfer Bro Morgannwg. Bydd hyn yn nodi llwybrau ar gyfer datgarboneiddio ein system ynni yn unol â thargedau cenedlaethol. Bydd y dystiolaeth a gynhyrchir o'r gwaith hwn yn llywio'r Cynllun ar Adnau ac yn cyfrannu at bolisi ynddo.

6.162. Mae ardaloedd o fewn y Fro mewn perygl o lifogydd o'r môr a'r afonydd, ac mae dadansoddiad Canlyniadau Llifogydd Strategol wedi'i gynnal mewn cydweithrediad â'r 10 Awdurdod Lleol arall yn ne-ddwyrain Cymru i ystyried hyn. Bydd yn rhaid i gynigion datblygu sicrhau cydymffurfiaeth â TAN15, er mwyn sicrhau nad yw datblygiad yn digwydd mewn lleoliadau sydd â risg annerbyniol o lifogydd. Dylid defnyddio'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio (FMfP) fel ystyriaeth berthnasol i ystyried perygl llifogydd, a disgwylir i TAN15 wedi'i ddiweddaru gael ei gyhoeddi i gyd-fynd â'r FMfP ddiwedd 2023.

6.163. Yn bennaf, mae'r perygl llifogydd o afonydd wedi'i gyfyngu i ardaloedd gwledig. Fodd bynnag, mae perygl llifogydd yn bodoli i raddau gwahanol yn y Bont-faen, Dinas Powys a dwyrain y Barri. Dim ond rhai o'r ardaloedd hyn sy'n elwa o fod o fewn Parthau Amddiffyn TAN15, ac mae ardaloedd eraill heb unrhyw amddiffyniad sylweddol. O'r môr, lle mae perygl llifogydd yn bodoli mewn ardaloedd preswyl, sef Marina'r Barri a Phenarth, mae'r rhain wedi'u cynnwys ym Mharthau Amddiffyn TAN15. Mae Dociau'r Barri a Gorsaf Bŵer Aberddawan mewn perygl o lifogydd llanwol ac nid ydynt wedi'u lleoli o fewn Parthau Amddiffyn TAN15. Felly, bydd yn rhaid rhoi ystyriaeth bellach i oblygiadau llifogydd yn y lleoliadau hyn er mwyn i'r datblygiad fod yn dderbyniol.

6.164. Mae arfordir deheuol y Fro yn agored i raddau amrywiol o erydu arfordirol. O ystyried hyn, argymhellir dulliau polisi amrywiol yn y Cynlluniau Rheoli Traethlin perthnasol[9][10] yn dibynnu ar a yw arfordir yn ffinio â thir gwledig neu drefol, a chyd-destun y risg. Lle cynigir datblygiad yn agos at y Map Risg Erydiad[11], Cynlluniau Rheoli Traethlin perthnasol[12] a'r Datganiad Ardal[12] ar gyfer Canol De Cymru, dylid osgoi datblygiad lle mae perygl iddo gael ei effeithio gan erydiad arfordirol dros ei oes.

[9] Grŵp Peirianneg Arfordirol Abertawe a Bae Caerfyrddin (southwalescoastalgroup.cymru)
[10] Prif Ddogfen SMP2 – Grŵp Arfordirol Aber Afon Hafren
[11] Map Risg Erydu Arfordirol (cyfoethnaturiol.cymru)
[12] Cyfoeth Naturiol Cymru / Datganiad Ardal Canol De Cymru

6.165. Fel y nodir ym mharagraff 5.8.4 o Bolisi Cynllunio Cymru, dylai Adroddiad Ynni ‘gynnwys argymhellion i'r datblygwr sy'n ymwneud ag effeithlonrwydd ynni a thechnolegau ynni adnewyddadwy priodol y gellid eu hymgorffori yn y datblygiad.' Dylai ceisiadau yn y dyfodol hefyd gynnwys yr ymatebion i'r adroddiadau hyn gan y datblygwr. Bydd paratoi Adroddiadau Ynni ar gyfer datblygiadau mawr yn helpu i nodi sut mae datblygiadau arfaethedig yn cydymffurfio â gofynion Polisi SP15 ac yn ymateb i oblygiadau newid hinsawdd.

## RHEOLI GWASTRAFF CYNALIADWY

6.166. Mae'r prif ffrydiau gwastraff sy'n codi yn y fwrdeistref yn cynnwys gwastraff a gesglir gan awdurdod trefol neu leol (gan gynnwys aelwydydd); masnachol a diwydiannol; adeiladu, cloddio a dymchwel; a pheryglus. Mae rheoli gwastraff wedi newid yn sylweddol dros yr ugain mlynedd diwethaf yng Nghymru gyda gostyngiad mawr yn y gwastraff sy’n cael ei waredu i safleoedd tirlenwi a chynnydd mewn ailgylchu.

**SP16: RHEOLI GWASTRAFF CYNALIADWY**

Bydd rheoli gwastraff cynaliadwy yn cael ei hwyluso gan:

A. Hyrwyddo a chefnogi cyfleusterau, mesurau a strategaethau rheoli gwastraff cynaliadwy ychwanegol yn unol â'r hierarchaeth gwastraff ac egwyddorion gosodiad a hunangynhaliaeth briodol agosaf.

B. Cefnogi'r economi gylchol drwy annog cyn lleied â phosibl o gynhyrchu gwastraff a'r defnydd o ddeunyddiau ailddefnyddio ac ailgylchu yng nghamau dylunio, adeiladu a dymchwel datblygu.

C. Sicrhau bod darpariaeth yn cael ei gwneud ar gyfer rheoli, didoli, storio a chasglu gwastraff yn gynaliadwy ym mhob datblygiad newydd.

Ystyrir bod y lleoliadau canlynol yn addas ar gyfer datblygu datrysiadau rheoli gwastraff mewn adeiladu:

- Ystâd Fasnachu Iwerydd.
- Porthladd Gweithredol Dociau'r Barri;
- Ystâd Fasnachu Llandŵ.
- Ar safleoedd diwydiannol B2 a B8 sydd wedi'u dyrannu ac sy'n bodoli eisoes.

Bydd darparu cyfleusterau rheoli gwastraff cynaliadwy awyr agored ar safleoedd diwydiannol Dosbarth B2 neu B8 priodol, safleoedd gweithredol sy'n gweithio mwynau, tir neu adeiladau adfeiliedig neu o fewn cyfadeiladau fferm presennol neu gerllaw hefyd

yn dderbyniol lle nad ydynt yn gwrthdaro â defnyddiau cyfagos presennol neu arfaethedig.

6.167. Yn unol â'r strategaeth gwastraff genedlaethol 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff', bydd y Cyngor yn ystyried cynigion yn unol â 'hierarchaeth gwastraff,' sy'n rhestru opsiynau atal a rheoli gwastraff yn seiliedig ar yr hyn sydd orau i'r amgylchedd. Y flaenoriaeth uchaf yn yr hierarchaeth yw atal gwastraff yn y lle cyntaf. Yn dilyn hyn, os caiff gwastraff ei greu, dylid rhoi blaenoriaeth yn gyntaf i'w baratoi i'w ailddefnyddio, yna ailgylchu, yna adferiad arall (e.e. ynni), ac yn olaf gwaredu (e.e. tirlenwi neu losgi heb adfer ynni).

6.168. Mae Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 21 ar Wastraff yn nodi y dylid ystyried sut y mae cynigion ar gyfer gwastraff a gwmpesir gan Erthygl 16 o'r Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff ddiwygiedig yn cyd-fynd â'r egwyddor 'gosodiad priodol agosaf'. Mae'r dull hwn yn ei gwneud yn ofynnol i wastraff gael ei waredu neu ei adfer mewn cyfleusterau priodol yn agos at ble mae'n codi i leihau'r effeithiau amgylcheddol niweidiol sy'n gysylltiedig â chludo gwastraff. Mae darparu rhwydwaith integredig a digonol o gyfleusterau rheoli gwastraff yn y Fro a'r rhanbarth ehangach yn hanfodol i hyn ac i sicrhau hunangynhaliaeth.

6.169. Rhaid rhoi ystyriaeth hefyd i'r economi gylchol o fewn cyd-destun datblygiad newydd, sy'n anelu at gadw defnyddiau, cynhyrchion a chydrannau mewn defnydd cyhyd ag y bo modd. Mae'r dull hwn yn hwyluso arbedion cost ac yn cyd-fynd â'r hierarchaeth gwastraff trwy ailddefnyddio, atgyweirio ac ailgylchu deunyddiau.

6.170. Mae Cymru'r Dyfodol yn nodi gwastraff fel maes polisi sy'n gofyn am ddull gweithredu cydgysylltiedig fel rhan o'r Cynllun Datblygu Strategol (SDP) a rhoddir ystyriaeth i unrhyw dystiolaeth ranbarthol sy'n dod i'r amlwg fel rhan o'r broses o baratoi'r cynllun. Mae TAN 21 yn cydnabod bod y Cynllun Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd yn darparu asesiad strategol o wastraff, ond bydd angen monitro ar sail ranbarthol. Mae'r Adroddiad Monitro Cynllunio Gwastraff diweddaraf ar gyfer De-ddwyrain Cymru (Ebrill 2016) yn dod i'r casgliad nad oes angen capasiti tirlenwi ychwanegol yn y rhanbarth ar hyn o bryd. Yn ogystal, mae'r adroddiad yn cynghori y dylid asesu unrhyw gynigion newydd ar gyfer trin gwastraff preswyl pellach yn ofalus i sicrhau nad yw gor-ddarpariaeth yn digwydd yn y rhanbarth. O'r herwydd, nid oes angen penodol wedi'i nodi am gyfleusterau rheoli gwastraff newydd ar lefel ranbarthol ar hyn o bryd.

6.171. Fel yr Awdurdod Cynllunio Gwastraff, mae gan y Cyngor gyfrifoldeb statudol dros gasglu a gwaredu gwastraff trefol (aelwyd) ac am reoli cynllunio defnydd tir dros reoli gwastraff. Mae'r Fro yn aelod o Brosiect Gwyrdd, partneriaeth gyda phedwar awdurdod lleol arall (Caerffili, Caerdydd, Sir Fynwy a Chasnewydd) sydd â chontract hirdymor gyda Viridor Waste Management i drin gwastraff bwrdeistrefol gweddilliol yn y cyfleuster ynni o wastraff Trident Park yng Nghaerdydd. Mae dwy Ganolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref (HWRC) yn y Fro wedi'u lleoli yn Ystâd Fasnachu Iwerydd yn y Barri ac yn Ystâd Fasnachu Llandŵ yn Llandŵ.

6.172. Mae Ystadau Masnachu Iwerydd a Llandŵ, yn ogystal â phorthladd gweithredol Dociau'r Barri, yn cael eu hystyried yn lleoliadau priodol ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff mewn adeiladu. Yn Ystâd Masnachu Iwerydd gwelwyd cyfleuster adfer adnoddau yn cael ei ddatblygu'n ddiweddar, yn ogystal â siop ailddefnyddio ar dir ger yr HWRC presennol. Yn unol â Strategaeth Ailgylchu a Rheoli Gwastraff Bro Morgannwg (2022-2032), mae yna gynigion i ddisodli'r HWRC presennol yn Llandŵ gyda chyfleuster modern newydd yn ogystal â datblygu ail siop ailddefnyddio.

6.173. Er mwyn darparu mwy o hyblygrwydd, mae'r polisi hefyd yn nodi safleoedd cyflogaeth 'diwydiannol cyffredinol' Dosbarth B2 a B8 'storio a dosbarthu', fel lleoliadau a allai fod yn addas ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff adeiladu ychwanegol.

6.174. Ar gyfer cyfleusterau awyr agored, mae'r CDLl yn ceisio hwyluso eu darpariaeth drwy'r Polisi trwy nodi lleoliadau addas lle gallai cyfleusterau o'r fath fod yn dderbyniol ac na fyddai'n gwrthdaro â defnyddiau cyfagos.

6.175. Bydd ceisiadau cynllunio ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff yn cael eu hystyried yn erbyn polisi a chanllawiau cynllunio cenedlaethol a pholisïau CDLl perthnasol eraill.

## MWYNAU

6.176. Mae cynllunio cenedlaethol yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol wneud darpariaeth ar gyfer isafswm banc tir o 10 mlynedd ar gyfer cerrig mâl a 7 mlynedd ar gyfer tywod a graean ar y tir drwy gydol 15 mlynedd llawn cyfnod cynllun datblygu, a hyrwyddo rheolaeth gynaliadwy o agregau.

### SP17: DARPARIAETH MWYNAU GYNALIADWY

Bydd yr angen lleol a rhanbarthol am ddarparu cyflenwad parhaus o fwynau yn cael ei gyflawni drwy:

A. Cynnal o leiaf 10 mlynedd o fanc tir o gerrig mâl drwy gydol cyfnod y cynllun.

B. Ffafrio cynigion sy'n hyrwyddo'r defnydd cynaliadwy o fwynau ac yn annog y defnydd o adnoddau eilaidd ac amgen.

C. Diogelu adnoddau hysbys o dywodfaen, calchfaen, tywod a graean (lle mae'r rhain yn digwydd y tu allan i aneddiadau), rhag datblygiad parhaol a fyddai'n eu sterileiddio yn ddiangen neu'n rhwystro eu hechdynnu yn y dyfodol; a

D. Diogelu pennau rheilffordd i ganiatáu ar gyfer cludo mwynau posibl trwy ddulliau cynaliadwy a chyfleusterau glanfa ar gyfer glanio tywod a graean sydd wedi'u carthu o'r môr lle bo hynny'n briodol.

6.177. Cyhoeddwyd yr 2il Adolygiad o Ddatganiad Technegol Rhanbarthol Mwynau ar gyfer ardal De Cymru gan Weithgor Agregau Rhanbarthol De Cymru (SWRAWP) ym mis Medi 2020. Mae Atodiad B o'r RTS yn cynnwys argymhellion ac arweiniad penodol ar gyfer pob Awdurdod Cynllunio Lleol. Diwygiwyd ail adolygiad RTS wedyn gan lythyr eglurhad polisi ym mis Tachwedd 2021, sy'n nodi bod dosraniad Bro Morgannwg yn 17.05 miliwn tunnell o gerrig mâl dros 25 mlynedd. Mae banc tir presennol o 18.73 miliwn tunnell o gerrig mâl (ar 31 Rhagfyr 2016), ac mae pob un ohonynt yn ymwneud â Chalchfaen Carbonifferaidd. Nid oes unrhyw ddosraniad na banc tir ar gyfer tywod a graean a enillwyd o dir. Mae'r adroddiad yn dod i'r casgliad, o ystyried gwarged bychan cronfeydd cerrig mâl a ganiateir ar hyn o bryd a'r diffyg cynhyrchu tywod a graean ym Mro Morgannwg, nid oes angen nodi dyraniadau pellach yn benodol o fewn y CDLl.

6.178. Mae Bro Morgannwg yn rhan o isranbarth Dinas Caerdydd ynghyd â Phen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Caerffili a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae'r datganiad sefyllfa diweddaraf ar gyfer yr is-ranbarth hwn (Gorffennaf 2022) yn nodi, er bod y rhan fwyaf o awdurdodau yn y rhanbarth, gan gynnwys Bro Morgannwg, yn gallu bodloni eu dosraniad ar gyfer cerrig mâl, mae diffyg mewn dau awdurdod. Ar hyn o bryd, mae opsiynau yn cael eu hystyried i fynd i'r afael â hyn, ond mae'r RTS2 yn nodi, lle na ellir mynd i'r afael â'r diffyg trwy ddyraniadau neu ganiatâd newydd, y byddai angen cydweithio ag awdurdodau cyfagos yn yr un is-ranbarth er mwyn trosglwyddo'r ddarpariaeth ofynnol i ACLlau eraill. Bydd y sefyllfa hon yn cael ei diweddaru yn y Cynllun wedi’i Adneuo.

6.179. Er nad yw'r Lanfa yn Nociau'r Barri wedi cael ei defnyddio i lanio tywod a graean y môr ers 2005 cydnabyddir bod hwn yn llwybr cyflenwi posibl o dywod ac adnoddau graean i'r rhanbarth. Felly diogelir y safle glanfa ar y Map Cynigion a bydd angen i gynigion yn y dyfodol ystyried yr effaith bosibl ar lanio tywod morol a graean yn Nociau'r Barri. Nid yw diogelu'r lanfa yn atal ei defnydd i lanio nwyddau eraill ac nid yw'n effeithio ar hawliau datblygu a ganiateir. Dylid diogelu pennau rheilffordd hefyd er mwyn darparu ystod lawn o opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy.

## LLEOEDD UNIGRYW A NATURIOL

### SEILWAITH GWYRDD

6.180. Mae seilwaith gwyrdd yn rhwydwaith o fannau gwyrdd amlswyddogaethol, trefol a gwledig, a all ddarparu ystod eang o fanteision amgylcheddol ac ansawdd bywyd i gymunedau lleol. Mae gan seilwaith gwyrdd rôl i'w chwarae a allai fod yn bwysig wrth liniaru effeithiau digwyddiadau tywydd eithafol, yn enwedig tonnau gwres estynedig. Yn ogystal, mae seilwaith gwyrdd yn helpu i gefnogi bioamrywiaeth ac yn gwneud cyfraniad pwysig i ansawdd yr amgylchedd. Mae mynediad i fannau gwyrdd hardd ac wedi'u cynnal a'u cadw yn dda, fel parciau a gerddi, parciau gwledig ac ardaloedd bywyd gwyllt, yn cefnogi iechyd a lles corfforol a meddyliol.

**SP18: SEILWAITH GWYRDD**

Bydd cynigion datblygu yn ymgorffori mesurau sy'n diogelu ac yn gwella darpariaeth seilwaith gwyrdd o ansawdd uchel a gwneud y mwyaf o'i ymarferoldeb. Er mwyn cyflawni hyn, mae'n rhaid i gynigion datblygu:

A. Ymgorffori'r seilwaith gwyrdd presennol yn strategol mewn dylunio, gan fanteisio ar gyfleoedd sy'n cael eu cyflwyno gan asedau presennol a darpar asedau, trwy ddilyn egwyddorion creu lleoedd.
B. Diogelu a gwella cysylltedd rhwng asedau seilwaith gwyrdd.
C. Cyflawni budd net bioamrywiaeth.
D. Diogelu tirweddau sydd wedi'u dynodi am eu harwyddocâd daearegol, naturiol, gweledol, hanesyddol neu ddiwylliannol.
E. Defnyddio atebion sy'n seiliedig ar natur, gan gynnwys yr Adeiladu gyda Safonau Natur, lle bo hynny'n bosibl.
F. Darparu man agored amwynder, sy'n cyflawni ystod eang o rolau.
G. Hwyluso amgylcheddau sy'n hyrwyddo iechyd a lles meddyliol a chorfforol.
H. Hyrwyddo cysgodi ac oeri trefol, systemau draenio cynaliadwy, a rhandiroedd a pherllannau cymunedol.

6.181. Mae'r amrywiaeth eang o dirweddau naturiol, cynefinoedd bioamrywiaeth, mannau gwyrdd, ardaloedd arfordirol a gwledig ochr yn ochr â'r rhwydwaith o lwybrau troed a llwybrau ceffylau yn yr ardal yn cael ei ystyried yn un o'r rhesymau pam bod y Fro yn lle mor ddeniadol i fyw ac ymweld ag ef.

6.182. Mae sicrhau gwella bioamrywiaeth, gwytnwch ecosystemau, a sicrhau'r ddarpariaeth seilwaith gwyrdd fwyaf posibl yn hanfodol wrth ymateb i'r Argyfyngau Hinsawdd a Natur sydd wedi'u datgan. Mae Polisi SP17 yn ceisio cyflawni hyn drwy nodi lle dylai cynigion datblygu amddiffyn, gwella a chynnal seilwaith gwyrdd presennol. Mae hefyd yn ceisio sicrhau bod darpariaeth seilwaith gwyrdd yn gyfannol ac yn cyflawni manteision ystod eang o swyddogaethau.

6.183. Mae Asesiad Seilwaith Gwyrdd wedi'i gwblhau i hwyluso dull cadarn a rhagweithiol o wella bioamrywiaeth, cynyddu gwytnwch ecolegol a gwella canlyniadau llesiant. Mae hwn yn nodi cyfleoedd strategol allweddol lle mae adfer, cynnal a chadw, creu a chysylltu nodweddion a swyddogaethau gwyrdd yn sicrhau'r buddion mwyaf sylweddol. Bydd yr Asesiad Seilwaith Gwyrdd yn llywio prif gynllunio safleoedd sydd wedi'u dyrannu yn y Cynllun Datblygu Lleol Newydd, fel rhan o greu'r safleoedd hyn.

6.184. Dylid darllen y polisi hwn ochr yn ochr â SP19 ar Fioamrywiaeth a Gwytnwch Ecosystemau, sy'n ceisio amddiffyn a hyrwyddo cysylltedd. Cyflawnir hyn drwy gadw coridorau bywyd gwyllt presennol a hwyluso cysylltiadau newydd trwy fanteisio ar gyfleoedd safle-benodol. Wrth geisio canfod cyfleoedd, dylid ystyried

safle a'i gyd-destun cyfagos. Dylid ystyried y safle hefyd yng nghyd-destun yr Asesiad Seilwaith Gwyrdd.

6.185. Mae darparu mannau gwyrdd amlswyddogaethol yn rhan annatod o ddarparu seilwaith gwyrdd cyfannol a bwriad SP17 a'r Asesiad Seilwaith Gwyrdd. Dylai darparu seilwaith gwyrdd amlswyddogaethol greu mannau cydlynol sydd: yn caniatáu hamdden ac ymlacio; hyrwyddo iechyd a lles corfforol a meddyliol; hwyluso cyfleoedd dysgu; cefnogi cysylltedd a chynefinoedd bywyd gwyllt; rheoli adnoddau dŵr; lliniaru ac ymaddasu i newid hinsawdd; gwella cynhyrchu bwyd lleol; a chefnogi treftadaeth a diwylliant. Gall hefyd chwarae rhan fawr wrth ddenu twf a buddsoddiad economaidd, cynyddu manteision tir ac eiddo, hyrwyddo twristiaeth, a chynyddu cynhyrchiant busnes.

6.186. Gall datrysiadau sy'n seiliedig ar natur fod yn offeryn gwerthfawr wrth greu datblygiadau cynaliadwy a gwydn. Gall ymgorffori nodweddion megis SUDS, plannu coed a mannau gwyrdd naturiol hygyrch, wneud cyfraniad sylweddol at ddarparu seilwaith gwyrdd, cefnogi bioamrywiaeth, lliniaru effeithiau newid hinsawdd a chyfrannu at greu cymunedau mwy byw a chynaliadwy. Mae'r Building with Nature Standards (BwN 2.0) yn darparu fframwaith o Safonau arfer gorau sydd gyda'i gilydd yn diffinio meincnod seilwaith gwyrdd da a sut i'w gyflawni. Mae'r safonau hyn yn feincnod o arfer da a dylid eu cymhwyso i bob datblygiad fel rhestr wirio ansawdd, mewn ffordd sy'n gymesur â natur a graddfa'r datblygiad arfaethedig.

6.187. Wrth ddarparu seilwaith gwyrdd newydd a gwell mae'n hanfodol cydlynu'r ddarpariaeth seilwaith fel bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol. Mae Cynllun Seilwaith Gwyrdd y Cyngor yn nodi'r asedau seilwaith gwyrdd a'r gwahanol bartneriaid sy'n ymwneud â darpariaeth mannau gwyrdd. Mae'n cynnwys gweledigaeth, tystiolaeth gefndirol, argymhellion a chynllun gweithredu.

6.188. Bydd datblygiad yn cael ei gyfeirio oddi wrth ardaloedd y nodwyd eu bod â gwerth ecolegol uchel, a bydd cyfyngiadau ar ble y gellir caniatáu twf ym Mro Morgannwg. Ni ddylid ystyried seilwaith gwyrdd ac yn benodol ardaloedd o werth ecolegol uchel fel cyfyngiadau sy'n cyfyngu ar dwf yn unig. Yn hytrach, dylid ei ystyried yn ased seilwaith a all dyfu ei hun, gyda'r pwrpas o gyflymu adferiad natur. Cyflawnir hyn drwy fanteisio ar y cyfleoedd a gyflwynir gan y seilwaith gwyrdd presennol a cheisio dylanwadu ar dirfeddianwyr i'w reoli'n strategol gyda gwell darpariaeth mewn golwg. Bydd yr ardaloedd o werth ecolegol uchel a nodwyd yn y CDLl Newydd yn sail i hyn a dylid blaenoriaethu tir sy'n agos at y rhain ar gyfer gwneud y mwyaf o ddarpariaeth, yn unol â'r Strategaeth a nodir yng Nghynllun Seilwaith Gwyrdd y Cyngor.

## CADWRAETH NATUR A BIOAMRYWIAETH

6.189. Mae bioamrywiaeth gyfoethog ac amrywiol Bro Morgannwg yn cefnogi ystod eang o gynefinoedd a rhywogaethau bywyd gwyllt sy'n cael eu gwerthfawrogi'n fawr ac yn cyfrannu at gymeriad a naws am le nodedig y Fro. Mae'r asedau hyn yn cynnwys safleoedd ac ardaloedd o bwysigrwydd Ewropeaidd, cenedlaethol a lleol, yn ogystal â thirweddau, coetiroedd ac arfordir helaeth pwysig sy'n cynnwys Arfordir Treftadaeth Bro Morgannwg.

**SP19: BIOAMRYWIAETH A GWYTNWCH ECOSYSTEMAU**

Bydd bioamrywiaeth ym Mro Morgannwg yn cael ei warchod, ei gynnal a'i wella. Rhaid i ddatblygiad ddarparu budd net ar gyfer bioamrywiaeth a gwella gwytnwch a chysylltedd ecosystemau. Er mwyn cyflawni hyn, mae'n rhaid i'r holl ddatblygiadau:

A. Ddangos y bu budd net cyffredinol i fioamrywiaeth yn gymesur â natur a graddfa'r datblygiad.
B. Sicrhau bod rhywogaethau a chynefinoedd a warchodir gan y DU/Ewrop yn cael eu diogelu yn unol â gofynion statudol.
C. Diogelu cyfanrwydd safleoedd dynodedig statudol ac anstatudol gan sicrhau eu bod yn cael eu diogelu a'u rheoli'n briodol.
D. Cael eu cyfeirio oddi wrth ardaloedd o werth ecolegol uchel.
E. Ymgorffori seilwaith gwyrdd ar gamau cynnar dylunio, sy'n diogelu ac yn gwella nodweddion presennol y safle ac yn gwella cysylltedd y rhwydwaith ecolegol.
F. Cynnwys datrysiadau sy'n seiliedig ar natur o fewn datblygu i gefnogi bioamrywiaeth ac adeiladu gwytnwch ecosystemau o fewn y safle a'r ardal ehangach.

Dim ond os gellir dangos bod yr angen am ddatblygiad yn gorbwyso unrhyw niwed a achosir gan ddatblygiad a bod modd darparu mesurau budd bioamrywiaeth net y caniateir datblygiad ar neu sy’n effeithio’n andwyol ar safleoedd eraill nad ydynt wedi’u dynodi neu goridorau bywyd gwyllt gyda gwerth bioamrywiaeth.

6.190. Mae Polisi SP19 Bioamrywiaeth a Gwytnwch Ecosystemau yn cydnabod pwysigrwydd asedau naturiol Bro Morgannwg ac yn ceisio sicrhau eu bod yn cael eu diogelu, eu cynnal a'u gwella nid yn unig oherwydd eu gwerth cynhenid o ran cadwraeth natur, ond hefyd ar gyfer y manteision cymdeithasol, economaidd a chymunedol ehangach y maent yn eu darparu.

6.191. Cyflwynodd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ddyletswydd uwch o fioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau (Dyletswydd Adran 6) ar awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru. Wrth arfer eu swyddogaethau, mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth drwy sicrhau nad yw datblygiad yn achosi unrhyw golled sylweddol o gynefinoedd neu boblogaethau o rywogaethau a rhaid iddynt ddarparu budd net i fioamrywiaeth.

6.192. Felly, bydd angen datblygu i ddangos y gellir sicrhau budd net ar gyfer bioamrywiaeth. Gellir cyflawni budd net ar gyfer bioamrywiaeth trwy ystod o gamau gweithredu sy'n amrywio o greu cynefinoedd a/neu drefniadau rheoli tymor hir sy'n gwella cynefinoedd diraddiedig presennol ac yn gwella gwytnwch ecosystemau. Rhaid i fuddion fod yn hirdymor, yn fesuradwy, yn amlwg ac yn bennaf ar y safle. Dylid gwella bioamrywiaeth yn dilyn y dull cam-ddoeth o osgoi yn gyntaf, yna lleihau, gyda lliniaru fel dewis olaf ar gyfer digolledu unrhyw effaith negyddol. Lle nad yw'n bosibl cyflawni lliniaru a gwella ar y safle, rhaid darparu iawndal oddi ar y safle i sicrhau budd net bioamrywiaeth.

6.193. Mae rhwydweithiau o gynefinoedd naturiol a seilwaith gwyrdd yn darparu adnodd ecolegol gwerthfawr. Maent yn cysylltu safleoedd o bwysigrwydd bioamrywiaeth ac yn darparu cerrig camu ar gyfer ymfudo, gwasgaru a chyfnewid genetig rhywogaethau o fewn yr amgylchedd ehangach. Er mwyn osgoi darnio ac ynysu cynefinoedd naturiol, dylid diogelu rhwydweithiau o'r fath rhag datblygiad amhriodol a gwella lle bo hynny'n bosibl. Mae Asesiad Seilwaith Gwyrdd y Cyngor yn nodi’r ddarpariaeth seilwaith gwyrdd ym Mro Morgannwg ac mae'n cynnwys gweledigaeth, argymhellion a chynllun gweithredu ynghylch sut y gellir ymestyn a gwella seilwaith gwyrdd yn y Fro.

6.194. Gall dylunio a dewis lleoliad datblygiad newydd yn sensitif gael effaith gadarnhaol ar dreftadaeth adeiledig a naturiol y Fro. Yn yr un modd, bydd angen i ddatblygiadau newydd leihau ei effaith ar systemau naturiol, tirweddau, rhywogaethau a chynefinoedd a, lle bo hynny'n briodol, darparu cyfleoedd ar gyfer creu cynefinoedd newydd neu wella cynefinoedd presennol yn sensitif.

6.195. Cefnogir Polisi SP19 Bioamrywiaeth a Gwytnwch Ecosystemau gan SP11 Rhwymedigaethau Seilwaith a Chynllunio Cymunedol a SP17 Seilwaith Gwyrdd. Mae'r rhain yn gofyn i ddatblygiadau newydd ddarparu seilwaith cymunedol newydd gan gynnwys Seilwaith Gwyrdd a nodweddion sy'n cefnogi gwella bioamrywiaeth ac ymgorffori Seilwaith Gwyrdd yn y drefn honno.

**Atodiad 1 – Cyflenwad Tir Presennol - Safleoedd sydd â chaniatâd cynllunio gan gynnwys safleoedd sy'n cael eu hadeiladu – 1 Ebrill 2023**

| Haen Anheddiad | Enw'r Safle a'r Cyfeirnod Cynllunio | Ffynhonnell | Cyfanswm capasiti'r safle | Anheddau sydd heb ddechrau Ebrill 2023 | Anheddau sy'n cael eu hadeiladu Ebrill 2023 |
|---|---|---|---|---|---|
| Anheddiad Allweddol: Y Barri | Tir o'r enw East Quay, Glannau'r Barri, Y Barri 2019/01393/RES (Taylor Wimpey) | Dyrniad CDLl (gyda CC) | 58 | 0 | 30 |
| Anheddiad Allweddol: Y Barri | East Quay, (Tir i'r gorllewin o Cory Way, i'r de o'r doc Graving) 2019/01384/RES (Persimmon) | Dyraniad CDLl (gyda CC) | 62 | 0 | 62 |
| Anheddiad Allweddol: Y Barri | Tir datblygu yn East Quay, Glannau'r Barri - 2019/01385/RES (Barratts) | Dyraniad CDLl (gyda CC) | 56 | 0 | 13 |
| Anheddiad Allweddol: Y Barri | Tir datblygu yn East Quay, Glannau'r Barri (i'r Dwyrain o Cory Way) 2019/01386/RES (United Welsh) | Dyraniad CDLl (gyda CC) | 36 | 0 | 36 |
| Anheddiad Allweddol: Y Barri | Holm View (Cam 1, 11 annedd wedi'u cwblhau) Cam 2 cais am 31 annedd 2022/00397/REG3 (Cyngor Bro Morgannwg) | Dyraniad CDLl (gyda CC) | 42 | 31 | 0 |
| Anheddiad Allweddol: Y Barri | Hayes Wood, The Bendricks 2021/00378/REG3 (Cyngor Bro Morgannwg) | Ar hap | 53 | 41 | 12 |
| Anheddiad Allweddol: Y Barri | Clinig Iechyd Colcot, Winston Road, Y Barri 2021/01444/RG3 Cyngor Bro Morgannwg | Ar hap | 12 | 0 | 12 |
| Anheddiad Allweddol: Y Barri | 81-85, Heol Holltwn, Y Barri - cyn Dan Evans 2021/00622/FUL (Hafod) | Ar hap | 25 | 25 | 0 |
| Anheddiad Allweddol: Y Barri | Gwesty'r Castell, Jewel Street, Y Barri 2019/01062/FUL(Newydd) | Ar hap | 14 | 0 | 14 |
| Anheddiad Allweddol: Y Barri | Clwb Llafur Sea View, Dock View Road, Y Barri 2019/01061/FUL (Newydd) | Ar hap | 28 | 0 | 28 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Anheddiad Allweddol: Y Barri | Cyn Westy Windsor, Heol Holltwn, Y Barri 2019/01060/FUL (Newydd) | Ar hap | 18 | 0 | 18 |
| Anheddiad Allweddol: Y Barri | Haydock House, 1, Heol Holltwn, Y Barri 2013/01249/FUL (Hafod) | Ar hap | 16 | 0 | 16 |
| Anheddiad Allweddol y Barri | Tir yn Coldbrook Road East, Cadoxton 2021/01743/FUL (Cyngor Bro Morgannwg) | Ar hap | 20 | 0 | 20 |
| Anheddiad Allweddol Y Barri | Cyn Seidiannau Rheilffordd, Ffordd y Mileniwm, Y Barri 2020/00775/OUT yn disgwyl S106 (Hafod) | Ar hap | 56 | 56 | 0 |
| Canolfan Wasanaeth (Y Bont-faen) | Bloc 6ed Dosbarth y Bont-faen, Aberthin Road 2018/01408/FUL tra'n aros am S106. (Hafod) | Dyraniad CDLl (gyda CC) | 34 | 34 | 0 |
| Canolfan Wasanaeth (Y Bont-faen) | Tir i'r gogledd a'r gorllewin o Darren Close, Y Bont-faen 2017/00841/RES – Cam 1 – 169 o unedau<br>20/RES – Cam 2 – 306 o unedau (Taylor Wimpey) | Dyraniad CDLl (gyda CC) | 475 | 242 | 64 |
| Canolfan Wasanaeth (Llanilltud Fawr) | Tir cyfagos i Froglands Farm, Llanilltud Fawr- Tir i'r gogledd o West Camp - Safle B - Eastern Parcel, Llan-faes 2020/00352/OUT yn disgwyl S106 (Gweinidogion Cymru) | Dyraniad CDLl (gyda CC) | 90 | 90 | 0 |
| Canolfan Wasanaeth Llanilltud Fawr) | Cam 1 Tir rhwng Ffordd Fynediad Newydd y Gogledd a Heol Eglwys Brewis - Tir i'r Dwyrain o'r B4265 – Safle B - Western Parcel, Llan-faes-2020/00351/OUT-Cymeradwywyd 140 o anheddau yn disgwyl S106 (Gweinidogion Cymru) | Dyraniad CDLl (gyda CC) | 140 | 140 | 0 |
| Canolfan Wasanaeth (Penarth) | Tir yng nghefn Rhifau 2 i 4, St. Cyres Road, Penarth 2020/01232/RG3 (Cyngor Bro Morgannwg) | Ar hap | 14 | 0 | 14 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Canolfan Wasanaeth (Penarth) | 56a, Windsor Road, Penarth (cyn Monty Smith Ltd) 2018/01420/FUL (X-Stream Properties) | Ar hap | 21 | 0 | 21 |
| Canolfan Wasanaeth (Penarth) | Tir ger Oak Court- Cais cynllunio 2022/00294/HYB tai gofal ychwanegol 70 o welyau a 32 llety i bobl hŷn yn disgwyl S106 (Wales and West) | Dyraniad CDLl (gyda CC) | 102 | 102 | 0 |
| Canolfan Wasanaeth (Penarth) | Tir i'r de o Llandough Hill / Penarth Road Cais 2020/01590/HYB yn disgwyl S106 | Dyraniad CDLl (gyda CC) | 133 | 133 | 0 |
| Canolfan Wasanaeth (Penarth) | Tir i'r gogledd o Leckwith Road 2018/01023/FUL (Hafod) | Dyraniad CDLl (gyda CC) | 40 | 0 | 40 |
| Prif Anheddiad(Sain Tathan) | Tir i'r dwyrain o Eglwys Brewis (Tir oddi ar Cowbridge Road) 2019/01408/RES (Barratt David Wilson) | Dyraniad CDLl (gyda CC) | 253 | 72 | 80 |
| Prif Anheddiad(Sain Tathan) | Tir oddi ar Gilaston Road, Sain Tathan 2017/01263/FUL | Ar hap | 18 | 18 | 0 |
| Prif Anheddiad(Sain Tathan) | St. Athan Boys Village, Sain Tathan Cais 2022/00452/RES (JS Construction) | Ar hap | 15 | 15 | 0 |
| Prif Anheddiad(Y Rhws) | Tir i'r gogledd o Heol y Pentir, Y Rhws 2022/00602/RES (Wales and West) | Ar hap | 15 | 15 | 0 |
| Prif Anheddiad(Sili) | Cam 1: Tir i'r Gorllewin o Swanbridge Road, Sili (Taylor Wimpey) | Dyraniad CDLl (gyda CC) | 325 | 118 | 25 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Prif Anheddiad(Sili) | Cam 2: Tir i'r Gorllewin o Swanbridge Road, Silly. Cais 2016/01520 (Taylor Wimpey) | Dyraniad CDLl (gyda CC) | 190 | 190 | 0 |
| Mân Anheddiad Gwledig (Bonvilston) | Tir i'r dwyrain o Bonvilston, Cais 2015/00960/FUL (Acorn) | Dyraniad CDLl (gyda CC) | 120 | 72 | 8 |
| Mân Anheddiad Gwledig (Southerndown) | Dunraven Court, Beach Road, Southerndown 2019/00503/FUL | Ar hap | 22 | 22 | 0 |
| Mân Wledig - Y Wig | Tir yn St. Brides Road, Y Wig 2021/01081/FUL (Wales and West) | Ar hap | 17 | 17 | 0 |
| Gwledig Arall (Hensol) | Castell Hensol, Hensol Castle Road, Hensol 2018/00482/HYB | Ar hap | 16 | 16 | 0 |
| | | | **2,536** | **1,449** | **513** |
| **Cyfanswm Anheddau Ebrill 2023** | | | | **1,962** | |

### Atodiad 2 – Safleoedd sydd wedi'u mabwysiadu yn y CDLl a'u bwrw ymlaen

| Haen Anheddiad | Enw'r safle sydd wedi'i ddyrannu | Statws | Cyfanswm capasiti safle ym mis Ebrill 2023 |
|---|---|---|---|
| Anheddiad Allweddol (Y\| Barri) | Tir i'r gorllewin o Pencoedtre Lane | Dim cais cynllunio ar hyn o bryd – Safle yn rhan o Raglen Tai'r Cyngor | 135 |
| Canolfan Wasanaeth (Llanilltud Fawr) | Cyn-Ysgol Gynradd Eagleswell | Dim cais cynllunio ar hyn o bryd – Safle yn rhan o Raglen Cyflenwi Tai'r Cyngor | 72 |
| Canolfan Wasanaeth (Llanilltud Fawr) | Tir rhwng Ffordd Fynediad y Gogledd newydd a Heol Eglwys Brewis (dwyrain) | Dim cais cynllunio ar hyn o bryd - Cyflwyno Safle Ymgeisiol | 185 |
| Canolfan Wasanaeth (Y Bont-faen) | Tir ger St. Athan Road, Y Bont-faen - Tir rhwng Windmill Lane a St. Athan Road, Y Bont-faen | Cais cynllunio 2022/00958/FUL yn aros am benderfyniad | 105 |
| Canolfan Wasanaeth (Penarth) | Tir yn Upper Cosmeston Farm, Lavernock, | Cais cynllunio 2020/01170/OUT yn aros am benderfyniad | 576 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Prif Anheddiad (Sain Tathan) | Tir yn Church Farm, Sain Tathan - Dim cais cyfredol | Dim cais cynllunio ar hyn o bryd - Cyflwyno Safle Ymgeisiol | 250 |
| Prif Anheddiad(Sain Tathan) | Hen Safle Stadiwm / Tir ger Burley Place, Sain Tathan – Diddordeb gan ddatblygwr | Dim cais cynllunio ar hyn o bryd – Diddordeb gan ddatblygwr | 80 |
| Prif Anheddiad(Sain Tathan) | Tir yn Higher End Sain Tathan (Cam 2) | 2022/00266/RES - 25 Anheddau Fforddiadwy -cais cynllunio yn aros am benderfyniad | 25 |
| Anheddiad Sylfaenol (Y Rhws) | Tir i'r gogledd o'r Rheilffordd y Rhws (Dwyrain). | Cais 2022/00733/FUL a gyflwynwyd Mehefin 2022 - cais cynllunio yn aros am benderfyniad | 282 |
| | | **CYFANSWM** | **1,710** |

## Atodiad 3 – Safleoedd Tai Allweddol

### Anheddiad Allweddol – Y Barri

A3.1 Yn ystod cyfnod y CDLl mabwysiedig, mae cyfran sylweddol o dai newydd a chyfleusterau cysylltiedig a gynigiwyd ar gyfer y Barri wedi cael eu datblygu ar safle adfywio tir llwyd mawr ar Lannau’r Barri, a nodwyd fel safle strategol defnydd cymysg yn y CDLl. Mae'r rhan tai o'r cynllun hwn bellach bron â chael ei chwblhau, er bod cyfleoedd datblygu o hyd ar y Glannau at ddefnydd arall, yn cynnwys tir a nodwyd ar gyfer campws coleg posibl.

A3.2 Paratowyd Astudiaeth Capasity Trefol (ACT) i ystyried safleoedd datblygu posibl o fewn anheddiad diffiniedig presennol y Barri. Mae'r ACT wedi dangos nad oes unrhyw safleoedd eraill sy'n addas ar gyfer tai sy'n debygol o ddod ar gael ar dir a ddatblygwyd o'r blaen ar raddfa debyg i'r Glannau, er bod nifer o gyfleoedd mewnlenwi ac ailddatblygu a allai fod yn dderbyniol mewn egwyddor fel safleoedd annisgwyl dros gyfnod cynllun y CDLlN. Felly, er mwyn i'r Barri ddarparu ar gyfer lefel o dwf sy'n gymesur â'i safle fel Anheddiad Allweddol yn hierarchaeth aneddiadau (fel y nodir ym Mhapur Cefndir Adolygiad yr Arfarniad Aneddiadau) bydd angen ystyried estyniad cynaliadwy i'r anheddiad.

A3.3 Mae'r Papur Cefndir Opsiynau Gofodol yn nodi bod y Barri wedi'i gyfyngu gan lifogydd i'r de o'r dref, cyfyngiadau tirwedd i'r gogledd, a’r tir amaethyddol Gorau a Mwyaf Hyblyg (GMH) i'r dwyrain. O ystyried y cyfyngiadau hyn, mae'r cyfleoedd ar gyfer twf cynaliadwy y tu hwnt i ffiniau aneddiadau presennol y dref yn gyfyngedig.

A3.4 Drwy'r broses asesu safle ymgeisiol, nodwyd safle allweddol i’r Gogledd Ddwyrain o’r Barri (SP4 KS1) ar ardal o dir amaethyddol isel yn bennaf. Gallai'r safle 71.1 hectar ddarparu hyd at 1,500 o anheddau, er y rhagwelir mai dim ond 900 o anheddau y byddai disgwyl iddynt gael eu darparu o fewn cyfnod cynllun y CDLlN hyd at 2036. Byddai gofyniad am o leiaf 30% o dai fforddiadwy (300 o unedau), gyda'r safle'n gwneud cyfraniad pwysig wrth ddarparu tai fforddiadwy yn un o'r ardaloedd sydd â'r angen mwyaf.

A3.5 Yn unol â'r strategaeth twf cynaliadwy, byddai datblygu'r raddfa a gynigir yn y lleoliad hwn yng Ngogledd Ddwyrain y Barri yn caniatáu i dai newydd gyd-fynd â chyflogaeth, gwasanaethau a chyfleusterau i leihau'r angen i deithio. Byddai'r safle arfaethedig yn cwmpasu amrywiaeth o ddefnydd yn cynnwys ysgol gynradd a chanolfan bentref newydd gyda defnydd fel caffis, unedau manwerthu a gweithdai/unedau cydweithio. Mae adeilad porth hefyd yn cael ei gynnig wrth fynedfa'r safle, a allai ymgorffori sawl defnydd sydd nid yn unig yn gwasanaethu'r safle ond hefyd Ystâd Pentref Pencoedtre gerllaw. Yn ogystal â'r cymysgedd o ddefnydd ar y safle, mae archfarchnad eisoes wedi'i lleoli wrth y fynedfa ac mae ysgol uwchradd wedi'i lleoli'n uniongyrchol i'r de. Bydd angen rhoi ystyriaeth bellach i'r hyn sydd yn gwmpas ac yn gymysgedd ymarferol a phriodol o ddefnydd amhreswyl.

A3.6 Elfen allweddol arall o’r strategaeth yw bod y datblygiad yn canolbwyntio ar leoliadau sy'n cael eu gwasanaethu'n dda gan orsafoedd rheilffyrdd presennol ac arfaethedig ac mewn ardaloedd sydd â chysylltiadau bws da. Mae'r rhwydwaith rheilffyrdd yn gwasanaethu'r Barri yn dda gyda phedair gorsaf a 4 gwasanaeth yr awr i Gaerdydd. Mae mapiau isochrone amser teithio a baratowyd gan Trafnidiaeth Cymru yn dangos bod y safle hwn ar hyn o bryd o fewn cylch 15 munud i orsaf Tregatwg a bod y rhan fwyaf deheuol o'r safle o fewn taith gerdded 20 munud.


A3.7 Cydnabyddir bod y safle gerllaw Ffordd Gyswllt Dociau'r Barri yr A4231. Fodd bynnag, bydd yn ofynnol i ddarparu gwelliannau Teithio Llesol sylweddol i wella cysylltedd â'r ardal gyfagos. Byddai hyn yn cynnwys darparu lôn i gerddwyr a lôn feicio ar yr A4321, gan gysylltu â'r llwybr Teithio Llesol presennol ar hyd Port Road i'r gogledd a chylchfan Heol Caerdydd i'r de. Byddai gwelliant o'r fath yn cynnig buddion sylweddol o ran darparu llwybrau Teithio Llesol sy'n gwasanaethu'r dref a rhwydwaith Teithio Llesol ehangach. Ar ben hynny, mae gwelliannau arfaethedig i ddarparu llwybrau cerdded a beicio diogel o'r safle i orsaf Tregatwg trwy'r ardal breswyl bresennol, ac yn yr orsaf ei hun lle cynigir parcio beiciau yn ddiogel a mynediad gwell i gerddwyr i'r ardal.

A3.8 Byddai gwelliannau i'r priffyrdd sy'n gysylltiedig â datblygu'r safle yn cynnwys cael gwared ar y gylchfan wrth fynedfa'r safle (Gilbert Lane) a gosod cyffordd signalau yn ei lle, gyda chroesfannau i feicwyr a cherddwyr yn cael blaenoriaeth, fydd yn gwella cysylltedd â'r ystâd dai gyferbyn trwy ddulliau teithio cynaliadwy. Yn ogystal, cynigir dolen fysiau i wasanaethu'r safle, gan gysylltu â gwasanaethau presennol yn y Barri lle bo hynny'n ymarferol.

A3.9 Mae'r safle'n ffinio â dwy ardal Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA yng Nghoedydd y Barri. Bydd y SoDdGA yn cael eu gwarchod trwy glustogi priodol. Mae cyfle penodol yn bodoli i wella cysylltedd ecolegol rhwng lleiniau SoDdGA Coedydd y Barri sydd wedi eu gwahanu ar hyn o bryd, i'r gogledd o'r safle. Mae de'r safle yn wlyptiroedd yn bennaf ac mae hyn yn rhoi cyfle sylweddol ar gyfer seilwaith gwyrdd amlswyddogaethol, yn cynnwys rheoli dŵr, gwelliannau i fioamrywiaeth ac ymgysylltu â gofod amwynder cyhoeddus. Yn ogystal, bydd angen i'r safle ddarparu seilwaith gwyrdd amlswyddogaethol, yn cynnwys caeau chwarae.

A3.10 Mae cynllun cyd-destun wedi'i gynnwys yn Ffigur A1 a chynllun eglurhaol cychwynnol lefel uchel wedi’i nodi yn Ffigur 14. Bydd hyn yn cael ei fireinio drwy'r broses uwch-gynllunio ac yn ystod cyfnod Blaendal, bydd manylion pellach, yn cynnwys yr egwyddorion allweddol ar gyfer creu lleoedd ar gyfer pob safle, yn cael eu diffinio.

## Ffigur A1 Cynllun Cyd-destun Tir Gogledd Ddwyrain y Barri



**Aneddiadau Canolfan Wasanaeth – Y Bont-faen, Penarth, Llanilltud Fawr**

A3.11 Mae aneddiadau y Bont-faen, Penarth a Llanilltud Fawr i gyd wedi cael eu nodi fel aneddiadau canolfan wasanaeth, wedi ei lywio gan yr Adolygiad Arfarnu Aneddiadau, sy'n adlewyrchu eu rôl yn darparu amrywiaeth o wasanaethau sy'n gwasanaethu anghenion dyddiol eu preswylwyr ac yn gweithredu fel hybiau pwysig i'r rhai sy'n byw mewn aneddiadau llai, cyfagos. Mae Penarth a Llanilltud Fawr yn cael eu gwasanaethu'n dda gan y rhwydwaith rheilffyrdd, gyda Phenarth â 3 gorsaf (Penarth, Heol Dingle a Cogan). Nid oes gan y Bont-faen orsaf ond mae ganddi gysylltedd bysiau da â Chaerdydd a Phen-y-bont ar Ogwr ac fe'i hystyrir yn anheddiad cynaliadwy iawn gydag amrywiaeth o wasanaethau a chyfleusterau.

A3.12 Mae gan bob un o'r Aneddiadau Canolfan Wasanaeth ddyraniadau CDLl mabwysiedig mawr sydd naill ai'n cael eu hadeiladu neu sy'n debygol yn realistig o gael eu datblygu o fewn cyfnod cynllun y CDLlN. Yn y Bont-faen, mae'r dyraniad yn Fferm Darren, sy'n cynnwys 475 o anheddau, yn cael ei adeiladu ar hyn o bryd. Ni fwriedir i'r datblygiad gael ei gwblhau tan sawl blwyddyn i mewn i gyfnod y cynllun. Bydd y safle hwn, ynghyd â dau safle tai arall sydd wedi eu dyrannu yn y dref sy'n amodol ar geisiadau cynllunio neu’n aros i gytundeb Adran 106 gael ei lofnodi, yn darparu'r rhan fwyaf o farchnad a thai fforddiadwy y dref yn y dyfodol. O ganlyniad, ni ystyrir bod angen dyraniadau ‘allweddol’ mwy pellach ar y dref. Gall datblygiadau ar raddfa lai mewn lleoliadau cynaliadwy fod yn dderbyniol os nodir angen am ddefnydd o'r fath.

A3.13 Mae safle Fferm Cosmeston Uchaf ym Mhenarth yn allweddol i dwf yr anheddiad ar gyfer y farchnad a thai fforddiadwy yn y dyfodol. Ar hyn o bryd mae'r safle 576 o anheddau a ddyrannwyd yn destun cais cynllunio ac ystyrir yn realistig y bydd yn cael ei gyflwyno. Gan fod y safle yn eiddo i Lywodraeth Cymru, bydd yn darparu 50% o dai fforddiadwy. Yn ogystal, mae sawl cynllun llai naill ai gyda chaniatâd cynllunio neu'n cael eu hadeiladu ym Mhenarth. Oherwydd ei leoliad arfordirol a chyfyngiadau eraill, mae cyfleoedd datblygu yn gyfyngedig. Ystyriodd yr Astudiaeth Capasiti Trefol safleoedd posibl yn ardal Penarth ac er bod nifer o safleoedd y gellid eu cyflwyno o bosibl fel safleoedd annisgwyl ar raddfa gymharol fach, nid oes cyfleoedd arwyddocaol eraill yn y dref.

A3.14 Dyrennir tir ar gyfer tai rhwng ffordd fynediad y gogledd a Heol Eglwys Brewis, a fyddai'n gwasanaethu marchnad dai Llanilltud Fawr. Mae'r safle'n cynnwys tair llain, y mae gan ddwy ohonynt ganiatâd cynllunio ar gyfer tai, (yn aros am a106) ac ystyrir ei fod yn realistig y bydd y drydedd yn cael ei chyflwyno. Gyda'i gilydd, byddai'r tair llain yn darparu 415 o anheddau, sy'n safle sy'n gymesur â rôl tref Llanilltud Fawr.

**Prif Aneddiadau yn y Coridor Twf Strategol**

A3.15 Mae prif aneddiadau Dinas Powys, Y Rhws, Sain Tathan, Llandochau (Penarth) a Sili wedi'u nodi yn yr ardal twf strategol ac felly maent yn ardaloedd lle gallai lefelau datblygu cynaliadwy fod yn dderbyniol.

Dinas Powys

A3.16 Dinas Powys yw'r anheddiad sy’n cael ei wasanaethu orau o'r prif aneddiadau o ran y rhwydwaith rheilffyrdd gyda gorsafoedd yn Eastbrook a Dinas Powys, a gorsaf Cogan hefyd o fewn pellter cerdded rhesymol. Mae'r anheddiad yn sgorio'n uchel yn yr Adolygiad Arfarnu Aneddiadau oherwydd nifer y gwasanaethau a'r cyfleusterau yn yr ardal.


A3.17 Mae tir wedi'i nodi i fod ar safle allweddol i'r Gogledd o Ddinas Powys (SP4 KS2). Mae'r safle yn 12.7 hectar a gallai gynnwys hyd at 250 o anheddau, gydag o leiaf 40% o dai fforddiadwy.

A3.18 Byddai'r safle'n cyd-fynd â'r strategaeth, gan fod mapiau Trafnidiaeth Cymru yn dangos bod gorsaf Eastbrook yn daith gerdded o 10 fan bellaf o'r safle. Mae ganddo gysylltiad da hefyd â gwasanaethau, cyfleusterau a chyfleoedd cyflogaeth, gydag ysgolion cynradd, meddygfa a darpariaeth fanwerthu leol wedi'u lleoli yn y pentref ac Ysbyty Llandochau yn agos at y safle. Byddai mynediad i'r safle oddi ar gyffordd newydd â signalau o Heol Caerdydd, fydd yn golygu bod angen ail-drefnu'r ffordd i ymgorffori lôn aros a chysylltiadau Teithio Llesol gwell. Bydd angen cysylltiadau Teithio Llesol o'r safle i orsaf Eastbrook, ysgolion lleol a chysylltiadau â chyfleusterau yng Nghaerdydd.

A3.19 Cynigir coridor seilwaith gwyrdd aml-swyddogaethol trwy ogledd y safle a byddai dyrannu’r tir hwn yn rhoi cyfle i wella'r cynefinoedd ecolegol presennol a chreu rhai newydd, sy'n amgylchynu'r safle. Byddai cyflwyno cynefinoedd amrywiol hefyd yn cael ei gyflawni trwy ddarparu SDCau.

A3.20 Mae cynllun cyd-destun wedi'i gynnwys yn Ffigur A2 a chynllun eglurhaol cychwynnol lefel uchel wedi’i nodi yn Ffigur 15. Bydd hyn yn cael ei fireinio drwy'r broses uwch-gynllunio.

## Ffigur A2 Cynllun Cyd-destun Tir i'r Gogledd o Ddinas Powys



Y Rhws

A3.21 Mae prif anheddiad y Rhws mewn safle da ar linell rheilffordd Bro Morgannwg gyda gorsaf bresennol mewn lleoliad canolog yn y pentref, yn cynnig cysylltiadau bob awr (ddwywaith yr awr cyn bo hir) â'r Barri, Caerdydd a Phen-y-bont ar Ogwr.

A3.22 Mae gan y Rhws nifer o gyfleusterau, yn cynnwys dwy ysgol gynradd a siopau manwerthu lleol, ac mae hefyd yn lleoliad lle y gellid alinio tai â chyfleoedd cyflogaeth presennol ac yn y dyfodol, o ystyried bod y safle yn agos i Faes Awyr Caerdydd a'r Ardal Fenter, yn ogystal â Pharc Ynni Gwyrdd arfaethedig Aberddawan.


A3.23 Mae cynllun 450 o anheddau wedi ei nodi ar dir ar Readers Way ar safle 29.3 hectar, gydag o leiaf 35% o dai fforddiadwy. Bydd y safle yn un preswyl yn bennaf gyda photensial ar gyfer elfen o ddefnydd cymysg. Ar hyn o bryd mae'r safle o fewn taith gerdded 20 munud i'r orsaf a bydd cysylltiadau teithio llesol yn cael eu gwella i gysylltu'r safle â'r ardal ehangach.

A3.24 Cydnabyddir bod y safle'n agos at redfa'r maes awyr felly er mwyn lliniaru unrhyw faterion amwynder, mae'r uwchgynllun yn cynnig tai ar ran orllewinol y safle, gyda'r rhan ddwyreiniol yn gyfan gwbl ar gyfer gwelliannau seilwaith gwyrdd, gan roi cyfle i gyflawni amlswyddogaeth a chysylltedd cryf. Yn amlwg, mae hyn yn cynnwys darparu lle ar gyfer tyfu bwyd. Nodir defnydd cymysg arall ar raddfa fach hefyd.

A3.25 Mae Pwll Readers Way yn Safle o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur (SoBCN) wedi'i leoli 50 metr i'r de o'r safle. Mae cyfleoedd yn bodoli i wella cysylltedd o'r nodwedd hon i'r ddarpariaeth seilwaith gwyrdd well ar hyd ffin ddwyreiniol y safle.

A3.26 Mae cynllun cyd-destun wedi'i gynnwys yn Ffigur A3 a chynllun eglurhaol cychwynnol lefel uchel wedi'i nodi yn Ffigur 16. Bydd hyn yn cael ei fireinio drwy'r broses uwch-gynllunio.

## Ffigur A3 Cynllun Cyd-destun Tir yn Readers Way, y Rhws



Sain Tathan

A3.27 Mae'r CDLl mabwysiedig yn nodi Sain Tathan fel Ardal Cyfle Strategol, gan gydnabod y cyfleoedd sy'n deillio o Ardal Fenter Bro Tathan a datblygiad Ffordd Fynediad y Gogledd ochr yn ochr â thai i gefnogi'r rôl hon. Mae Bro Tathan wedi llwyddo i ddenu nifer o fusnesau sy'n darparu cyflogaeth, ac mae nifer o safleoedd tai a ddyrannwyd wedi cael eu cyflwyno.

A3.28 Mae'r strategaeth CDLlN yn parhau i geisio alinio tai a chyflogaeth a chyda'r potensial datblygu sy'n parhau ym Mro Tathan, yn ogystal â Pharc Ynni Gwyrdd arfaethedig Aberddawan, mae Sain Tathan yn parhau i fod yn rhan allweddol o'r strategaeth.

A3.29 Mae'r Strategaeth a Ffefrir hefyd yn ceisio canolbwyntio'r datblygiad o amgylch nodau trafnidiaeth gynaliadwy allweddol. Cynhaliwyd astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer gorsaf yn Sain Tathan, sy'n nodi y gallai gorsaf newydd gael ei lleoli yn Sain Tathan, yn amodol ar waith ymchwilio pellach. Byddai dyrannu dau safle allweddol yn agos at y safle a ffefrir ar gyfer gorsaf yn helpu i gefnogi'r achos busnes trwy sicrhau bod digon o fàs critigol o bobl yn byw ger yr orsaf i'w chefnogi.

A3.30 Mae dau safle preswyl yn bennaf wedi'u nodi fel safleoedd allweddol yn Sain Tathan, gan adlewyrchu ei botensial i alinio swyddi a thai. Mae tir ar Church Farm (SP4 KS4) yn cynnwys tir i'r dwyrain o'r anheddiad, sy'n cael ei ddyrannu yn y CDLl mabwysiedig ar gyfer tai, ynghyd â llain gyfagos o dir. Gyda'i gilydd, rhagwelir y bydd y safle 24.6 hectar hwn yn darparu rhwng 250 a 550 o anheddau. Bwriedir cael mynediad i'r safle oddi ar Gileston Road.

A3.31 Mae darparu ardal fawr o seilwaith gwyrdd yn ne-ddwyrain y safle, yn rhoi cyfle sylweddol am amlswyddogaeth ac mae'n cynnwys yn ddangosol y cysylltedd Teithio Llesol o Sain Tathan i'r mynediad i safle Parc Ynni Gwyrdd Aberddawan. Byddai dyrannu'r safle hwn yn rhoi cyfle i wella'r cynefinoedd presennol a chreu cynefinoedd newydd, sy'n amgylchynu'r safle. Byddai cyflwyno cynefinoedd amrywiol hefyd yn cael ei gyflawni trwy ddarparu SDCau.

A3.32 Cynigir yr ail safle allweddol ar dir i'r gorllewin o Sain Tathan (SP4 KS5). Mae'r safle 28 hectar hwn yn cael ei gynnig ar gyfer cynllun preswyl yn bennaf. Yn ogystal, nodir llain ychwanegol o dir o fewn yr un perchnogaeth sydd wedi'i leoli i'r dwyrain fel y lleoliad a ffefrir ar gyfer yr orsaf arfaethedig, ochr yn ochr â defnydd masnachol.

A3.33 Mae angen darparu tirlunio sensitif i ategu'r asedau treftadaeth i'r gogledd o'r safle. Byddai dyrannu'r safle hwn yn rhoi cyfle i wella'r cynefinoedd presennol a chreu cynefinoedd newydd, sy'n amgylchynu'r safle. Mae angen darparu ardal fawr o seilwaith gwyrdd amlswyddogaethol yng ngogledd ddwyrain y safle, yn cynnwys caeau chwarae a chysylltedd Teithio Llesol i Sain Tathan.

A3.34 Bydd gofyn i'r ddau safle ddarparu o leiaf 35% o dai fforddiadwy. Rhoddir ystyriaeth hefyd i'r ffordd y gall darparu safleoedd newydd yn Sain Tathan gyfrannu at anghenion addysgol yn ardal Gorllewin y Fro.

A3.35 Mae cynlluniau cyd-destun wedi'u cynnwys yn Ffigur A4 ac A5 a chynlluniau dangosol cychwynnol lefel uchel wedi'u nodi yn Ffigur 17 a 18. Bydd y cynlluniau hyn yn cael eu mireinio drwy'r broses uwch-gynllunio.


Sili

A3.36 Mae'r CDLl mabwysiedig yn dyrannu safle tai sylweddol sy'n cynnwys 515 o anheddau ar draws dau gyfnod. Mae gan y ddau gam y fantais o ganiatâd cynllunio ac ar 1 Ebrill 2023, nid oedd 308 o unedau wedi cael eu cychwyn. Bydd darparu tai ar y safle hwn yn cefnogi rôl Silly fel prif anheddiad.

Llandochau (Penarth)

A3.37 Yn ddiweddar, cymeradwywyd caniatâd cynllunio (yn aros am a106) ar safle rhwng Llandochau a Phenarth ac mae safle arall a ddyrannwyd o 40 o anheddau yn cael ei adeiladu ar hyn o bryd. Bydd y safleoedd presennol hyn yn cefnogi rôl Llandochau fel prif anheddiad.


## Ffigur A4 Cynllun Cyd-destun Tir ar Church Farm Sain Tathan




### Allwedd

- Fferyllfa
- Is-gangen Meddygfa
- Llyfrgell
- Ysgol Gynradd
- Gorsaf Drenau Bosib
- Llwybr Beicio
- Llwybrau Bysiau'r Fro
- Llwybr Trên
- Safle Bws
- Safle Allweddol
- Anheddiad
- Ardal Fenter
- Ardal Cyfle i Adfywio Cyflogaeth

## Ffigur A5 Cynllun Cyd-destun Tir i'r Gorllewin o Sain Tathan



RLDP CDLN

**Cyngor Bro Morgannwg**
Adfywio a Chynllunio
Swyddfa'r Doc
Dociau'r Barri
Y Barri CF63 4RT

LDP@valeofglamorgan.gov.uk
www.bromorgannwg.gov.uk

